WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

21 Tachwedd 2013
www.wao.gov.uk

# Cyllid addysg uwch



Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyfl wyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Aelodau tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru oedd Matthew Mortlock a Sophie Potter o dan gyfarwyddyd Paul Dimblebee a chyda chyfraniad gan PricewaterhouseCoopers LLP (PwC).

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyfl wyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyfl awni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfi aeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyfl wyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhiad i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Tachwedd 2013



# Cynnwys


## Crynodeb 6

Argymhellion 15

## 1 Roedd arfarniad Llywodraeth Cymru o’i hopsiynau polisi ar gyfer ffioedd dysgu’n gyfyngedig ac mae’r amcangostau wedi cynyddu ers penderfynu ynghylch y polisi hwnnw 18

Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod angen iddi ymateb yn gyflym i benderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr, roedd y ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i arfarnu ei hopsiynau polisi’n gyfyngedig 19

Erbyn hyn, disgwylir i gost y Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer 2012-13 tan 2016-17 fod yn sylweddol uwch na’r hyn a ragwelwyd ym mis Tachwedd 2010, ond nid yw amcan-gost rhoi benthyciadau i fyfyrwyr wedi newid ac mae’r taliadau a amcangyfrifwyd ar gyfer cost diddymu dyledion benthyciadau’n llai 29

## 2 At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi rhoi’r polisi ffioedd dysgu newydd ar waith yn effeithiol, ond mae nifer o faterion cysylltiedig i’w datrys o hyd 35

Mae Llywodraeth Cymru wedi goruchwylio’r gwaith yr oedd gofyn ei wneud i roi’r polisi ffioedd dysgu presennol ar waith yn effeithiol hyd yn hyn, ond mae angen cymryd rhagor o gamau ym maes ffioedd dysgu rhan-amser, i fynd i’r afael â gwendidau wrth brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr, ac o ran rôl CCAUC 35

Yn gyffredinol, mae CCAUC wedi ymateb yn effeithiol i’r heriau y mae wedi’u hwynebu yn sgil polisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru 47

Mae’r polisi ffioedd dysgu newydd wedi cael ei roi ar waith ar adeg pan oedd Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ceisio rheoli effaith y camau i leihau eu costau rhedeg 61

## 3 Er eu bod yn wynebu anawsterau ac ansicrwydd, mae iechyd ariannol a threfniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan 63

Mae iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan, er bod sefydliadau'n wynebu anawsterau ac ansicrwydd sylweddol mewn amgylchedd gweithredu sy'n gynyddol gystadleuol 64

Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yn datblygu mewn ffordd briodol i'w helpu i wynebu'r heriau a ddaw i'w rhan yn y dyfodol 71


## Atodiadau


Atodiad 1 - Methodoleg 75

Atodiad 2 - Trefniadau ffioedd dysgu a chymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig amser llawn sy'n hanu o'r DU ac sy'n dechrau ar eu haddysg uwch yn 2012/13 78

Atodiad 3 - Canlyniadau 'Ailddyrannu Niferoedd Myfyrwyr yn Strategol' a dyraniadau'r 'Uchafswm Grant Ffioedd Dysgu' ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2013/14 85

Atodiad 4 - Perfformiad o gymharu â thargedau strategol y sector addysg uwch, 2008/09 tan 2011/12 87

Atodiad 5 - Data ariannol ategol ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru, 2010/11 a 2011/12 91

# Crynodeb

1 Ar 30 Tachwedd 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2012/13 ymlaen[1] yn cael codi ffioedd dysgu hyd at £9,000 y flwyddyn ar israddedigion amser llawn newydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai dim ond be bai sefydliadau'n gallu dangos ymrwymiad i ehangu mynediad ac i amcanion polisi eraill Llywodraeth Cymry byddent yn cael codi ffioedd uwch na £6,000 - a ostyngwyd wedi hynny i £4,000.

2 Er mwyn tafoli cost y ffioedd dysgu uwch, cynigiodd Llywodraeth Cymru Grant Ffioedd Dysgu, gwerth hyd at £5,535[2], i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ni waeth ymhle yr oeddent yn dewis astudio yn y DU. (Mae hwn ar gael hefyd i fyfyrwyr sy'n hanu o'r UE sy'n astudio yng Nghymru[3]). At hynny, byddai'r trothwy ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr - benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth - yn codi o £15,000 i £21,000.

3 Roedd darparu ar gyfer ffioedd dysgu blynyddol hyd at £9,000 a chodi'r trothwy ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn adlewyrchu'r cynigion ar gyfer sefydliadau yn Lloegr a gafwyd gan Lywodraeth y DU ar 3 Tachwedd 2010. Roedd cynigion Llywodraeth y DU yn ymateb i gyhoeddi, adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr - 'Adolygiad Browne'[4] - ar 12 Hydref 2010.

4 Ym mis Mehefin 2011 ac ym mis Medi 2011, yn y drefn honno, cadarnhaodd Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon y gallai sefydliadau yn y rhannau hynny o'r DU hefyd godi ffioedd dysgu hyd at £9,000 o 2012/13 ymlaen ar fyfyrwyr newydd a oedd yn hanu o rannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ill dwy y byddai'r ffioedd i'w myfyrwyr hwy eu hunain yn is, gyda Llywodraeth yr Alban yn talu'n llawn y ffioedd a godid gan sefydliadau'r Alban ar fyfyrwyr a oedd yn hanu o'r Alban. Oherwydd bod gwledydd y DU yn gwahaniaethu fwyfwy o ran eu polisïau ffioedd dysgu, mae costau ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n dilyn yr un cwrs yn yr un sefydliad, a'r ffordd y cânt eu cyllido, bellach yn amrywio'n fawr (Atodiad 2)[5].

5 Mae cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu wedi newid llif cyllid addysg uwch Llywodraeth Cymru (Ffigur 1). Bellach, telir cost y Grant Ffioedd Dysgu newydd o'r cyllid y byddai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn arfer ei ddosbarthu'n uniongyrchol i sefydliadau addysg uwch Cymru.

1 Drwy'r adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at wybodaeth ariannol ac at wybodaeth arall sydd wedi'i seilio ar flynyddoedd academaidd (gan gyfeirio, er enghraifft, at 2012/13) ac ar flynyddoedd ariannol (gan gyfeirio, er enghraifft, at 2012-13). Bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rheoli eu cyfrifon ar sail blwyddyn ariannol, ond mae polisïau sy'n ymwneud â ffioedd dysgu a chyllid myfyrwyr yn berthnasol i flynyddoedd academaidd a bydd sefydliadau addysg uwch yn rheoli eu cyfrifon ar sail blwyddyn academaidd. Bydd CCAUC hefyd yn cyllido'r sector addysg uwch ar sail blwyddyn academaidd.

2 £5,535 oedd y gwahaniaeth rhwng y ffi dysgu uchaf posibl, sef £3,465, a fyddai wedi cael ei chodi Nghymru yn 2012/13 pe na bai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu caniatáu i sefydliadau godi ffioedd uwch a gosod terfyn newydd, sef £9,000. Gall myfyrwyr cymwys fanteisio ar fenthyciad ffioedd dysgu ar gyfer y £3,465 sy'n weddill.

3 Rhaid i Lywodraeth Cymru, o dan reolau'r UE, gynnig yr un cymorth ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n hanu o aelod-wladwriaethau eraill yr UE ond sy'n astudio yng Nghymru. Nid yw'r un rheolau'n berthnasol i fenthyciadau cynhaliaeth nac i grantiau cynhaliaeth, er y gall myfyrwyr sy'n hanu o'r UE fod yn gymwys i gael cymorth cynhaliaeth o dan rai amgylchiadau penodol. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol ychwaith i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ond sy'n dod o rannau eraill o'r DU.

4 Independent review of higher education funding and student finance, *Securing a Sustainable Future for Higher Education*, Hydref 2010. Cadeirydd y grŵp adolygu oedd yr Arglwydd Browne o Madingley.


5 Mae gwahaniaethau hefyd yn y cymorth o fathau eraill a gaiff myfyrwyr sy'n hanu o wahanol rannau'r DU ar ffurf benthyciad cynhaliaeth a grantiau.



Gan fod pob myfyriwr sy'n hanu o Gymru yn gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu, mae rhywfaint o'r arian hwnnw gan CCAUC bellach yn dilyn y myfyrwyr hynny i sefydliadau y tu allan i Gymru. Ar y llaw arall, bydd sefydliadau yng Nghymru bellach yn elwa o'r incwm yn sgil ffioedd ychwanegol a godir ar fyfyrwyr sy'n hanu o rannau eraill o'r DU.

6 Wrth gyhoeddi cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu, dywedodd Llywodraeth Cymru, gan fod sefydliadau hefyd yn gallu codi ffioedd uwch ar fyfyrwyr sy'n dod i Gymru o rannau eraill o'r DU, na fyddai'r sector addysg uwch yn waeth ei fyd mewn termau real yn 2016-17 nag y byddai yn 2012-13. Mae'r dadansoddiad wedi'i ddiweddaru sy'n sail i ragamcanion Llywodraeth Cymru yn ei *Datganiad Polisi ar Addysg Uwch* yn atgyfnerthu hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi parhau i bwysleisio ei fod wedi cyllidebu ar gyfer ei phecyn cyffredinol o gymorth cyllid myfyrwyr tan ddiwedd 2015-16. A thybio na fydd y polisi'n newid cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2016, ni fyddai unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru yn debygol o gael eu rhoi ar waith cyn dechrau'r flwyddyn academaidd

**Ffigur 1 – Llifau cyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru o ddechrau 2012/13[1, 2]**




Nodiadau

1 Dim ond yr arian sy'n llifo allan o Lywodraeth Cymru a ddangosir yn Ffigur 1. Nid yw'n dangos yr arian sy'n llifo i mewn i Lywodraeth Cymru o Drysorlys EM, sef yr arian sy'n sail ar gyfer talu benthyciadau i fyfyrwyr, neu ar gyfer ad-dalu benthyciadau i Lywodraeth Cymru drwy Refeniw a Thollau EM a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru hefyd yn cael arian gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Nid yw'r rheini'n cael eu dangos yma ond mae'r arian hwn yn y pen draw yn llifo allan o gyllideb Llywodraeth Cymru, er enghraifft gan gyrff y GIG.

2 Roedd Llywodraeth Cymru ar y dechrau wedi rhagweld y byddai CCAUC yn talu'r Grant Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i sefydliadau addysg uwch Cymru, yn hytrach na thrwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

2017/18. Ar 18 Tachwedd 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer adolygiad eang ei gwmpas a fydd yn cynnwys gwerthusiad o'r polisi ffioedd dysgu presennol. Bydd yr adolygiad yn dechrau yn 2014 ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na fydd yn dod i ben cyn yr etholiadau yn 2016.

7 Aethom ati i archwilio a yw sefyllfa ariannol addysg uwch yn iach ai peidio, yn enwedig o ystyried y newidiadau diweddar ym mholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido addysg uwch. Yn benodol, archwiliwyd y canlynol: 7 Aethom ati i archwilio a yw sefyllfa ariannol addysg uwch yn iach ai peidio, yn enwedig o ystyried y newidiadau diweddar ym mholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido addysg uwch. Yn benodol, archwiliwyd y canlynol:

- a a oedd y dadansoddiad a oedd yn sail i bolisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru yn gadarn;
- b a oedd trefniadau rheoli Llywodraeth Cymru a CCAUC ar gyfer gweithredu'r polisi ffioedd dysgu yn effeithiol; ac
- c a yw sefydliadau addysg uwch Cymru yn ariannol iach ac a oes ganddynt drefniadau cynllunio a rheoli ariannol priodol.

8 Seilir y canfyddiadau a'r casgliadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar ein hadolygiad o ystod o ddogfennau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, CCAUC, sefydliadau addysg uwch a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal ag ar gyfweliadau gyda'r partïon hynny. Gofynnwyd i PricewaterhouseCoopers LLP (PwC) ein cynorthwyo, ac, yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2013, ymwelodd PwC â naw o sefydliadau addysg uwch, gan gyfweld â gwahanol staff uwch a llywodraethwyr. Disgrifir y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth yn llawn yn Atodiad 1.

9 Rydym wedi dod i'r casgliad, er bod y ffordd oedd Llywodraeth Cymru wedi arfarnu ei hopsiynau polisi'n gyfyngedig a bod yr amcangostau wedi cynyddu, at ei gilydd, bod Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi rhoi'r polisi newydd ar waith yn effeithiol a bod iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch yn gyffredinol gadarn.

## Roedd arfarniad Llywodraeth Cymru o'i hopsiynau polisi ar gyfer ffioedd dysgu'n gyfyngedig ac mae'r amcangostau wedi cynyddu ers penderfynu ynghylch y polisi hwnnw

10 **Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod angen iddi ymateb yn gyflym i benderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr, roedd y ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i arfarnu ei hopsiynau polisi'n gyfyngedig.** Roedd Llywodraeth Cymru am ymateb yn gyflym i ddatblygiadau polisi yn Lloegr er mwyn rhoi sicrwydd i sefydliadau addysg uwch Cymru ac i fyfyrwyr. Mae'r ffaith bod myfyrwyr yn llifo dros y ffin yn effeithio mwy ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru nag y mae ar rannau eraill o'r DU. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn credu bod angen amser arni i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith cyn dechrau 2012/13.

11 Prin fu'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion CCAUC i ystyried effaith bosibl cyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr a'r ymateb i hynny. Gan adeiladu ar waith a oedd wedi'i wneud eisoes i fonitro costau cyllid myfyrwyr, aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i fodelu goblygiadau ariannol ystod o opsiynau polisi, er na fodelwyd yr holl opsiynau posibl. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru:



a peidio â newid ffioedd yng Nghymru a chynyddu'r benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ond a oedd yn astudio y tu allan i Gymru;

b dilyn model Lloegr gan gyflwyno ffioedd uwch a hwyluso'r ffordd i bobl gael gafael ar fenthyciadau ffioedd dysgu; a

c chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu i dalu am holl gost ychwanegol y ffioedd uwch, gyda phrawf modd, a heb brawf modd, i'r holl fyfyrwyr cymwys neu i fyfyrwyr a oedd yn astudio y tu allan i Gymru.

12 Roedd cytundeb 'Cymru'n Un' rhwng llywodraeth glymblaid y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn 2007 yn cynnwys ymrwymiad i liniaru'r effeithiau ar fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru pe bai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei bod yn dileu'r cap ar ffioedd a fodolai gynt. Mewn gwirionedd, wrth gyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd, mae hynny'n gwrthbwyso'n llwyr effaith ffioedd addysg uwch ar bob myfyriwr cymwys sy'n hanu o Gymru.

13 Seiliwyd y modelu ariannol ar set gyffredin o ragdybiaethau sylfaenol ac roedd Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod cryfder y dystiolaeth ar gyfer y gwahanol ragdybiaethau'n amrywio. Ar wahân i amrywio'i rhagdybiaethau ynglŷn â'r ffioedd dysgu y byddai sefydliadau'n eu codi, ni wnaeth modelu Llywodraeth Cymru ymchwilio i ba raddau y byddai'r canlyniadau'n gyffredinol sensitif i newidiadau yn y rhagdybiaethau hynny. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym eu bod wedi ystyried ffoddiadwyedd yr opsiwn polisi a ffefrir, a'i effaith ar incwm sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, pe byddai unrhyw newid sylweddol yn nifer y myfyrwyr a'r llifau dros y ffin. Fodd bynnag yn ein barn ni roedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru o bob opsiwn polisi, i asesu sensitifrwydd y modelu i newidiadau mewn newidynnau allweddol a oedd yn ansicr, fel niferoedd myfyrwyr a llifau dros y ffin, yn annigonol.

14 Seiliodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad polisi ar ragdybiaeth sydd erbyn hyn yn ymddangos yn or-obeithiol, sef ffi gyfartalog o £7,000 yn 2012/13 drwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond gan dybio mai'r ffi yn sefydliadau'r Alban fyddai £2,190. Er bod swyddogion hefyd wedi cynhyrchu model a oedd wedi'i seilio ar fwyafswm ffi o £9,000 ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ni chyflwynwyd y model hwn gerbron y Cabinet llawn i'w gynorthwyo i benderfynu. Fodd bynnag, roedd y model £9,000 wedi cael ei rannu a'i drafod â'r Gweinidog Addysg, Plant a Dysgu Gydol Oes ar y pryd ac aelodau penodol eraill o'r Cabinet.

15 **Erbyn hyn, disgwylir i gost y Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer 2012-13 hyd at 2016-17 fod yn sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd ym mis Tachwedd 2010, ond nid yw amcan-gost rhoi benthyciadau i fyfyrwyr wedi newid ac mae amcan-gost diddymu dyledion benthyciadau'n llai.** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn diweddaru eu modelu i adlewyrchu'r newidiadau yn y rhagdybiaethau sy'n sail iddo, gan gynnwys y wybodaeth bod sefydliadau'n codi ffioedd uwch nag yr oedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl iddynt eu codi pan wnaeth ei gwaith modelu ym mis Tachwedd 2010. Ym mis Chwefror 2013, penderfynodd Llywodraeth Cymru hefyd ostwng ei hamcangyfrifon bump y cant ar gyfer cost cymorth i fyfyrwyr. Pwrpas y gostyngiad hwn oedd adlewyrchu'r dystiolaeth ynglŷn â chywirdeb rhagamcanion hanesyddol. Fodd bynnag, mae'r data alldro ar gyfer 2012-13 yn dangos bod costau'r Grant Ffioedd Dysgu a chostau benthyciadau i fyfyrwyr yn y flwyddyn honno'n uwch nag yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u rhagweld ym mis Chwefror 2013.

16 O'u cymharu â rhagamcanion Tachwedd 2010, wrth i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r model yn Chwefror 2013, gwelir, ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2012-13 a 2016-17:

- a fod amcan-gost y Grant Ffioedd Dysgu wedi cynyddu 24 y cant, o £653 miliwn i £809 miliwn;
- b nad yw cyfanswm amcan-gost rhoi benthyciadau ffioedd dysgu wedi newid rhyw lawer, sef ychydig dros £1.6 biliwn, gyda gostyngiad yn amcan-gost benthyciadau ffioedd dysgu yn gwneud iawn am gynnydd yn amcan-gost benthyciadau cynhaliaeth; a
- c bod amcan-gost diddymu dyledion benthyciadau i fyfyrwyr wedi gostwng 13 y cant, o £549 miliwn i £476 miliwn, er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd newidiadau sydd yn yr arfaeth i'r ffordd yr amcangyfrifir y gost hon yn gwrthdroi rhywfaint o'r gostyngiad hwn.

## At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi rhoi'r polisi ffioedd dysgu newydd ar waith yn effeithiol, ond mae nifer o faterion i'w datrys o hyd

17 **Mae Llywodraeth Cymru wedi goruchwylio'r gwaith yr oedd gofyn ei wneud i roi'r polisi ffioedd dysgu presennol ar waith yn effeithiol hyd yn hyn, ond mae angen cymryd rhagor o gamau ym maes ffioedd dysgu rhan-amser, i fynd i'r afael â gwendidau wrth brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr, ac o ran rôl CCAUC.** Llwyddodd Llywodraeth Cymru i gwblhau mewn pryd y newidiadau yr oedd eu hangen er mwyn cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu yn 2012/13. Ni welsom ddim tystiolaeth o unrhyw broblemau sylweddol yn sgil y newidiadau, er enghraifft, o ran llif y cyllid o gwmpas y system.

18 Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro'n ofalus y rhagamcanion incwm a gwariant cyllid myfyrwyr, a'r risgiau cysylltiedig. Un maes sy'n peri risg sylweddol yw'r modelu ystadegol i gyfrifo gwerth blynyddol cost diddymu dyledion benthyciadau. Roedd angen i Lywodraeth Cymru ystyried ei hopsiynau oherwydd roedd Llywodraeth y DU wedi dweud na fyddai'n parhau i ddefnyddio'r model yr oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei ddefnyddio gynt y tu hwnt i 2012-13. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu'n ddiweddar y bydd yn mabwysiadu model sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn rhannau eraill o'r DU er 2011-12.



19 Mae Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli bod y model y mae'n ei fabwysiadu'n wallus, bod sail canlyniadau'r model i Gymru yn aneglur ac y bydd y model yn cael ei newid eto. Barn Llywodraeth Cymru yw mai'r ffordd orau ymlaen yw gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig eraill i ddylanwadu ar ddatblygu'r model yn y dyfodol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, ni chafwyd cytundeb i gynnwys unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn y gwaith o ddatblygu'r model ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod cyllid ychwanegol gyda Thrysorlys EM i gwmpasu 'tâl stoc' untro. Amcangyfrifir mai gwerth hwn yw £326 miliwn, a bydd angen rhoi cyfrif am hwn wrth symud at y model newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl hefyd y bydd y model yn cynyddu taliadau blynyddol ar gyfer diddymu dyledion benthyciadau oddeutu pump y cant.

20 Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn nhrefniadau ffioedd dysgu a chymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser wedi mynd rhagddynt fel yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i fwriadu. Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnig ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a fyddai'n adlewyrchu cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr amser llawn, ond gydag uchafswm ffi o £7,000 pro rata. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r newidiadau hyn dros dro oherwydd ei bod yn poeni am yr effaith a gaent ar y farchnad ran-amser, er y byddai'r Grant Ffioedd Dysgu ar gael. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd myfyrwyr cymwys sy'n dechrau cyrsiau rhan-amser yn 2014-15, am y tro cyntaf, yn gallu manteisio ar fenthyciadau ffioedd dysgu. Er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn darparu arian ychwanegol er mwyn cadw ffioedd dysgu i fyfyrwyr rhan-amser fel y maent, mae angen dod o hyd i ateb tymor hwy er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r farchnad ran-amser.

21 Mae angen i gynigion Llywodraeth Cymru i ganoli'r system cyllid myfyrwyr drwy gyfrwng y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fynd i'r afael â gwendidau yn nhrefniadau rheoli presennol awdurdodau lleol a'r risg gynyddol o dwyll sy'n codi yn sgil y polisi ffioedd dysgu newydd. Yn 2012, mewn gwaith a wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, gwelwyd gwendidau ac anghysonderau sylweddol wrth brosesu ceisiadau am gyllid myfyrwyr mewn pedwar awdurdod lleol. Ar ôl i Lywodraeth Cymru a CCAUC wneud rhagor o waith sicrhau ansawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar i adolygu'r trefniadau rheoli sydd ar waith mewn perthynas â cheisiadau cyllid myfyrwyr mewn naw awdurdod lleol arall. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyfatebu data ynglŷn â cheisiadau am gyllid myfyrwyr gan fyfyrwyr sy'n dechrau ar eu haddysg uwch yn 2012/13 a 2013/14 er mwyn sicrhau bod modd cadarnhau bod eu man preswylio'n briodol.

22 Mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog bod gwersi wedi'u dysgu yn sgil y problemau a gafwyd wrth ganoli'r trefniadau mewn ffordd debyg yn Lloegr. Mae'n disgwyl y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn prosesu pob cais am gyllid myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dechrau ar eu cyrsiau yn 2014/15 ac wedyn ar gyfer myfyrwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd o 2015/16 ymlaen.

23 Ni newidir y fframwaith rheoleiddio addysg uwch yn awr tan ddechrau 2015/16 fan gynharaf, ar ôl ymgynghori eto ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru. Pwrpas craidd Bil Addysg Uwch (Cymru) fel y'i cynigir yn awr fydd cryfhau swyddogaethau rheoleiddio CCAUC a hynny wrth i dirwedd addysg uwch newid ac wrth i lif cyllid Llywodraeth Cymru i'r sector newid hefyd. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith

ddechrau 2014/15. Mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog, yn y cyfamser, y bydd sefydliadau addysg uwch yn dal i gefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru o fewn cyd-destun y fframwaith rheoleiddio presennol.

24 **Yn gyffredinol, mae CCAUC wedi ymateb yn effeithiol i'r heriau y mae wedi'u hwynebu yn sgil polisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru.** Mae cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu wedi cyfyngu ar allu CCAUC i ddylanwadu ar sefydliadau addysg uwch Cymru drwy ei ddyraniadau cyllid addysgu[6] ac mae dylanwad CCAUC dros gost gyffredinol y Grant Ffioedd Dysgu yn gyfyngedig. Yn benodol, nid yw CCAUC yn gallu rheoli faint o'r Grant Ffioedd Dysgu sy'n daladwy i sefydliadau y tu allan i Gymru.

25 Wrth newid y ffordd y mae'n dyrannu ei gyllid addysgu ar gyfer cyrsiau amser llawn, mae CCAUC wedi cymryd camau i ail-dafoli incwm ar draws y sector addysg uwch, i reoli costau, i gydnabod perfformiad sefydliadau ar sail targedau strategol penodol ac i barhau i ddarparu rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer cyrsiau drud. Nid yw'r newidiadau wedi cael croeso gan bawb ac maent wedi effeithio mewn gwahanol ffyrdd ar sefydliadau. Efallai hefyd y gwelir rhai canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys risg y gallai gorfodi cap ar gyfanswm y Grant Ffioedd Dysgu a gaiff sefydliadau unigol yng Nghymru gyfyngu ar gyfleoedd i rai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru astudio yma.

26 Er mwyn cadw o fewn y dyraniad Llywodraeth Cymru, mae CCAUC wedi gorfod lleihau ei gyllid ar gyfer cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig ac ar gyfer cefnogi rhai strategaethau a chynlluniau polisi penodol. Fodd bynnag, disgwylir i sefydliadau ddweud yn benodol yn eu cynlluniau ffioedd dysgu sut y byddant yn defnyddio'u hincwm ffioedd dysgu ychwanegol i gefnogi rhai o'r mathau o weithgareddau y byddai CCAUC yn eu cyllido gynt. Er ein bod yn credu bod CCAUC wedi rheoli'r newidiadau hyn yn dda, bydd angen iddo barhau i adolygu'r trefniadau presennol. Nid oes sicrwydd bod modd cynnal y trefniadau presennol ar gyfer dosbarthu cyllid CCAUC, nac y byddant ychwaith yn cefnogi sefydliadau nac yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol. Er gwaethaf yr incwm ychwanegol drwy ffioedd y gall sefydliadau ei gynhyrchu yn awr, ac er bod hynny'n dibynnu ar benderfyniadau cyllido a wneir yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol, mae pryder ymysg sefydliadau yng Nghymru y gallant wynebu bwlch cyllido cynyddol o gymharu â sefydliadau yn Lloegr.

27 Wrth gyflwyno ffioedd dysgu uwch o 2012/13 ymlaen, ynghyd â chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu a lleihau cyllid uniongyrchol CCAUC ar gyfer addysgu, mae rôl CCAUC yn rheoleiddio cynlluniau ffioedd sefydliadau yn fwy arwyddocaol. Mae CCAUC wedi rheoli'r broses cynllunio ffioedd blynyddol newydd yn dda, yn enwedig a chofio'r nad oedd ganddo fawr o amser i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer 2012/13 cyn dechrau'r flwyddyn academaidd honno. Mae CCAUC a Llywodraeth Cymru ill dau wedi cydnabod bod angen datblygu'r broses eto, er y bydd y trefniadau presennol yn aros fel y maent ar gyfer 2014/15 ac mae cynlluniau ffioedd y sefydliadau ar gyfer y flwyddyn academaidd honno eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan CCAUC. Mae CCAUC wrthi'n gwerthuso'n ffurfiol sut y rhoddwyd cynlluniau ffioedd 2012/13 ar waith.

6 Ac eithrio arian ar gyfer ymchwil a 'strategaeth a chynlluniau' a chostau cynnal CCAUC ei hun, disgwylir i gost y Grant Ffioedd Dysgu lyncu oddeutu dwy ran o dair o weddill dyraniad cyllid addysgu CCAUC yn 2013/14 (tua £167 miliwn o £263 miliwn). Yna disgwylir i gost y Grant Ffioedd Dysgu gynyddu i tua £225 miliwn yn 2014/15, a byddai £68 miliwn o hwnnw'n cael ei dalu i sefydliadau y tu allan i Gymru.



**28** Bydd CCAUC yn mynd ati mewn ffordd effeithiol seiliedig ar risg i fonitro cynaliadwyedd ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch. Bydd proses ‘Adolygiad Risg Sefydliadol CCAUC’ yn asesu’r risgiau sydd ynghlwm wrth gynaliadwyedd (gan gynnwys iechyd ariannol), llywodraethu a rheoli, ystadau, ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, myfyrwyr ac ansawdd, a chyfeiriad strategol. Bydd CCAUC yn rhoi sgôr risg gyffredinol i bob sefydliad. Yng ngwanwyn 2013, aseswyd bod dau sefydliad yn rhai ‘risg isel’ yn gyffredinol a barnwyd bod wyth yn rhai ‘risg gymedrol’. Ni chredid bod yr un o’r sefydliadau’n ‘risg uchel’.

**29** Wrth i CCAUC fonitro perfformiad y sector addysg uwch o’i gymharu ag amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelir perfformiad cymysg, ac mae CCAUC wedi sylweddoli bod angen creu system mesur perfformiad fwy cydlynol. Nod CCAUC yw cysoni a chydblethu’r prif ddulliau mesur perfformiad y mae’n eu defnyddio ar gyfer y sector, fel y’u gwelir yn ei strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer 2013-14 tan 2015-16, ag agweddau eraill ar ei waith, megis cynllunio ffioedd. Serch hynny, mae angen i CCAUC edrych eto ar rai o’r targedau y mae wedi’u gosod ar gyfer y sector, yn benodol ar ei darged ar gyfer astudiaethau rhan-amser.

**30** **Mae’r polisi ffioedd dysgu newydd wedi cael ei roi ar waith ar adeg pan oedd Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ceisio rheoli effaith camau i leihau eu costau rhedeg.** Gwelodd is-adran addysg uwch Llywodraeth Cymru nifer ei staff yn lleihau oddeutu 22 y cant rhwng mis Ebrill 2010 a mis Ebrill 2013. Mae dyraniad costau rhedeg CCAUC ar gyfer 2013-14 15 y cant yn is o ran arian parod nag yr oedd yn 2009-10, ac mae’r sefydliad wedi cael ei ad-drefnu, gan golli staff yn 2012-13.

## Er eu bod yn wynebu anawsterau ac ansicrwydd, mae iechyd ariannol a threfniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan

**31** **Mae iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan, er bod sefydliadau’n wynebu anawsterau ac ansicrwydd sylweddol mewn amgylchedd gweithredu sy’n gynyddol gystadleuol.** Ar sail y rhagolygon ariannol a gyflwynodd y sefydliadau i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012, a’r wybodaeth sydd yn natganiadau ariannol archwiliedig y sefydliadau:

- **a** Rhagwelir y bydd cyfanswm incwm y sector yn tyfu, ond mae hyn yn dibynnu’n fawr ar allu sefydliadau i ddenu myfyrwyr. Ym mis Gorffennaf 2012, roedd y sefydliadau’n rhagweld y byddai eu hincwm yn aros fwy neu lai yr un fath o ran arian parod rhwng 2011/12 a 2012/13, sef oddeutu £1.26 biliwn, cyn cynyddu i £1.45 biliwn yn 2015/16. Mae sefydliadau’n rhagweld y byddai incwm grant gan gorff cyllido yn 2015/16 £226 miliwn yn llai nag yn 2011/12 (yn bennaf oherwydd y defnydd disgwyliedig o’r cyllid hwnnw ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu). Fodd bynnag, mae sefydliadau’n rhagweld y bydd incwm ffioedd dysgu £375 miliwn yn fwy yn 2015/16 o gymharu â 2011/12, gan gynnwys cynnydd o £313 miliwn mewn incwm ffioedd gan fyfyrwyr israddedig amser llawn sy’n hanu o’r DU a’r UE a £65 miliwn o gynnydd mewn incwm o dramor (myfyrwyr nad ydynt yn hanu o’r UE).

**b** Rhagwelir y bydd y gwariant yn cynyddu'n unol â'r incwm rhwng 2011/12 a 2015/16. Maes gwariant mwyaf y sefydliadau yw costau staff, sy'n cyfateb i 57 y cant o gyfanswm yr incwm yn 2011/12.

**c** Rhagwelir y bydd canran y warged ar gyfartaledd drwy'r sector yn gostwng yn 2012/13, cyn codi yn ei hôl eto yn 2014/15 ac yn 2015/16. Serch hynny, mae llawer o wahaniaeth rhwng sefydliadau, ac mae canran y warged ar gyfartaledd wedi bod yn llai nag yr oedd Lloegr. Rhagwelir hefyd mai felly y bydd pethau. Mae gan rai sefydliadau yng Nghymru gyllidebau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer diffyg tymor byr ond mae gan eraill wargedau cost hanesyddol sy'n fwy na phump y cant.

**ch** Mae gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau yng Nghymru lefelau cryf o adnoddau arian parod o'u cymharu â'u gwariant ac maent yn rhagweld y bydd hyn yn parhau. Mae gan sefydliadau hefyd lefelau cryf o gronfeydd dewisol wrth gefn.[7]

**d** Ar gyfartaledd, bydd sefydliadau Cymru yn benthyca llai o'r tu allan nag y bydd sefydliadau yn Lloegr, ond rhagwelir y bydd y benthyca hwnnw'n cynyddu er mwyn cynnal buddsoddiadau, ac mae rhai sefydliadau yng Nghymru eisoes yn benthyca llawer o'r tu allan eisoes o'i gymharu â'u hincwm. Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn dal i fod yn faes deniadol i fanciau fuddsoddi ynddo ond efallai y bydd angen i sefydliadau chwilio am ffyrdd mwy arloesol o gyllido prosiectau cyfalaf.

**32** **Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yn datblygu'n briodol i'w helpu i wynebu'r heriau a ddaw i'w rhan yn y dyfodol.** Er mwyn cryfhau eu trefniadau llywodraethu, mae sefydliadau wedi canolbwyntio ar gyfansoddiad eu cyrff llywodraethu. Mae gan sefydliadau drefniadau cynllunio ariannol sydd wedi bwrw gwreiddiau, a'r rheini, i bob golwg yn gymharol gadarn, ac maent yn rhoi pwyslais arbennig ar ganfod cyfleoedd i gynhyrchu incwm. Mae trefniadau rheolaeth ariannol sefydliadau'n gadarn hefyd ar y cyfan.

**33** Mae sefydliadau wedi sylweddoli bod angen newid eu diwylliant a'u strwythur i'w helpu i wynebu heriau strategol ac ariannol yn y dyfodol ac i'w galluogi i gystadlu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae rhai sefydliadau wedi symud yn gyflymach nag eraill, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol. Er bod agwedd sefydliadau at risg yn amrywio, gwelsom fod uwch reolwyr a llywodraethwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r risgiau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r drefn gyllido newydd sydd ar waith ym maes addysg uwch ac ar gyfer cyllid myfyrwyr. Mae gan bob sefydliad gynlluniau i fuddsoddi i wella profiad myfyrwyr er mwyn eu gwneud yn fwy cystadleuol.

7 Yn ôl y diffiniad, cronfeydd cyffredinol a chronfeydd gwaddol gwariadwy yw cronfeydd dewisol wrth gefn. Nid yw'r dull hwn o fesur y cronfeydd wrth gefn dewisol yn cynnwys yr effaith a gaiff diffygion mesuradwy mewn cronfeydd pensiwn, sef £284 miliwn yn 2011/12.



## Argymhellion

Wrth lunio ein hargymhellion, nodwn fod rhai o'r materion y mae'r adroddiad yn ymwneud â hwy'n cael eu trafod mewn adolygiadau eraill hefyd, ac rydym wedi tybio y bydd Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw beth sy'n destun pryder sy'n codi o'r newydd. Rydym hefyd wedi tybio y bydd Llywodraeth Cymru a CCAUC yn dal i ddiweddaru eu gwaith modelu ar y costau a fydd yn codi yn sgil y polisi ffioedd dysgu yn y dyfodol ac y bydd CCAUC yn parhau i adolygu'r effaith - ar sefydliadau ac ar wireddu amcanion polisi Llywodraeth Cymru - a ddaw yn sgil newid y ffordd y dosberthir arian addysg uwch. At hynny, rydym wedi tybio, wrth ddatblygu'r trefniadau cynllunio ffioedd ar gyfer 2015/16, y bydd CCAUC yn ystyried yn llawn ganfyddiadau ei waith i werthuso sut y rhoddwyd cynlluniau ffioedd sefydliadau ar waith yn 2012/13.

1 Daw effaith lawnach cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu'n amlycach dros y ddwy neu'r tair blynedd nesaf wrth i fwy o fyfyrwyr a aeth i addysg uwch cyn 2012/13 ymadael â'r system. **Ar 18 Tachwedd 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer adolygiad eang ei gwmpas a fydd yn cynnwys gwerthusiad o effaith y polisi ffioedd dysgu presennol. Ymhlith pethau eraill, rydym yn awgrymu y dylai'r adolygiad hwn roi sylw i'r canlynol:**

- **y costau uniongyrchol a'r costau cyfle sy'n codi yn sgil y polisi presennol;**
- **yr effaith ar fyfyrwyr, gan gynnwys o safbwynt cyfleoedd cyfartal;**
- **i ba raddau y mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r tu hwnt o bosibl yn cyfyngu ar allu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru i gael cymorth ariannol oherwydd bod y Grant Ffioedd Dysgu wedi'i gyflwyno;**
- **yr effaith ar sefydliadau addysg uwch, yn enwedig ar eu hiechyd ariannol a'u safle cystadleuol;**
- **cymharu ag effaith polisïau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU; ac**
- **opsiynau polisi yn y dyfodol a'u costau a'u manteision tebygol, gan gynnwys ystyried eto fater cydraddoldeb rhwng astudio amser llawn ac astudio rhan-amser.**

2 Mae Llywodraeth Cymru yn credu na wnaeth pump y cant o'r myfyrwyr hynny a allasai fod yn gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu fanteisio arno yn 2012/13, er ei bod wedi seilio'i modelu ariannol diweddaraf ar dybiaeth fwy gochelgar, sef bod 98 y cant wedi manteisio arno. **Yng nghyd-destun canoli'r system cyllid myfyrwyr drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:**

- **gomisiynu gwaith er mwyn deall yn well pam nad yw rhai myfyrwyr yn hawlio'r Grant Ffioedd Dysgu er eu bod yn gymwys i'w gael;**
- **adolygu'r prosesau sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio sicrhau bod pob myfyriwr yn deall yn llwyr bod ganddo hawl i'r Grant Ffioedd Dysgu ac i gael cymorth arall ar ffurf benthyciad a grant; ac**
- **ar lefel sefydliadau unigol, cymharu data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am nifer y myfyrwyr sy'n cael cymorth drwy'r Grant Ffioedd Dysgu â'r data cofrestru, er mwyn gweld a yw'r gyfradd sy'n manteisio arno'n isel mewn ardaloedd penodol.**

3 Yn ei modelu ariannol diweddaraf, ym mis Chwefror 2013, gostyngodd Llywodraeth Cymru ei hamcangyfrifon bump y cant ar gyfer y costau a fyddai'n gysylltiedig â benthyciadau i fyfyrwyr a chymorth grant yn y dyfodol, gan gynnwys y Grant Ffioedd Dysgu, er mwyn rhoi cyfrif am gywirdeb hanesyddol ei rhagamcanion. Fodd bynnag, dangosodd data alldro 2012-13 fod modelu Chwefror 2013 wedi tanamcangyfrif costau rhoi benthyciadau i fyfyrwyr a'r Grant Ffioedd Dysgu yn 2012-13. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu cywirdeb hanesyddol ei rhagamcanion, a'i bod, wrth adrodd ynglŷn ag amcangostau, yn ei gwneud yn glir sut yr addaswyd y ffigurau er mwyn rhoi sylw i gywirdeb hanesyddol a'r sail dros wneud hynny.**

4 Dylai'r cynlluniau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, mewn egwyddor, helpu i fynd i'r afael â'r gwendidau a'r anghysonderau yr ydym wedi'u gweld yn y trefniadau a gaiff eu rheoli gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. **Rydym yn argymell:**

- **y dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â CCAUC, bennu'r trefniadau rheoli ar gyfer ceisiadau cyllid myfyrwyr (yn enwedig o ran y trefniadau ar gyfer rheoli cymhwysedd) y mae'n disgwyl i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr eu rhoi ar waith ac y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau'r disgwyliadau hyn fel rhan o'i chytundeb lefel gwasanaeth diwygiedig gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; ac**
- **y dylai CCAUC fod yn aelod llawn o fwrdd prosiect Llywodraeth Cymru ar Foderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

5 Mae is-adran addysg uwch Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi bod yn rheoli rhoi polisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar waith a niferoedd y staff wedi bod yn lleihau mewn ymateb i gyfyngiadau ehangach ar gyllid cyhoeddus. Er bod costau ynghlwm wrth sefydlu system reoleiddio drwyadl, gall hynny sicrhau manteision i'r sector, megis cryfhau parodrwydd y sector bancio i fenthyca. **Yng nghyd-destun datblygiad parhaus Bil Addysg Uwch (Cymru) a'r newidiadau ehangach yn fframwaith rheoleiddio addysg uwch, rydym yn argymell:**

- **y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC ystyried sut y gallant, gyda'i gilydd, ddefnyddio'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael iddynt y ffordd orau bosibl o helpu i ddatblygu a gweithredu polisi addysg uwch Llywodraeth Cymru;**
- **y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC gytuno ar brotocol clir ar gyfer sut y bydd CCAUC yn ymwneud â llunio polisïau yn y dyfodol; ac**
- **y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei hun bod y fframwaith rheoleiddio newydd a'r adnoddau a fuddsoddir i'w weithredu yn gymesur â maint ac ehangder y sector addysg uwch yng Nghymru o'u cymharu â'r trefniadau sydd ar waith mewn mannau eraill yn y DU.**



6 Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi newydd am addysg uwch. Cyn hyn, cyhoeddodd CCAUC strategaeth gorfforaethol newydd, a oedd yn cynnwys nifer o dargedau newydd neu ddiwygiedig ar gyfer y sector addysg uwch. Roedd y strategaeth gorfforaethol yn cynnwys targed i sicrhau bod y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr rhan-amser a ddilynai gyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru yn gyfartal â'r ffigur cyffelyb ar gyfer y DU, neu'n rhagori ar y ffigur hwnnw. Roedd hefyd yn cyfeirio at ganlyniad cyffredinol sef bod gwell cyfleoedd yn cael eu cynnig ar gyfer dysgu rhan-amser. Fodd bynnag, mae tystiolaeth mai'r duedd yw bod nifer y myfyrwyr rhan-amser yn Lloegr yyn lleihau yn sylweddol. **Rydym yn argymell:**

- **y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC ystyried a yw'r targedau y mae CCAUC wedi'u pennu ar gyfer y sector addysg uwch yn ei strategaeth gorfforaethol 2013-2016 yn gyson â'r nodau sydd yn natganiad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch; ac**
- **ar gyfer astudio rhan-amser a niferoedd y myfyrwyr rhan-amser, y dylai CCAUC geisio cynnwys dulliau mesur sy'n adlewyrchu'n well y canlyniad a fwriedir, sef bod gwell cyfleoedd yn cael eu cynnig ar gyfer dysgu rhan-amser.**

7 Bydd proses 'Adolygiad Risg Sefydliadol CCAUC' yn asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth gynaliadwyedd (gan gynnwys iechyd ariannol), llywodraethu a rheoli, ystadau, ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, myfyrwyr ac ansawdd, a chyfeiriad strategol. Ar sail ei asesiad ar draws y chwe maes, bydd CCAUC yn rhoi un sgôr risg gyfun i sefydliadau unigol. **Rydym yn argymell y dylai CCAUC gynnwys y gwerthusiad asesu risg ar gyfer pob maes y mae'n ei asesu yn y llythyrau y bydd yn eu hanfon at sefydliadau ynglŷn â'r asesiad risg cyffredinol.** Byddai hyn yn fwy tryloyw a byddai'n golygu y gallai sefydliadau a'u llywodraethwyr ddeall gwerthusiad CCAUC yn well.

8 Mae cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yn gyffredinol gadarn. Serch hynny, gwelsom amrywiadau ar waith mewn nifer o feysydd allweddol, ac, yng ngoleuni'r heriau a'r ansicrwydd ariannol sy'n wynebu'r sector, credwn fod CCAUC mewn sefyllfa dda i chwarae rhan fwy gweithredol yn nodi, yn lledaenu ac yn hyrwyddo arferion da. **Rydym yn argymell:**

- **y dylai CCAUC chwarae rhan frwd yn canfod, yn lledaenu ac yn hyrwyddo arferion da; ac**
- **y dylai sefydliadau adolygu pa mor ddigonol yw eu trefniadau yn y meysydd a ganlyn:**
  - **rhagolygon llif arian, yn enwedig lle bo'r rheiny'n berthnasol yn wyneb heriau'r dyfodol;**
  - **cynhyrchu cyfrifon rheoli misol ar sail croniadau yn hytrach nag ar sail ymrwymiadau, yn enwedig yng ngoleuni'r gofynion a orfodir gan fanciau mewn cyfamodau sy'n gysylltiedig â benthyciadau;**
  - **i ba raddau y mae proffidioldeb cwrs yn cael ei ddadansoddi; a**
  - **sgiliau sydd eu hangen yn gefn i gynllunio busnes, monitro cyfamodau a chyfathrebu'n well â'r banciau ac â chyllidwyr eraill mewn amgylchedd ansicr a heriol.**

# Rhan 1 – Roedd arfarniad Llywodraeth Cymru o'i hopsiynau polisi ar gyfer ffioedd dysgu'n gyfyngedig ac mae'r amcangostau wedi cynyddu ers penderfynu ynghylch y polisi hwnnw

**1.1** Mae cost benthyciadau i fyfyrwyr, y Grant Ffioedd Dysgu a grantiau cynhaliaeth eraill yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys: cyfraddau ffioedd dysgu; niferoedd myfyrwyr a llifau ar draws y ffin; y nifer sy'n manteisio ar fenthyciadau a grantiau; trothwyon ad-dalu benthyciadau a chyfraddau ad-dalu; a grymoedd economaidd ehangach, megis chwyddiant a chyfraddau llog. Wrth fodelu costau'r dyfodol, rhaid ystyried hefyd newidiadau yn y cymorth a fydd ar gael i fyfyrwyr sy'n mynd i addysg uwch ar wahanol adegau. Mae trefniadau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth cyllid myfyrwyr yn gymhleth (Blwch 1).

**1.2** Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn ystyried:

- **a** sut y penderfynodd Llywodraeth Cymru ganiatáu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru godi ffioedd dysgu uwch, hyd at £9,000 yn 2012/13 a chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu, gwerth hyd at £5,535, i bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru ac i fyfyrwyr sy'n hanu o'r UE ac sy'n astudio yng Nghymru; ac
- **b** amcangostau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ffioedd dysgu uwch, o ran benthyciadau i fyfyrwyr a'r Grant Ffioedd Dysgu, dros y cyfnod 2012-13 tan 2016-17, gan gymharu rhagamcanion cychwynnol Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2010 â'i hamcangyfrifon diweddaraf.

### Blwch 1 – Trefniadau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth cyllid myfyrwyr

Bydd cost darparu benthyciadau i fyfyrwyr (benthyciadau ffioedd dysgu neu fenthyciadau cynhaliaeth) yn cael ei thrin yn 'Wariant a Reolir yn Flynyddol' ac nid yw'n cael ei chynnwys o fewn Terfyn Gwariant Adrannol y gyllideb a bennir ar gyfer Llywodraeth Cymru drwy broses adolygiad o wariant Llywodraeth y DU. Mae cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys cost darparu benthyciadau i fyfyrwyr o'i chymharu ag incwm o gyfran Llywodraeth Cymru o'r ad-daliadau ar fenthyciadau a gesglir gan Gyllid a Thollau EM a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth uniongyrchol dros hyn. Mae cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys amrywiol addasiadau i incwm a gwariant sy'n berthnasol i sut y caiff y llog ar fenthyciadau a materion cyfrifyddu technegol eraill eu trin. Mae Llywodraeth Cymru yn gallu tynnu i lawr cronfeydd ychwanegol gan Drysorlys EM os bydd gofyn. Rhaid dychwelyd i Drysorlys EM unrhyw gyllid sydd heb ei wario, oherwydd bod y galw'n is na'r disgwyl.

O'i phrif gyllideb Terfynau Gwariant Adrannol rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am addasiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar amcan-gost diddymu dyledion benthyciadau yn y dyfodol, oherwydd marwolaeth er enghraifft, neu oherwydd nad yw enillion myfyrwyr yn cyrraedd y trothwy ad-dalu neu oherwydd nad yw benthyciadau'n cael eu had-dalu'n llawn erbyn diwedd y cyfnod ad-dalu. Mae'r addasiad hwn hefyd yn cynnwys y cymhorthdal llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr - y gwahaniaeth rhwng cyfradd y farchnad a'r llog a godir mewn gwirionedd ar fyfyrwyr. Drwy'r adroddiad hwn, byddwn yn sôn am y gost hon drwy gyfeirio at 'gost diddymu dyledion benthyciadau'.

Bydd yr holl gymorth arall a roddir i fyfyrwyr ar ffurf grantiau'n dod o'r tu mewn i gyllideb y Terfyn Gwariant Adrannol er bod hyn hefyd yn dibynnu ar y galw. Mae dyraniad cyllid CCAUC, y telir y Grant Ffioedd Dysgu ohono, yn rhan o gyllideb y Terfyn Gwariant Adrannol.



1.3 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â benthyciadau i fyfyrwyr a'r Grant Ffioedd Dysgu yn rhan o becyn ehangach o gymorth gan Lywodraeth Cymru i israddedigion amser llawn, a disgwylir i'r cymorth ar ffurfiau grantiau eraill gostio £787 miliwn rhwng 2012-13 a 2016-17. Mae Grant Dysgu'r Cynulliad, a'r Grant Cymorth Arbennig, sy'n destun prawf modd, yn costio £682.1 miliwn (Atodiad 2), ac felly, dyma gyfran fwyaf yr amcan-gost hon, o bell ffordd[8].

## Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod angen iddi ymateb yn gyflym i benderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr, roedd y ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i arfarnu ei hopsiynau polisi'n gyfyngedig

**Roedd Llywodraeth Cymru am ymateb yn gyflym er mwyn rhoi sicrwydd i sefydliadau uwch Cymru ac i fyfyrwyr, ac oherwydd ei bod yn credu bod angen amser arni i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith cyn dechrau 2012/13**

1.4 Cyn adroddiad 'Adolygiad Browne' ym mis Hydref 2010 am Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy i Addysg Uwch roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod ag aelodau'r tîm adolygu ddechrau mis Awst 2010 a chyfarfu'r Gweinidog Addysg, Plant a Dysgu Gydol Oes ar y pryd â'r Arglwydd Browne ddechrau mis Medi 2010. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu gweithgor mewnol i ystyried ei hymateb i'r adolygiad, a hwnnw'n cynnwys swyddogion o'i his-adran addysg uwch a chyfraniad gan ystadegwyr, cynghorwyr economaidd a'r gwasanaethau cyfreithiol.

1.5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei pholisi ffioedd dysgu newydd ar 30 Tachwedd 2010, lai na mis ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei chynigion hithau ar gyfer ffioedd dysgu yn Lloegr. Ni chyhoeddodd Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon eu penderfyniadau hwythau ynglŷn â chyflwyno ffioedd dysgu uwch tan fis Mehefin 2011 a mis Medi 2011 yn y drefn honno. Credai Llywodraeth Cymru ei bod hi'n bwysig ymateb yn gyflym i gynigion Llywodraeth y DU oherwydd:

a yr effaith y gallai polisi Llywodraeth y DU ei chael ar gyllideb Llywodraeth Cymru - oherwydd effaith y costau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â darparu benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr a hanai o Gymru ond a oedd yn astudio yn Lloegr;

b effaith bosibl polisi Llywodraeth y DU ar safle cystadleuol sefydliadau addysg uwch Cymru o ystyried patrwm llif y myfyrwyr rhwng Cymru a Lloegr - roedd Llywodraeth Cymru am roi sicrwydd i sefydliadau a myfyrwyr ynglŷn â'r polisi yng Nghymru yn y dyfodol; ac

c roedd angen rhoi digon o amser i ddatblygu rhagor ar drefniadau arfaethedig Llywodraeth Cymru a'u rhoi ar waith cyn dechrau 2012/13.

1.6 Mae llif myfyrwyr dros y ffin yn dylanwadu mwy ar bolisïau a threfniadau cyllido Llywodraeth Cymru, ac i'w sefydliadau addysg nag y mae ar rannau eraill o'r DU (Ffigur 2). O blith 24,765 o israddedigion amser llawn yn eu blwyddyn gyntaf a hanai o'r DU a oedd wedi cofrestru yn sefydliadau Cymru yn 2011/12, roedd 12,675 (51 y cant) yn hanu o Gymru ac 11,745 (47 y cant) yn hanu o Loegr. Ar y llaw

8 Mae lwfansau amser llawn eraill yn darparu grantiau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflawni meini prawf cymhwysedd penodol. Mae'r lwfansau hyn yn cynnwys y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, y Grant Oedolion Dibynnol, y Lwfans Dysgu i Rieni, y Grant Gofal Plant a'r Grant Teithio. At hynny, roedd myfyrwyr a oedd yn dechrau ar eu haddysg uwch rhwng 2006/07 a 2009/10 yn gymwys i gael 'Grant Ffioedd y Cynulliad' i'w helpu i dalu am gost eu ffioedd dysgu. Yn 2010/11, yn lle'r grant, ehangwyd y cyfle i gael benthyciadau ffioedd dysgu a chynyddwyd gwerth y cymorth a roddid ar ffurf grant cynhaliaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yn talu Grant Ffioedd y Cynulliad am y tro olaf yn 2014-15.

arall, wrth edrych ar sefydliadau Lloegr, gwelir bod 96 y cant o'r rhai a dderbyniwyd yn hanu o Loegr, bod 86 y cant o'r rhai a dderbyniwyd yn yr Alban yn hanu o'r Alban a bod 97 y cant o'r rhai a dderbyniwyd yn sefydliadau Gogledd Iwerddon (dau sefydliad) yn dod o Ogledd Iwerddon.

**1.7** O blith yr 19,290 o israddedigion a hanai o Gymru a ddechreuodd ar eu hastudiaethau amser llawn yn 2011/12, roedd 12,675 (66 y cant) yn astudio yng Nghymru a 6,515 (34 y cant) yn astudio yn Lloegr. Mae'r all-lif o Gymru debyg i'r all-lif o fyfyrwyr o Ogledd Iwerddon, ond roedd dros 90 y cant o'r myfyrwyr a hanai o Loegr a'r Alban yn dewis astudio yn eu gwlad eu hunain.

## Prin fu'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion CCAUC i ystyried effaith bosibl cyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr a'r ymateb i hynny

**1.8** Ddechrau mis Medi 2010, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddogion CCAUC i drafod y canlyniad a ragwelid yn sgil 'Adolygiad Browne'. Yn y cyfarfod, canolbwyntiwyd ar yr opsiynau hyn: dilyn model tebygol Lloegr - ffioedd dysgu uwch a lleihau yr arian grant cyhoeddus ar gyfer addysg uwch - ynteu cadw pethau fel yr oeddent yng Nghymru.

**1.9** Ar ôl y cyfarfod hwnnw, ni wahoddwyd swyddogion CCAUC i gyfrannu at ddatblygu ymateb polisi Llywodraeth Cymru i gyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei pholisi hi ei hun. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith y byddai gofyn i CCAUC chwarae rhan allweddol yn rhoi'r

**Ffigur 2 – Israddedigion a hanai o'r DU a gofrestrodd yn eu blwyddyn gyntaf ar gyfer cwrs amser llawn yn 2011/12 yn ôl gwlad hanu'r myfyrwyr a lleoliad y sefydliad addysg uwch[1]**

| Y wlad y mae'r myfyrwyr yn hanu ohoni | Lleoliad y sefydliad | | | | % y myfyrwyr a oedd yn cael eu haddysg mewn sefydliad yn eu gwlad eu hunain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | | |
| **Lloegr** | 353,020 | 11,745 | 3,355 | 245 | 96% | 368,370 |
| **Cymru** | 6,515 | 12,675 | 90 | 10 | 66% | 19,290 |
| **Yr Alban** | 1,760 | 65 | 28,710 | 15 | 94% | 30,565 |
| **Gogledd Iwerddon** | 3,735 | 200 | 1,070 | 8,960 | 64% | 13,970 |
| **Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw** | 1,050 | 70 | 45 | 5 | n/a | 1,175 |
| **Cyfanswm** | 366,090 | 24,765 | 33,270 | 9,240 | | 433,375 |

Nodyn

1 Wrth gyhoeddi'r data hyn, bydd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn talgrynnu'r ffigurau i'r pump agosaf. Felly, nid yw'r cyfansymiau o reidrwydd yn cyfateb i gyfanswm y ffigurau ar gyfer rhannau gwahanol y DU.

*Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Datganiad Ystadegol Cyntaf 183, Ionawr 2013*



polisi ar waith, ac yntau'n gorfod talu'r Grant Ffioedd Dysgu o'i ddyraniad cyllid.

**Roedd Llywodraeth Cymru yn deall yn gyffredinol beth fyddai effaith ariannol ac effeithiau eraill tebygol ei phenderfyniad polisi, ond roedd y dadansoddiad a oedd yn sail i'r penderfyniad hwnnw'n gyfyngedig ei gwmpas**

Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i fodelu goblygiadau ariannol ystod o opsiynau polisi

**1.10** Cyn cyhoeddi'r polisi ym mis Tachwedd 2010, paratoes swyddogion Llywodraeth Cymru ragamcanion ar gyfer costau wyth senario polisi gwahanol dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2020-21. Seiliwyd dwy senario ar newidiadau i'r system a ddefnyddid ar gyfer ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr ond heb newid y ffioedd dysgu drwy'r DU. Dyma'r modelau hyn, er nad oedd pwrpas iddynt ar ôl Lywodraeth y DU gadarnhau ei bod yn bwriadu cynyddu ffioedd dysgu yn Lloegr:

- **a** codi'r trothwy incwm blynyddol lle y byddai'n rhaid i fyfyrwyr ddechrau ad-dalu benthyciadau (o £15,000 i £21,000) ac estyn y cyfnod ad-dalu o 25 i 30 mlynedd o 2012/13 ymlaen, gan gadw ar yr un pryd at ganslo'n rhannol fenthyciadau cynhaliaeth[9]; ac
- **b** fel uchod ond gan ddileu'r trefniant i ganslo rhan o'r benthyciad cynhaliaeth.

**1.11** Gydag un eithriad (Opsiwn A isod), byddai'r chwe senario arall yn dibynnu ar allu sefydliadau addysg uwch i godi ffioedd dysgu hyd at £9,000 drwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2012/13, ond gan dybio y byddai'r ffi yn sefydliadau'r Alban yn aros yn £2,190.[10] Roedd pob un o'r chwe senario yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i'r trothwy ad-dalu benthyciadau ac i'r cyfnod ad-dalu benthyciadau. Dyma nhw:

*Opsiwn A* Peidio â newid ffioedd yng Nghymru a chynyddu'r benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ond yn astudio y tu allan i Gymru.

*Opsiwn B* Peidio â newid ffioedd yng Nghymru a chynyddu'r benthyciadau ffioedd dysgu i'r holl fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ac i fyfyrwyr yng Nghymru a oedd yn hanu o'r UE.

*Opsiwn C* Cynyddu'r ffioedd dysgu yng Nghymru gan roi Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd i bob myfyriwr a oedd yn hanu o Gymru, ac i bob myfyriwr yng Nghymru a oedd yn hanu o'r UE (sef y polisi a gyflwynwyd maes o law).

*Opsiwn D* Cynyddu'r ffioedd dysgu yng Nghymru gan roi Grant Ffioedd Dysgu gyda phrawf modd i bob myfyriwr a oedd yn hanu o Gymru, ac i bob myfyriwr yng Nghymru a oedd yn hanu o'r UE.

*Opsiwn E* Cynyddu'r ffioedd dysgu yng Nghymru gan roi Grant Ffioedd Dysgu gyda phrawf modd i bob myfyriwr a oedd yn hanu o Gymru ond yn astudio y tu allan i Gymru a Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd i fyfyrwyr yng Nghymru a oedd yn hanu o Gymru ac o'r UE.

*Opsiwn F* Cynyddu'r ffioedd dysgu yng Nghymru gan roi Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd i bob myfyriwr a oedd yn hanu o Gymru ac i bob myfyriwr yng Nghymru

9 O ddechrau 2010/11, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno trefniadau i ganslo'n rhannol £1,500 o gyfanswm gwerth benthyciadau cynhaliaeth i fyfyrwyr ar ôl iddynt wneud y taliad cyntaf. Dywedodd un o gynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru wrthym eu bod yn poeni am gymhlethdod cyffredinol y system cyllid myfyrwyr ac am ba mor ymwybodol yr oedd myfyrwyr o'u hawliau, gan gynnwys yr hawl i gael canslo rhan o'u benthyciad cynhaliaeth. Drwy ad-dalu swm bach cyn gynted byth ag y gallent, gallai myfyrwyr ganslo rhan o'u benthyciad cynhaliaeth, ac felly gallent arbed ar y llog a godid ar y gyfran honno o'r benthyciad.

10 Seiliwyd ffi'r Alban ar ffi gyfartalog 2011/12 a 2.7 y cant ar ben hynny ar gyfer chwyddiant. Ni newidiodd Llywodraeth Cymru ffioedd yr Alban gan nad oedd Llywodraeth yr Alban bryd hynny wedi cyhoeddi y byddai'n codi ffioedd uwch. Er bod yr un peth yn wir am Ogledd Iwerddon, mae nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng Ngogledd Iwerddon yn fach iawn (Ffigur 2) ac felly ychydig iawn o effaith a gâi unrhyw newid yn y ffi dybiedig ar gyfrifiadau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

a oedd yn hanu o'r UE ond heb ddiddymu rhan o'r benthyciadau cynhaliaeth (Roedd Opsiynau A i E i gyd yn cadw'r dilead rhannol).

**1.12** Mae'n bosibl bod opsiynau polisi eraill ar gael. Er enghraifft, nid yw un o'r opsiynau hyn yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon o 2012/13 ymlaen (Atodiad 2). At hynny, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ystyried cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu ar gyfradd is. Dewis arall efallai fuasai ystyried a ellid cyfyngu talu'r Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ond a oedd yn astudio y tu allan i Gymru i'r rheini nad oedd y cwrs yr oedd angen iddynt ei ddilyn ar gael yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym na fuasai'n bosibl mabwysiadu opsiynau polisi gwahanol i'r rheini a ystyriwyd mewn pryd ar gyfer derbyn myfyrwyr yn 2012/13 oherwydd y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i'w cyflwyno - nid oedd gan Lywodraeth Cymru bwerau i greu deddfwriaeth sylfaenol ar y pryd - neu oherwydd cyfyngiadau ymarferol ar weinyddu cyllid myfyrwyr.

## Seiliwyd y modelu ariannol ar set gyffredin o dybiaethau sylfaenol ac, ac eithrio'r rhagdybiaethau am ffioedd hyfforddi cyfartalog, nid archwiliwyd i ba raddau y byddai newid y rhagdybiaethau hynny'n dylanwadu'n gyffredinol ar y canlyniadau

**1.13** Roedd y modelu ariannol a wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymharu costau pob opsiwn polisi â model llinell sylfaen a oedd yn dibynnu ar sefyllfa lle na fyddai'r polisi ffioedd dysgu na'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr a oedd ar waith ar gyfer 2011/12 yn newid. Roedd y gwaith modelu'n adeiladu ar waith blaenorol a oedd wedi'i wneud a oedd yn gysylltiedig â monitro costau cyllid myfyrwyr yn barhaus. Roedd pob model yn defnyddio'r un set o dybiaethau ynglŷn ag:

- **a** uwchraddio ar gyfer chwyddiant - 2.7 y cant y flwyddyn o 2012-13;
- **b** cyfraddau llog - 2.2 y cant uwchben mynegai'r prisiau manwerthu; a
- **c** niferoedd myfyrwyr a llif y myfyrwyr i mewn i Gymru ac allan ohoni.

**1.14** Rhoddwyd tybiaethau cyffredin eraill ar waith lle'r oeddent yn berthnasol, gan gynnwys:

- **a** nifer y myfyrwyr a fyddai'n elwa wrth i sefydliadau eu hesgusodi rhag talu rhan o'r ffioedd, gan leihau swm y Grant Ffioedd Dysgu a fyddai'n daladwy (amcangyfrifir bod hyn yn oddeutu 5.7 y cant o'r holl fyfyrwyr a oedd yn gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu);
- **b** y nifer a fyddai'n manteisio ar fenthyciadau a grantiau ac ad-daliadau ar fenthyciadau;
- **c** trothwyon y prawf modd a thapro - wedi'u seilio ar drefniadau a oedd eisoes ar waith ar gyfer y grant cynhaliaeth;
- **ch** yn lle seilio costau darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar flwyddyn academaidd, eu seilio ar flwyddyn ariannol; a
- **d** chyfraddau ffioedd dysgu - seiliwyd penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru yn y pen draw ar amcangyfrif y byddai'r ffi gyfartalog yn 2012/13 yn £7,000 lle y byddai sefydliadau'n gallu codi ffioedd dysgu uwch (er bod swyddogion hefyd wedi paratoi model a oedd wedi'i seilio ar y ffi uchaf posibl sef £9,000).



**1.15** Roedd Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli bod sefydliadau 'elite' yn debygol o godi eu ffioedd hyd at y swm uchaf, sef £9,000 ac y gallai sefydliadau eraill wneud yr un fath. Byddai hyn yn golygu y gallai lefel gyfartalog y ffioedd godi. Fodd bynnag, roedd swyddogion wedi dadansoddi ymhle yr oedd myfyrwyr yn astudio ac ar ba gyrsiau, ar sail ffigurau 2008/09, gan dybio y byddai'r ffi yn £9,000 yn sefydliadau Rhydychen/Caergrawnt a phrifysgolion Grŵp Russell ac yn £6,000 mewn mannau eraill, neu'n £9,000 ar gyfer cyrsiau sy'n ddrutach i'w cynnal[11] ac yn £6,000 ar gyfer cyrsiau eraill. Ar ôl awgrymu ffi gyfartalog o oddeutu £6,600, credai'r swyddogion y byddai'n rhesymol defnyddio ffi gyfartalog o £7,000 at ddibenion modelu.

**1.16** Lle'r oedd hynny'n berthnasol i'r gwahanol fodelau, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru dybiaeth ochelgar y byddai 100 y cant o'r holl fyfyrwyr a oedd yn gymwys i gael cymorth ariannol yn manteisio ar y Grant Ffioedd Dysgu. O ran benthyciadau i fyfyrwyr, tybiai Llywodraeth Cymru y byddai 90 y cant yn manteisio arnynt ar draws yr holl fodelau gwahanol, gan seilio hynny ar dueddiadau hanesyddol. Yn ein barn ni, byddai wedi bod yn rhesymol tybio rhywfaint o gynnydd yn y nifer a fanteisiai ar fenthyciadau i fyfyrwyr yng nghyswllt yr opsiynau hynny lle y buasai myfyrwyr yn talu ffioedd dysgu uwch a lle nad oedd y Grant Ffioedd Dysgu'n ddigon i dalu'r gost ychwanegol lawn.

**1.17** Ni wahoddwyd CCAUC i gadarnhau na herio modelu Llywodraeth Cymru na'r rhagdybiaethau y seiliwyd y gwaith modelu arnynt. Dywedodd swyddogion CCAUC wrthym eu bod yn credu bod tybio ffi gyfartalog o £7,000 wedi bod yn or-obeithiol, ac roeddent yn gywir yn hynny o beth. Roedd swyddogion CCAUC hefyd yn amau rhai o dybiaethau gwreiddiol Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r nifer a fyddai'n manteisio ar fenthyciadau a grantiau. Credai CCAUC fod sefydliadau'n debygol o bennu ffioedd uchel pe na allent ddibynnu ar gyllid a oedd yn weddill gan CCAUC i wneud iawn am unrhyw fwlch yn eu hincwm, er enghraifft, oherwydd bod sefydliadau y tu allan i Gymru yn tynnu cyllid o'r Grant Ffioedd Dysgu.

**1.18** Adolygodd prif economegydd Llywodraeth Cymru y gwaith a oedd wedi'i wneud i lunio'r rhagdybiaethau a oedd yn sail i'r modelu ariannol, ac roedd yn credu bod y rhagdybiaethau'n rhesymol. Serch hynny, roedd y prif economegydd, a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, yn cydnabod bod nerth y dystiolaeth y seiliwyd y gwahanol dybiaethau arni'n amrywio. Fodd bynnag, ar wahân i amrywio'i thybiaethau ynglŷn â'r ffioedd dysgu cyfartalog y byddai'n sefydliadau'n debygol o'u codi, ni chynhyrchodd Llywodraeth Cymru fodelau cyfatebol a oedd wedi'u seilio ar newidiadau mewn rhagdybiaethau eraill.

**1.19** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym eu bod wedi ystyried fforddiadwyedd yr opsiwn polisi a ffefrir, a'i effaith ar incwm sefydliadau ddysg uwch yng Nghymru, pe bai newid sylweddol yn digwydd mewn niferoedd myfyrwyr neu lifau dros y ffin. Serch hynny, yn ein barn ni, nid oedd y dadansoddiad a wnaeth Llywodraeth Cymru i asesu i ba raddau y byddai'r prif newidynnau yr oedd ansicrwydd yn eu cylch yn dylanwadu ar y modelau, yn ddadansoddiad digonol. Yn benodol, roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ar y pryd bod cryn ansicrwydd ynghylch yr effaith ar niferoedd myfyrwyr a'r llifau dros y ffin yn sgil newid polisïau ffioedd dysgu a'r bwlch a oedd yn lledu rhwng gwahanol rannau'r DU o ran polisïau cyllid myfyrwyr. Er gwaetha'r

11 Y cyrsiau drutach oedd meddygaeth glinigol a deintyddiaeth, gwyddor milfeddygaeth a chyrsiau yn y cylch prisiau nesaf - gwyddoniaeth labordy a pheirianneg yn bennaf.

ansicrwydd hwn, nid aeth Llywodraeth Cymru ati i asesu i ba raddau y byddai newidiadau yn y rhagdybiaethau ynghylch niferoedd myfyrwyr a'r llif dros y ffin yn dylanwadu ar ei modelu.

### Nid yw'n waith rhwydd cymharu goblygiadau costau'r gwahanol opsiynau polisi a fodelwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru

**1.20** Wrth wneud y gwaith modelu ariannol, ystyriodd swyddogion Llywodraeth Cymru gost benthyciadau ffioedd dysgu, benthyciadau cynhaliaeth, y Grant Ffioedd Dysgu a chostau diddymu dyledion benthyciadau ar gyfer pob opsiwn polisi (Ffigur 3). Serch hynny, nid mater syml o gyfrif cyfanswm y costau hyn yw hi er mwyn cymharu cost gyffredinol un opsiwn ag un arall neu â'r model llinell sylfaen. Er enghraifft:

- **a** er iddynt ragamcanu cost diddymu dyledion benthyciadau, rhagamcanwyd hefyd gost lawn darparu'r benthyciadau hyn ymlaen llaw;
- **b** nid yw cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu'n gost ychwanegol os gwneir iawn am hynny drwy leihau dyraniadau cyllid addysgu CCAUC[12]; a
- **c** byddai rhoi benthyciadau yn hytrach na'r Grant Ffioedd Dysgu i dalu am gost ffioedd dysgu uwch wedi rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru leihau ei chyllid uniongyrchol ar gyfer addysg uwch drwy CCAUC heb i hynny olygu bod sefydliadau'n waeth eu byd.

**1.21** At hynny, roedd effaith yr opsiynau polisi ar gostau'r gwahanol elfennau a gynhwysid ym modelu Llywodraeth Cymru yn amrywio, gyda rhai opsiynau'n golygu goblygiadau mwy sylweddol i brif gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru ac eraill yn dibynnu'n drymach ar y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol a gallu manteisio ar gyllid Trysorlys EM. Felly, efallai y byddai'r hyn a fyddai o bosibl yn ymddangos yn llai costus o safbwynt cyllidebol Llywodraeth Cymru yn fwy costus o safbwynt y DU yn gyffredinol.

12 Serch hynny, mae cost cyfle posibl sef gallu CCAUC i ddylanwadu ar wireddu amcanion polisi Llywodraeth Cymru drwy ddarparu cyllid addysgu uniongyrchol.



### Ffigur 3 – Goblygiadau cost gwahanol opsiynau polisi ar gyfer cyllid myfyrwyr yn y cyfnod 2012-13 tan 2016-17, yn ôl amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2010[1, 2, 3]

| | Llinell Sylfaen (£ miliwn) | Opsiwn A (£ miliwn) | Opsiwn B (£ miliwn) | Opsiwn C - a ffefrid (£ miliwn) | Opsiwn D (£ miliwn) | Opsiwn E (£ miliwn) | Opsiwn F (£ miliwn) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau a gynhwyswyd yng nghyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru | | | | | | | |
| Grant Ffioedd Dysgu (drwy gyfrwng dyraniad CCAUC) | 0 | 0 | 0 | 653 | 292 | 551 | 653 |
| Cost diddymu dyledion benthyciadau ffioedd dysgu | 250 | 369 | 596 | 283 | 443 | 328 | 265 |
| Cost diddymu dyledion benthyciadau cynhaliaeth | 235 | 288 | 318 | 266 | 295 | 278 | 249 |
| Costau a gynhwyswyd gan Drysorlys EM yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | | | | | | | |
| Benthyciadau Ffioedd Dysgu | 830 | 993 | 1,417 | 830 | 1,155 | 921 | 830 |
| Benthyciadau Cynhaliaeth[4] | 781 | 781 | 781 | 781 | 781 | 781 | 781 |

Nodiadau

1 Seilir y ffigurau hyn ar ffi gyfartalog dybiedig o £7,000 drwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2012/13 ond gan dybio mai'r ffi yn sefydliadau'r Alban fyddai £2,190.

2 Mae'r ffigurau i gyd yn nhermau arian parod.

3 Er bod y modelu ariannol yn rhagamcanu'r costau hyn tan 2020-21, ar ôl 2016-17, y cyfan a wnaethpwyd oedd uwchraddio'r ffigurau yn sgil chwyddiant o'r naill flwyddyn i'r llall, gan gadw'r rhagolygon ar gyfer nifer y myfyrwyr fel yr oeddent ar gyfer 2016-17.

4 Nid oedd cynlluniau i newid y ddarpariaeth benthyciadau cynhaliaeth yn sgil yr opsiynau polisi a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhagamcanion ar gyfer cost diddymu dyledion benthyciadau cynhaliaeth yn amrywio, er mwyn adlewyrchu gwahanol dybiaethau am lefel diddymu'r dyledion hyn pe bai'n rhaid i'r myfyrwyr ysgwyddo benthyciadau ychwanegol i dalu eu ffioedd dysgu.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fodelu ariannol Llywodraeth Cymru*

Seiliodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad polisi terfynol ar ystyried tair gwahanol ffordd o gyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu ac ar y modelu ariannol a oedd wedi tybio y byddai'r ffioedd yn £7,000 ar gyfartaledd, er bod swyddogion a rhai Gweinidogion wedi ystyried y dull modelu cyfatebol a oedd wedi'i seilio ar ffioedd cyfartalog o £9,000

**1.22** Ddiwedd mis Medi 2010, ystyriodd Cabinet Llywodraeth Cymru bapur a oedd yn gosod y sefyllfa ar gyfer ei hymateb polisi i'r posibilrwydd y byddai Lloegr yn cynyddu ei ffioedd dysgu[13]. Roedd y papur yn nodi mai'r egwyddorion sylfaenol a oedd wedi dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr bryd hynny oedd:

- **a** y dylai addysg uwch fod ar gael am ddim i bawb yn y pwynt mynediad - hyd yn oed pe bai hynny'n seiliedig ar fenthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu;
- **b** na ddylai sefydliadau addysg uwch Cymru fod o dan anfantais o ran incwm ffioedd o'u cymharu â sefydliadau eraill y DU; ac
- **c** na ddylai'r un myfyriwr sy'n hanu o Gymru fod yn waeth ei fyd na phetai'n dod o dan bolisi Llywodraeth y DU ar gyfer addysg uwch yn Lloegr.

**1.23** Byddai codi ffioedd dysgu ac ehangu benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu i fwy o bobl wedi cydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus i warchod myfyrwyr Cymru rhag dyledion uwch ac roedd cytundeb 'Cymru'n Un'[14] wedi ymrwymo Llywodraeth Cymru i geisio lliniaru'r effeithiau ar fyfyrwyr a hanai o Gymru pe bai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi y byddai'r cap blaenorol ar ffioedd yn cael ei ddileu. Mewn gwirionedd, mae cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd yn gwneud iawn yn llwyr am effaith codi ffioedd addysg uwch ar bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru.

**1.24** Roedd papur y Cabinet yn cynnig awgrym cynnar i Lywodraeth Cymru am y costau y gallai ei hwynebu yn sgil cynyddu ffioedd dysgu yn Lloegr, a hynny pe bai cynnydd cyfatebol yng Nghymru neu beidio, gan dybio y byddai benthyciadau ffioedd dysgu ar gael i fwy o bobl. Roedd y papur hefyd yn archwilio rhai o fanteision ac anfanteision y ddwy senario hyn - Opsiynau A a B y modelu ariannol - gan sôn am rai o'r materion a archwiliwyd yn y cyfarfod rhwng CCAUC a swyddogion Llywodraeth Cymru ddechrau mis Medi 2010.

**1.25** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r is-adran addysg uwch wedi dweud wrthym mai yn ystod mis Hydref 2010 a chyda chyfraniad gan gynghorwyr arbennig y gweinidogion y cafwyd yr opsiynau a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu gan y Cabinet. Nid oedd swyddogion yr is-adran addysg uwch yn rhan o'r trafodaethau hynny i gyd ac ni chredai'r Cabinet fod angen dadansoddi'r sefyllfa ariannol rhagor bryd hynny.

**1.26** Ganol mis Tachwedd 2010, ystyriodd y Cabinet bapur a oedd yn disgrifio pedwar opsiwn polisi (Opsiynau A, C, D ac E). Rhoddwyd y gorau i ystyried Opsiwn B ac, er iddo fod yn rhan o ddadansoddiad y swyddogion, nid ystyriodd y Cabinet y dadansoddiad ariannol ar gyfer Opsiwn F. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod y Gweinidog Addysg, Plant a Dysgu Gydol Oes ar y pryd wedi gwrthod Opsiwn F oherwydd bod dileu rhan o'r benthyciad cynhaliaeth wedi'i gyflwyno eisoes yn rhan o'r cytundeb gwleidyddol

13 Nid yw agenda'r Cabinet fel y'i cyhoeddwyd na chofnod y cyfarfod a gynhaliwyd 27 Medi 2010 yn cynnwys trafodaethau'r Cabinet ynghylch y papur hwn oherwydd tybiwyd ei fod yn fater cyfyngedig am nad oedd Llywodraeth Cymru am ragweld beth fyddai canlyniadau 'Adolygiad Browne ac ymateb Llywodraeth y DU iddo.

14 Llywodraeth Cymru *Cymru'n Un - Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*, Mehefin 2007. Cytundeb y glymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru oedd cytundeb 'Cymru'n Un'.



ehangach ynglŷn â rhoi amrywiol newidiadau eraill ar waith yn nhrefniadau cyllid myfyrwyr yn 2010/11.

**1.27** Er ei fod yn rhan o bapur canol Tachwedd 2010, dywedwyd nad oedd Opsiwn A yn hyfyw. Roedd hynny'n adlewyrchu pryderon ynghylch yr effaith a gâi ar gyllidebau Llywodraeth Cymru gan adael sefydliadau addysg uwch o dan anfantais o ran incwm ffioedd a hefyd ar fyfyrwyr Cymru a astudiai y tu allan i Gymru gan y byddent yn dal yn gorfod ysgwyddo rhagor o ddyledion ar eu benthyciadau. Mewn papur wedyn, a oedd yn sail i'r penderfyniad polisi terfynol, cyflwynwyd manylion y modelu ariannol ar gyfer Opsiynau C, D ac E, a'r rheini wedi'i seilio ar dybio mai'r ffi gyfartalog yn 2012/13 fyddai £7,000. Roedd papur y Cabinet yn pwysleisio'r risgiau a'r ansicrwydd a oedd yn elfen gynhenid o'i ragamcanion, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch niferoedd myfyrwyr a llifau dros y ffin[15], ond ni chyflwynwyd canlyniadau unrhyw ddadansoddiad sensitifrwydd, gan gynnwys canlyniadau'r modelu a oedd yn tybio y byddai pob sefydliad, pe bai'n gallu, yn codi'r ffi uchaf posibl yn 2012/13, sef £9,000. Fodd bynnag, roedd y dadansoddiad a seiliwyd ar ffi gyfartalog o £9,000 wedi'i rannu â'r Gweinidog Addysg, Plant a Dysgu Gydol Oes ar y pryd a dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ei fod hefyd wedi cael ei rannu a'i drafod gydag aelodau penodol eraill o'r Cabinet.

**1.28** Roedd y penderfyniad i fwrw ymlaen ag Opsiwn C yn adlewyrchu cyngor gan swyddogion bod yr ateb hwn yn un fforddiadwy a chynaliadwy ac mai dyma'r unig ffordd o fynd o'i chwmpas hi a fyddai'n gwarchod pob myfyriwr a hanai o Gymru rhag dyledion uwch, ac a fyddai felly'n gwireddu'n llawn ymrwymiad 'Cymru'n Un'. Roedd y cyngor hefyd yn dweud na fyddai myfyrwyr o Gymru a oedd yn dymuno astudio pynciau nad oeddent ar gael yng Nghymru o dan anfantais. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd effaith gyfun diddymu rhan o'r benthyciadau cynhaliaeth a chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu, erbyn 2016-17 yn golygu y bydd dyledion cyfartalog myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ac eithrio'r llog a godir, bron yn hanner y ddyled a ysgwyddir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

**1.29** Roedd modelu Llywodraeth Cymru o dan Opsiwn C incwm y sector addysg uwch yn rhagweld twf mewn o ran arian parod o £1.18 biliwn yn 2011-12 i £1.35 biliwn yn 2016-17.[16] Disgwylid i'r incwm yn 2016-17 mewn termau real gyfateb yn fras i'r incwm yn 2011-12 ar ôl iddo godi yn ei hôl ar ôl lleihau o ychydig dan £30 miliwn rhwng 2011-12 a 2012-13[17]. Yn sail i'r rhagamcanion hyn, ac yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r ffioedd dysgu cyfartalog yn £7,000, roedd Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y gallai'r sector addysg uwch yng Nghymru golli £185 miliwn rhwng 2012-13 a 2016-17 i sefydliadau y tu allan i Gymru yn sgil talu'r Grant Ffioedd Dysgu.  Fodd bynnag, byddai amcangyfrif Llywodraeth Cymru y byddai sefydliadau'n ennill £304 miliwn drwy godi ffioedd o £7,000 ar fyfyrwyr o Loegr a oedd yn astudio yng Nghymru yn fwy na gwneud iawn am hynny.[18]

**1.30** Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â'i chynigion ddechrau 2011[19], gan

15 Roedd y papur yn nodi hefyd, ar gyfer yr opsiynau hynny a oedd yn cynnwys prawf modd ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu, y byddai angen ystyried eto'r trothwyon ar gyfer y prawf modd a'r tapro, pe bai'r rheini'n cael eu ffafrio.

16 Llywodraeth Cymru (datganiad ysgrifenedig), *Rhagamcanion Incwm i'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru o 2011 - 2012 tan 2016 - 2017*, Rhagfyr 2010

17 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ffigurau arian parod wedi'u diweddaru yn ei Ddatganiad Polisi am Addysg Uwch ym mis Mehefin 2013. Mae'r rhain, a'r ffigurau termau gwirioneddol cysylltiedig yr ydym wedi'u gweld, yn ategu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2010, gyda chynnydd bach o ran incwm arian parod ac mewn termau real yn gyffredinol, o'i gymharu â'r amcangyfrifon gwreiddiol, er bod hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer incwm o ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig ag addysgu israddedigion amser llawn.

18 Roedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru a oedd yn seiliedig ar y ffi uchaf posibl o £9,000 drwy sefydliadau Cymru a Lloegr yn amcangyfrif mai cost y Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr a oedd yn astudio y tu allan i Gymru fyddai cyfanswm o £289.4 miliwn rhwng 2012-13 a 2016-17 ond y byddai sefydliadau Cymru yn ennill £476.5 miliwn drwy godi ffioedd o £9,000 ar fyfyrwyr a hanai o Loegr.

19 Llywodraeth Cymru, *Dogfen Ymgynghori - Ariannu addysg uwch a chyllid myfyrwyr 2012/13*, Ionawr 2011

ganolbwyntio ar sut y byddai'r drefn a ddisgrifiwyd ym mis Tachwedd 2010 yn cael ei rhoi ar waith ar lawr gwlad, yn hytrach na thrafod yr egwyddorion sylfaenol. Un o'r pethau a oedd yn destun pryder a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd asesiad Llywodraeth Cymru na fyddai'r sector addysg uwch yn waeth ei fyd mewn termau real yn 2016-17 nag yr oedd yn 2012-13. Roedd rhanddeiliaid yn awyddus i ddeall sail yr honiad hwnnw ac eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod y dadansoddiad wedi'i wneud ar lefel sector cyfan yn hytrach na'u bod wedi ystyried yn fanwl yr effaith bosibl ar sefydliadau unigol.

## Nid oedd rhai agweddau ar y ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i werthuso'r opsiynau polisi'n cydymffurfio â'r arferion gorau

**1.31** Ni all Llywodraeth Cymru ddangos bod y ffordd yr aeth ati i werthuso'i hopsiynau polisi ddiwedd 2010 yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r egwyddorion arferion gorau sydd yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM[20]. Mae'n rhoi cyngor ynglŷn â gwerthuso polisïau, rhaglennu neu brosiectau. Yn rhannol, efallai fod hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod angen iddi ymateb yn gyflym i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â chyflwyno ffioedd dysgu uwch yn Lloegr.

**1.32** Er ei fod yn pwysleisio bod angen cadw pethau'n gymesur, mae'r Llyfr Gwyrdd yn dweud bod angen i adrannau'r llywodraeth werthuso costau a manteision gwahanol opsiynau polisi er mwyn cyflawni amcan penodol, gan gynnwys rhoi gwerth ar y costau a'r manteision lle bo modd. Mae'r Llyfr Gwyrdd hefyd yn pwysleisio y dylai adrannau ystyried sut mae'r broses gwerthuso opsiynau'n cydweddu â'u trefniadau llywodraethu hwy eu hunain o ran sut mae opsiynau penodol yn effeithio ar unrhyw amcanion strategol ehangach.

**1.33** Cyn cyhoeddi ei pholisi ym mis Tachwedd 2010, roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith ehangach ei pholisi ar CCAUC, ar y sector addysg uwch drwyddo draw ac ar fyfyrwyr (gan gynnwys o safbwynt asesu'r effaith ar gydraddoldeb[21]). Serch hynny, roedd swyddogion yn cydnabod bod angen ystyried y materion hyn eto, ac, yn gyffredinol, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhestru'n glir nac wedi gwerthuso'n systematig holl ystod y costau, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau yn y costau gweinyddol, a manteision y gwahanol opsiynau polisi yr oedd wedi'u rhestru. Nid oedd Llywodraeth Cymru ychwaith wedi ceisio rhoi gwerth ar y manteision ym mhob achos lle y gallai fod wedi gwneud hynny, megis ar effaith economaidd gwahanol lefelau dyledion myfyrwyr yn y tymor hir.

**1.34** Hefyd, er bod papurau'r Cabinet yn cydnabod yr ansicrwydd cynhenid a oedd ynghlwm wrth rai o'r rhagdybiaethau sylfaenol, nid oedd y dadansoddiad sensitifrwydd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar draws yr opsiynau polisi gwahanol ond yn cymharu'r model ffioedd cyfartalog £7,000 â'r model £9,000. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn dweud y gellir peidio â chynnal dadansoddiad sensitifrwydd o dan amgylchiadau eithriadol. Er efallai fod prinder amser wedi bod yn ffactor, yn ein barn ni, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ystyried ei hymateb yn gynharach i unrhyw gynnig i godi ffioedd dysgu yn Lloegr ar ôl lansio 'Adolygiad Browne' ym mis Tachwedd 2009. At hynny, ni ddilynwyd prosesau adolygu ffurfiol wrth i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ei pholisi er bod prosesau o'r fath ar waith ar y pryd, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ag amcanion strategol ehangach, gan gynnwys ei gyfraniad cyffredinol at ddatblygu cynaliadwy.

20 Trysorlys EM, *The Green Book, Appraisal and Evaluation in Central Government*, 2003

21 Roedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar chwech o'r naw 'nodwedd warchodedig' o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, hil, rhyw, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol. Er enghraifft, roedd Llywodraeth Cymru yn gweld, oherwydd nad yw rhai pynciau penodol y bydd mwy o ferched yn tueddu i'w dilyn ar gael yn rhwydd yng Nghymru (meddygaeth filfeddygol er enghraifft), y gallai rhoi cymorth i bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru, ni waeth ymhle y byddant yn astudio, gyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddau ryw.



**1.35** Rhoddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'i hasesiad o effaith ei phenderfyniad polisi yn y memorandwm esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r rheoliadau a ddatblygwyd ganddi'n fuan yn 2011 i ategu rhoi'r polisi ar waith[22]. Roedd y memorandwm esboniadol hwnnw'n canolbwyntio ar gymharu cynigion Llywodraeth Cymru, yr opsiwn 'gwneud dim', a'r opsiwn o adlewyrchu polisi Llywodraeth y DU ar gyfer addysg uwch yn Lloegr. Nid oedd y memorandwm esboniadol yn cymharu'r gwahanol ffyrdd o gyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu, sef yr hyn y canolbwyntiwyd arno gan Lywodraeth Cymru wrth iddi wneud ei phenderfyniad polisi terfynol ym mis Tachwedd 2010.

## Erbyn hyn, disgwylir i gost y Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer 2012-13 tan 2016-17 fod yn sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd ym mis Tachwedd 2010, ond nid yw amcan-gost rhoi benthyciadau i fyfyrwyr wedi newid ac mae'r taliadau a amcangyfrifwyd ar gyfer cost diddymu dyledion benthyciadau'n llai

**Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn diweddaru eu modelu i adlewyrchu'r newidiadau yn y rhagdybiaethau sy'n sail iddo, gan gynnwys y wybodaeth bod sefydliadau'n codi ffioedd uwch nag yr oedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl iddynt eu codi**

**1.36** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn diweddaru ei modelu yn ystod y cyfnod ers diwedd 2010 i adlewyrchu tueddiadau a newidiadau sy'n ymddangos yn ei thybiaethau sylfaenol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys diweddariadau cyffredinol i gyfraddau chwyddiant a llog, i'r model ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ac i werth mwyaf posibl mathau penodol o gymorth ariannol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynyddu gwerth benthyciadau cynhaliaeth ar gyfer 2013/14 a 2014/15 ar raddfa fwy na chwyddiant.

**1.37** Er bod modelu Tachwedd 2010 wedi'i seilio ar ffioedd dysgu cyfartalog o £7,000 y flwyddyn, yn ystod 2011 a 2012, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfradd ffioedd gyffredinol o £9,000 ar waith yn ei modelu a hynny i'r DU gyfan ar gyfer 2012/13, gan ei huwchraddio yn y blynyddoedd wedyn yn unol â chwyddiant. Ar sail y dystiolaeth sy'n ymddangos, a chyda chyfraniad gan CCAUC, ym mis Chwefror 2013, addaswyd y model eto i adlewyrchu rhagdybiaethau diwygiedig am ffioedd cyfartalog ar draws gwahanol rannau o'r DU (Ffigur 4).

**1.38** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi newid ei thybiaethau ynglŷn â nifer y myfyrwyr a allai fod yn gymwys i gael cymorth ariannol (Ffigur 5). Yn y ffigurau hyn, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y myfyrwyr y mae Llywodraeth Cymru wedi tybio y byddant yn cael cymorth ariannol gan sefydliadau unigol ar ffurf ffioedd dysgu is. Lle bydd sefydliadau'n codi ffioedd is ar y myfyrwyr hyn, bydd hyn wedyn golygu y bydd angen talu llai o'r Grant Ffioedd Dysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd y gostyngiad hwnnw'n 50 y cant. Ar gyfer 2016/17, roedd model Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2010 yn amcangyfrif y byddai'r gostyngiad hwn yn gymwys i 5.7 y cant o'r myfyrwyr a oedd yn gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu o'i chymharu ag 1.6 y cant ym model mis Chwefror 2013.

22 Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 - Memorandwm Esboniadol* , Chwefror 2011. Roedd yr un memorandwm esboniadol yn ategu cyfres ehangach o reoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn sail i'w bolisi ffioedd dysgu o 2012/13 ymlaen.

**Ffigur 4 – Rhagdybiaethau ynglŷn â ffioedd dysgu ym modelu Llywodraeth Cymru ar gyfer costau Grantiau Ffioedd Dysgu, ym mis Chwefror 2013[1]**

| Lleoliad y sefydliad addysg uwch | Ffioedd dysgu cyfartalog ar gyfer y rhai a dderbyniwyd yn 2012/13 | Ffioedd dysgu cyfartalog ar gyfer y rhai a dderbyniwyd yn 2013/14[2] |
|---|---|---|
| Cymru[3] | £8,680 | £8,291 |
| Lloegr[4] | £8,385 | £8,507 |
| Yr Alban a Gogledd Iwerddon[5] | £9,000 | £9,000 |

Nodiadau

1 Eithrir o bob ffi unrhyw fwrsari neu ffurf arall ar esgusodiad rhag talu ffi a gynigir i fyfyrwyr gan sefydliadau unigol ac a fyddai'n gostwng gwerth y Grant Ffioedd Dysgu y byddai angen ei dalu.

2 Ar gyfer model Chwefror 2013, tybiodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ffioedd cyfartalog yn sefydliadau Cymru ar gyfer y rhai a dderbynnid yn 2014/15 a 2015/16 yn aros ar yr un lefel ag yn 2013/14, gan eu cynyddu'n unol â chwyddiant wedi hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd y ffi uchaf posibl yng Nghymru yn cael ei rhewi ar swm o £9,000 tan ddiwedd 2015/16. Mae gwahanol dybiaethau'n berthnasol i ffioedd a godir ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y dyfodol ac sy'n astudio yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y tu hwnt i 2013/14.


3 Seilir y ffigurau ar gyfer sefydliadau Cymru ar ffigurau cyfartalog a roddir i Lywodraeth Cymru gan CCAUC ar sail cynlluniau ffioedd a gymeradwywyd.

4 Seilir ffigurau sefydliadau Lloegr ar ddata gan y Swyddfa Mynediad Teg (OFFA), Cytundebau Mynediad 2012-13; Data terfynol gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol i athrawon , Gorffennaf 2012.

5 Er bod sefydliadau'r Alban a Gogledd Iwerddon o bosibl yn codi llai na £9,000, tybiodd Llywodraeth Cymru mai'r ffi uchaf posibl ar draws sefydliadau'r Alban a Gogledd Iwerddon fyddai £9,000. Mae'r nifer fach o fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y sefydliadau hyn yn golygu mai ychydig iawn o effaith a fyddai unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn yn ei chael ar amcangyfrifon costau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fodelu ariannol Llywodraeth Cymru.*

**Ffigur 5 – Rhagamcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac o'r UE sy'n gymwys i gael cymorth ariannol o 2012/13 tan 2016/17, fel yr oedd y sefyllfa ym mis Tachwedd 2010 ac ym mis Chwefror 2013[1]**




Nodyn

1 Mae cyfradd y cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhwng 2012/13 a 2014/15 yn adlewyrchu'n benodol y ffaith fod y benthyciad ffioedd dysgu presennol a'r trefniadau ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu wedi'u lledaenu wrth i fyfyrwyr a ddechreuodd ar eu haddysg uwch cyn 2012/13 ymadael â'r system. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld gostyngiad bach yn nifer gyffredinol y myfyrwyr a fyddai'n dechrau ar eu haddysg uwch yn 2012/13 o'i chymharu ag yn 2011/12, ond y byddai'r niferoedd yn adfer eto yn y blynyddoedd dilynol.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fodelu ariannol Llywodraeth Cymru.*



**1.39** Mae rhai sefydliadau wedi'i gwneud hi'n glir na fydd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn gymwys i gael cymorth ariannol penodol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r Grant Ffioedd Dysgu. Felly, mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn awr yn waeth eu byd na phetaent wedi dechrau ar eu haddysg uwch cyn cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym nad oes ganddynt hwy na CCAUC unrhyw ddylanwad dros y cymorth ariannol y mae sefydliadau y tu allan i Gymru yn ei gynnig. Fodd bynnag, gallai'r trefniant cynllunio ffioedd dysgu y mae CCAUC yn ei oruchwylio yng Nghymru gael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar arferion sefydliadau yng Nghymru.

**1.40** Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio ar sail rhagdybiaeth mai dim ond 98 y cant o'r myfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth ariannol a fydd yn hawlio'r Grant Ffioedd Dysgu, o'i gymharu â'r dybiaeth ym model mis Tachwedd 2010 y byddai 100 y cant yn ei hawlio. Roedd data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn dangos bod 95 y cant o'r myfyrwyr a oedd wedi ymuno â'r system cyllid myfyrwyr wedi manteisio ar y Grant Ffioedd Dysgu. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cymharu data cofrestru amodol sefydliadau Cymru â data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac wedi gweld bod hyn yn awgrymu bod 95 y cant o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac o'r UE wedi hawlio'r Grant Ffioedd Dysgu.


**1.41** O leiaf yn rhannol, mae'r dadansoddiad hwn o'r nifer sydd wedi manteisio ar y Grant Ffioedd Dysgu yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r Grant Ffioedd Dysgu ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cael gradd eisoes. Gall y myfyrwyr hyn ddal i fanteisio ar gymorth ariannol o fathau eraill. Serch hynny, mae'n bosibl nad yw rhai myfyrwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael ar ffurf benthyciad a grant, neu eu bod yn dewis peidio ag ymuno â'r system cyllid myfyrwyr am resymau eraill. Efallai hefyd fod gwahaniaethau rhwng y cofnodion sy'n cofnodi man hanu myfyrwyr pan gymherir data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr â data cofrestru sefydliadau.

**1.42** Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gostwng ei hamcangyfrifon bump y cant ar gyfer cost rhoi cymorth i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cywiriad hwn ar waith er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ynglŷn â chywirdeb y rhagolygon hanesyddol.

### Bellach, disgwylir mai cost y Grant Ffioedd Dysgu dros y cyfnod 2012-13 tan 2016-17 fydd £809 miliwn o'i chymharu â'r rhagolygon gwreiddiol, sef £653 miliwn

**1.43** Yn ôl gwaith modelu gwreiddiol Llywodraeth Cymru a seiliwyd ar ei thybiaethau ar y pryd a oedd yn cynnwys ffi gyfartalog o £7,000 ar gyfer 2012/13, cyfanswm amcan-gost y Grant Ffioedd Dysgu fyddai £653.3 miliwn dros y cyfnod o bum mlynedd o 2012-13 tan 2016-17. Mae'r diweddariad i'r modelu ym mis Chwefror 2013 yn dangos mai'r gost fyddai £809.1 miliwn, cynnydd o 24 y cant. Fodd bynnag, mae amcangyfrif mis Chwefror 2013 yn sylweddol is na'r gost uchaf posibl (£1.02 biliwn dros y cyfnod) a fodelwyd yn 2010, ar sail ffi gyfartalog o £9,000 ar gyfer 2012/13 (Ffigur 6).

**Ffigur 6 – Rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer costau'r Grant Ffioedd Dysgu o 2012-13 tan 2016-17, fel yr oeddent ym mis Tachwedd 2010 ac ym mis Chwefror 2013[1]**




Nodyn

1 Mae'r ffigurau i gyd yn nhermau arian parod.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fodelu ariannol Llywodraeth Cymru*

**1.44** Mae'r cynnydd yn amcan-gost y Grant Ffioedd Dysgu'n adlewyrchu'r newidiadau i dybiaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffioedd dysgu cyfartalog yn 2012/13 ac yn y blynyddoedd wedyn, ac, i raddau llai, yn y newidiadau i'r rhagdybiaethau ynglŷn â niferoedd myfyrwyr. Gwrthbwyswyd y newidiadau hyn i ryw raddau gan y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i'r amcangyfrifon ar gyfer y nifer a fydd yn manteisio ar y Grant Ffioedd Dysgu ac wedyn y gostyngiad cyffredinol o bump y cant y mae wedi'i gynnwys yn ei hamcangyfrifon. Serch hynny, nodwn fod CCAUC wedi adrodd mai'r gwariant ar y Grant Ffioedd Dysgu oedd £48.1 miliwn yn ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 2012/13, o'i gymharu ag amcangyfrif Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2013, sef y byddai'r Grant Ffioedd Dysgu'n costio £47.2 miliwn.




**Nid yw amcan-gost rhoi benthyciadau i fyfyrwyr yn y  y cyfnod 2012-13 tan 2016-17 wedi newid, sef ychydig dros £1.6 biliwn, ac er y gallai cost diddymu dyledion benthyciadau newid, ar hyn o bryd, disgwylir mai £476 miliwn fydd honno o'i chymharu â'r rhagolygon gwreiddiol sef £549 miliwn**

**1.45** Yn ôl gwaith modelu gwreiddiol Llywodraeth Cymru, cyfanswm amcan-gost darparu benthyciadau i fyfyrwyr fyddai £1.611 biliwn dros bum mlynedd o 2012-13 tan 2016-17. Wrth ddiweddaru'r model ym mis Chwefror 2013, cafwyd ffigur tebyg iawn, sef £1.616 biliwn (Ffigur 7).  Mae amcan-gost darparu benthyciadau ffioedd dysgu wedi o'r amcangyfrif gwreiddiol sef £830.4 miliwn i £807.9 miliwn, gostyngiad o oddeutu tri y cant. Mae amcan-gost darparu benthyciadau cynhaliaeth wedi cynyddu o'r amcangyfrif gwreiddiol, sef £781.1 miliwn i £808.1 miliwn, cynnydd o oddeutu tri y cant.

**1.46** Roedd data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 yn cadarnhau taliadau ar ffurf benthyciadau ffioedd dysgu gwerth £143.8 miliwn yn 2013-13, a bod £4.4 miliwn o'r swm hwnnw (oddeutu tri y cant) ar gyfer myfyrwyr a hanai o'r UE a oedd yn astudio yng Nghymru[23]. Roedd yr un ffynhonnell yn cadarnhau taliadau benthyciadau cynhaliaeth gwerth £143.3

**Ffigur 7 – Rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer costau diddymu dyledion benthyciadau ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth o 2012-13 tan 2016-17, fel yr oedd y sefyllfa ym mis Tachwedd 2010 ac ym mis Chwefror  2013[1,2]**




Nodiadau

1 Nid yw'r dadansoddiad hwn, na modelu Llywodraeth Cymru yn ystyried yr incwm a ddaw yn sgil ad-daliadau i wrthbwyso'r benthyciadau a delir i fyfyrwyr.

2 Mae'r ffigurau i gyd yn nhermau arian parod.


*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fodelu ariannol Llywodraeth Cymru*

23 Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, *Statistical First Release – Student loans for higher education in Wales, financial year 2012-13*, Mehefin 2013.

miliwn yn 2012-13. Roedd y ffigurau hyn yn cymharu ag amcangostau gwerth £139.8 miliwn (benthyciadau ffioedd dysgu) a £140.3 miliwn (benthyciadau cynhaliaeth) ar gyfer 2012-13 ym modelu Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2013.

**1.47** Yn ôl gwaith modelu gwreiddiol Llywodraeth Cymru, cyfanswm amcan-gost diddymu dyledion benthyciadau oedd £548.8 miliwn yn ystod y pum mlynedd rhwng 2012-13 a 2016-17. Mae'r diweddariad i'r model ym mis Chwefror 2013 yn dangos mai cost hyn fyddai £475.9 miliwn, gostyngiad o oddeutu 13 y cant. Rhennir cyfanswm yr amcan-gost yn gyfartal rhwng benthyciadau ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y cynllun i newid sut yr amcangyfrifir y gost hon yn gwrthdroi rhywfaint o'r gostyngiad hwn. Nid yw costau diddymu dyledion benthyciadau cynhaliaeth wedi lleihau gymaint ag y mae costau diddymu benthyciadau ffioedd dysgu, sy'n adlewyrchu'r gwahanol dueddiadau a ragwelir yng nghostau darparu'r benthyciadau hyn (Ffigur 8).

**Ffigur 8 – Rhagamcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer costau diddymu dyledion benthyciadau ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth o 2012-13 tan 2016-17, fel yr oedd y sefyllfa ym mis Tachwedd 2010 ac ym mis Chwefror 2013[1,2]**




Nodiadau

1 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n newid y ffordd y mae'n mynd ati i fodelu ystadegau costau diddymu dyledion benthyciadau o 2013-14 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y dull newydd y mae'n ei fabwysiadu'n debygol o gynyddu'r costau blynyddol hyn oddeutu pump y cant ar sail gyffelyb.

2 Mae'r ffigurau i gyd yn nhermau arian parod.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fodelu ariannol Llywodraeth Cymru.*



# Rhan 2 – At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi rhoi'r polisi ffioedd dysgu newydd ar waith yn effeithiol, ond mae nifer o faterion cysylltiedig i'w datrys o hyd

**2.1** Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn canolbwyntio ar sut mae Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi rheoli cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu. Mae hefyd yn ymdrin â rhai materion cysylltiedig sy'n berthnasol i'r system cyllid myfyrwyr a chyllido a rheoleiddio addysg uwch.

**2.2** O ran Llywodraeth Cymru, rydym wedi ystyried:

- **a** rheoli prosiectau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- **b** rheoli costau'r polisi ffioedd dysgu;
- **c** sut mae'r polisi ffioedd dysgu wedi ystyried myfyrwyr rhan-amser;
- **ch** trefniadau a reolir gan awdurdodau lleol i brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr a chynlluniau i ganoli'r gwasanaeth hwnnw gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; a
- **d** newidiadau arfaethedig i'r fframwaith rheoleiddio addysg uwch.

**2.3** O ran CCAUC, rydym wedi ystyried:

- **a** newidiadau i'r ffordd y mae CCAUC yn dosbarthu arian i'r sector addysg uwch;
- **b** y broses cynllunio ffioedd dysgu; a
- **c** sut mae CCAUC yn monitro cynaliadwyedd ariannol sefydliadau addysg uwch, eu trefniadau llywodraethu a'u perfformiad.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi goruchwylio'r gwaith yr oedd gofyn ei wneud i roi'r polisi ffioedd dysgu presennol ar waith yn effeithiol hyd yn hyn, ond mae angen cymryd rhagor o gamau ym maes ffioedd dysgu rhan-amser, i fynd i'r afael â gwendidau wrth brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr, ac o ran rôl CCAUC

### Llwyddodd Llywodraeth Cymru i gwblhau mewn pryd y newidiadau yr oedd eu hangen mewn pryd er mwyn cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu yn 2012/13, ac yn fwy cyffredinol, mae wedi cryfhau'r fframwaith ar gyfer rhoi ei rhaglen addysg uwch ar waith

**2.4** Sylweddolai Llywodraeth Cymru o'r dechrau'n deg fod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r newidiadau angenrheidiol i gyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu o 2012/13 ymlaen yn un heriol. Cyflawnodd Llywodraeth Cymru lawer o'r gwaith yr oedd angen ei wneud ei hun, megis rhagor o ymgynghori, datblygu rheoliadau a chanllawiau perthnasol yn gefn i'r gwaith a bu'n goruchwylio'r gwaith paratoi gan gyrff eraill, gan gynnwys CCAUC, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac awdurdodau lleol. Ni welsom ddim tystiolaeth o unrhyw broblemau sylweddol yn sgil y newidiadau, er enghraifft, o ran llif y cyllid o gwmpas y system.

**2.5** Mae gwaith Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ac 'Adolygiad Porth i Bolisïau'[24] o sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen i roi'r newidiadau arfaethedig ar waith ym maes cyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr ar gyfer 2012/13 wedi bod yn gyfrwng i fynegi'n glir y risgiau allweddol a'r camau lliniaru, gan fod o gymorth i ganolbwyntio ar wireddu'r manteision. Cynhaliwyd yr Adolygiad Porth i Bolisïau ym mis Hydref 2011, a thynnodd hyn hefyd sylw at y cyfle i roi rhagor o strwythur i raglen Llywodraeth Cymru ac i'w threfniadau rheoli prosiectau. At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr adolygiadau.

**2.6** Yn ystod 2012, dechreuodd Llywodraeth Cymru ar ei 'Rhaglen Cyflawni Addysg Uwch' gyffredinol (Blwch 2). Ymhlith pethau eraill, nod y rhaglen yw sicrhau gwell cysondeb rhwng polisïau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar addysg uwch, a hybu rhyngwyneb symlach a mwy cyson rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid addysg uwch.

**Blwch 2 – 'Rhaglen Cyflawni Addysg Uwch' Llywodraeth Cymru**

Mae bwrdd y rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o is-adran addysg uwch Llywodraeth Cymru ac o rannau eraill o'r Adran Addysg a Sgiliau ac o'r Adran Menter, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Rhai o'r cyrff allanol a gynrychiolir yw CCAUC, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Addysg Uwch Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru.

Mae'r rhaglen yn cynnwys tri phrif brosiect ategol, sy'n ymwneud â nifer o themâu cydgysylltiedig ac sy'n adeiladu ar waith sydd wedi'i wneud cyn creu'r rhaglen:

- *Prosiect polisi a deddfwriaeth addysg uwch*: yn y tymor byr, mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn bennaf â:
  - datblygu Bil Addysg Uwch (Cymru), y bwriada Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i gyflwyno fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch; a
  - bwrw ymlaen â gwaith arall sy'n codi yn sgil *Ddatganiad Polisi ar Addysg Uwch* Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013.
- *Prosiect cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr*: gwaith y prosiect hwn yw edrych mewn ffordd gyfannol ar bob maes sy'n berthnasol i gyllid a chyllido addysg uwch ac addysg bellach, er mwyn sicrhau bod cyllid myfyrwyr yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru, sef ehangu cyfranogi mewn addysg bellach ac addysg uwch a sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian.
- Prosiect Moderneiddio *Cyllid Myfyrwyr Cymru*: mae a wnelo'r prosiect hwn â rheoli'r cyfnod pontio wrth symud at system ganolog y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gyfer prosesu ceisiadau myfyrwyr am gyllid, a symud oddi wrth y trefniadau presennol lle bydd awdurdodau lleol yn eu rheoli.

24 Mae proses yr Adolygiad Porth i Bolisïau wedi'i datblygu gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac fe'i seilir ar adolygiad byr a phenodol gan gymheiriaid yn ystod camau allweddol prosiect neu raglen.



**Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro'n ofalus y rhagamcanion ar gyfer incwm a gwariant cyllid myfyrwyr a'r risgiau cysylltiedig, sy'n cynnwys newid sut y bydd costau diddymu dyledion benthyciadau myfyrwyr yn cael eu cyfrifo**

**2.7** Mae Grŵp Defnyddwyr Llywodraeth Cymru sy'n paratoi 'Rhagolygon Cymorth i Fyfyrwyr' yn dwyn ynghyd swyddogion Llywodraeth Cymru o wahanol adrannau ac, ers mis Hydref 2012, mae Pennaeth Ystadegau CCAUC wedi bod yn un o'r cynrychiolwyr. Drwy'r grŵp hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi monitro rhagamcanion incwm a gwariant cyllid myfyrwyr yn ofalus, gan ddiweddaru'r modelu yn ystod gwahanol gamau ers canol 2011. Bydd unrhyw broblemau sy'n codi yn sgil gwaith y grŵp hwn yn cael eu trosglwyddo i'r Bwrdd Prosiect Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr er mwyn iddo'u trafod.

**2.8** Yn ddiweddar, cafwyd adroddiad cadarnhaol gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru am drefniadau rheoli Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid myfyrwyr, gan gynnwys gwaith y Grŵp Defnyddwyr sy'n paratoi Rhagolygon Cymorth i Fyfyrwyr. Roedd yr archwilwyr mewnol yn sylweddoli bod y gyllideb ar gyfer cyllid myfyrwyr yn ansefydlog a bod y berthynas rhwng y sefydliadau sy'n ymwneud â sicrhau atebolrwydd priodol yn un gymhleth. O dan yr amgylchiadau hyn, roedd yr archwilwyr mewnol yn fodlon ar y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eu cymryd i ragweld a rheoli'r gwariant a'r incwm. Fodd bynnag, roedd adroddiad yr archwiliad mewnol yn nodi y gallai Llywodraeth Cymru gyfleu'n well y gwaith sydd ar y gweill i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid myfyrwyr fel rhan o'i threfniadau rheoli risg ehangach.

**2.9** Roedd adroddiad yr archwiliad mewnol hefyd yn dweud bod rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar wybodaeth a geir gan Lywodraeth y DU a chan sefydliadau amrywiol eraill, gan gynnwys gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Yn 2012-13, cododd problemau o ran rhagweld swm ac amseriad symiau ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr y byddai Llywodraeth Cymru yn eu derbyn. Roedd y problemau hyn, ynghyd â'r ffaith nad yw gwybodaeth gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gael ar adegau allweddol yn amserlen gyllidebu Llywodraeth Cymru, yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi tanamcangyfrif yn sylweddol faint o 'Wariant a Reolir yn Flynyddol' yr oedd ei angen arni gan Drysorlys EM i ariannu benthyciadau i fyfyrwyr yn chwarter olaf 2012-13. Roedd yr adroddiad yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymdrechu'n ddycnach i ddylanwadu ar ei phartneriaid cyflawni i ddarparu rhagamcanion data cyfoes yn brydlon er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i gadw at amserlen Trysorlys EM, ac, oni fyddai'n llwyddo i wneud hynny, i geisio sicrhau drwy drafodaeth â Thrysorlys EM, rywfaint o hyblygrwydd yn yr amserlen.

**2.10** Un maes sy'n peri risg sylweddol yw'r modelu ystadegol i gyfrifo gwerth blynyddol cost diddymu dyledion benthyciadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn defnyddio 'Model Ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr' a ddefnyddiwyd drwy'r DU i gyd tan 2011-12 ac a gynhelid gan Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU. Ond, penderfynodd Llywodraeth Cymru addasu'r model er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer ei pholisïau cyllid myfyrwyr penodol hithau.

**2.11** Ar gyfer 2011-12, trodd gweddill y DU at ddefnyddio model 'HERO' newydd a ddatblygwyd ar ran yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Gohiriodd Llywodraeth Cymru newid i ddefnyddio'r model hwn oherwydd na allai gael esboniad clir ynglŷn â pham yr oedd y model newydd yn cynhyrchu costau diddymu dyledion benthyciadau a oedd yn sylweddol uwch na'r rhai a ragwelwyd. Ni allai Llywodraeth Cymru ychwaith esbonio gwerth y 'tâl-stoc' untro ychwanegol a fyddai'n codi wrth symud at y model newydd, er

mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffordd y byddai angen i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am fenthyciadau i fyfyrwyr. Amcangyfrifwyd mai gwerth y tâl-stoc hon gynt oedd oddeutu £280 miliwn ond bellach, disgwylir y bydd yn oddeutu £326 miliwn.

**2.12** Parhaodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Model Ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr yn 2012-13, ond penderfynodd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau na fyddai'n cynnal y model y tu hwnt i hynny. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod ystyried ei hopsiynau ac, yn y cyfamser, mae pryderon ehangach wedi codi ynghylch cadernid y model HERO a ddatblygwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Comisiynydd yr Adran waith ymgynghorol ychwanegol i adolygu'r model ac i gynnig ffyrdd o'i ddatblygu neu ei ddiwygio. Mae'r Adran bellach wedi penderfynu datblygu'r model yn fewnol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wrthi'n ystyried y dull a ddefnyddir gan yr Adran i fodelu ad-daliadau yn y dyfodol fel rhan o archwilio ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr sydd ar lyfr benthyciadau Lloegr. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ddiweddarach yn 2013.

**2.13** Ym mis Medi 2013, penderfynodd Llywodraeth Cymru, er gwaethaf y pryderon am ei gadernid, y byddai bellach yn mabwysiadu'r model HERO. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar asesiad o fanteision ac anfanteision y dull hwn o'i gymharu â'r canlynol:

- **a** parhau i ddefnyddio'r Model Ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr, sydd bellach wedi'i seilio ar hen wybodaeth. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r wybodaeth a chynnal y system ei hun er mwyn adlewyrchu'r trefniadau diwygiedig ar gyfer ad-dalu benthyciadau; a
- **b** datblygu model amgen i Gymru, sy'n annibynnol ar system Llywodraeth y DU a rhai'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

**2.14** Mae Llywodraeth Cymru yn trafod gyda Thrysorlys EM yr arian ychwanegol i dalu'r tâl-stoc, sef £326 miliwn. Talodd Trysorlys EM am y gost gyfatebol i Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon pan fabwysiadwyd y model HERO ganddynt hwythau. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y model yn cynyddu taliadau blynyddol diddymu dyledion benthyciadau, a hynny o bosibl yn gynnydd o oddeutu pump y cant.

**2.15** Mae Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli bod y model y mae'n ei fabwysiadu'n wallus, bod sail canlyniadau'r model i Gymru yn aneglur ac y caiff y model ei newid eto. Wedi dweud hynny, barn Llywodraeth Cymru yw mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen yw cydweithio â'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'r cenhedloedd datganoledig eraill, er mwyn dylanwadu ar ddatblygu'r model y maent hwy'n eu defnyddio ar hyn o bryd. Serch hynny, hyd yn hyn, nid oes dim cytundeb wedi bod i gynnwys unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig wrth ddatblygu'r model rhagor.

**2.16** Byddai'r opsiynau amgen y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried yn golygu costau staffio a/neu ymgynghorwyr ychwanegol. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gweld y byddai angen iddi gynnwys tâl-stoc untro o hyd yn ei chyfrifon. Nid yw'n glir a fyddai'r gost honno'n uwch ynteu'n is na'r gost a fyddai ynghlwm wrth symud at y system sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn rhannau eraill DU. Cred Llywodraeth Cymru, pe na bai'n penderfynu mabwysiadu'r system a ddefnyddir yn rhannau eraill y DU, y byddai Trysorlys EM yn llai tebygol o dalu'r tâl-stoc.



**Nid yw’r newidiadau y bwriedid eu cyflwyno ar gyfer trefniadau ffioedd dysgu a chymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser wedi mynd rhagddynt fel yr oedd Llywodraeth Cymru wedi’i fwriadu, er bod penderfyniadau i ohirio’r newidiadau hyn wedi cael cefnogaeth gan y prif randdeiliaid**

**2.17** Fel rhan o’i chyhoeddiad polisi ym mis Tachwedd 2010 ynghylch ffioedd dysgu i israddedigion amser llawn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau i ddarparu benthyciadau i helpu myfyrwyr rhan-amser i dalu am gost ffioedd dysgu uwch, gan ychwanegu at gyfres o grantiau a oedd eisoes ar gael gyda phrawf modd, ynghyd â lwfansau eraill[25]. O ddechrau 2012/13 ymlaen, rhoddodd Llywodraeth y DU ffioedd dysgu uwch ar waith hyd at £6,750[26] i fyfyrwyr rhan-amser ynghyd â chyfle i fanteisio ar fenthyciadau ffioedd dysgu cysylltiedig.

**2.18** Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnig ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a fyddai’n adlewyrchu’r system ar gyfer myfyrwyr amser llawn, ond gydag uchafswm ffi o £7,000 pro rata. Ar y pryd, amcangyfrif Llywodraeth Cymru oedd mai cost y Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr rhan-amser fyddai £6.8 miliwn yn 2012-13, a honno’n codi i £23.9 miliwn erbyn 2015-16. Rhagwelwyd y byddai cost darparu benthyciadau ffioedd dysgu’n cynyddu o £6.7 miliwn yn 2012-13 i £23.5 miliwn yn 2015-16 a disgwylid y byddai cost diddymu dyledion benthyciadau’n £4.3 miliwn yn 2012-13, gan godi i £15.3 miliwn yn 2015-16.

**2.19** Wrth ymgynghori rhagor ynglŷn â’r cynigion hyn, gwelwyd bod pryderon ynghylch:

- **a** a fyddai’r ffioedd uwch yn gwneud darpar fyfyrwyr yn gyndyn o astudio’n rhan-amser, er bod y Grant Ffioedd Dysgu ar gael;
- **b** yr effaith ar fyfyrwyr nad oeddent yn cyflawni’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, er enghraifft ôl-raddedigion a’r sawl sy’n astudio ar gyrsiau â dwysedd llai na 25 y cant;
- **c** bod angen ystyried yn fwy manwl beth yw rôl cyflogwyr yn y sector rhan-amser ac effaith astudiaethau rhan-amser ar gyflogadwyedd ac ailsgilio; a
- **ch** strategaeth gyfathrebu cyn cyflwyno unrhyw newidiadau.

**2.20** Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddai’r newidiadau i ffioedd a chymorth i fyfyrwyr rhan-amser yn cael eu rhoi ar waith tan 2013/14. Yna, ym mis Rhagfyr 2012, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio unrhyw newidiadau sylweddol yng ngoleuni’r dystiolaeth a oedd yn ymddangos ynghylch effaith ffioedd uwch ar y nifer a oedd yn cofrestru ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn Lloegr a’r pryderon y gallai unrhyw newidiadau yng Nghymru ddadsefydlogi’r farchnad ran-amser yma.

**2.21** Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) adroddiad a oedd yn dangos gostyngiad o 40 y cant yn nifer y bobl a oedd yn dechrau ar gyrsiau gradd rhan-amser yn Lloegr rhwng 2010/11 a 2012/13. Gwelwyd tua thri chwarter y gostyngiad hwn rhwng 2011/12 a 2012/13[27]. Roedd cyfanswm y myfyrwyr a oedd yn dilyn addysg uwch ran-amser yn sefydliadau Cymru eisoes wedi lleihau 10 y cant, o 54,714 i 49,136, rhwng 2008/09 a 2011/12. Roedd CCAUC wedi rhagweld cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhan-amser i 59,000 erbyn 2012/13

25 Roedd y cymorth rhan-amser a oedd ar gael yn cynnwys: grant cwrs (cynhaliaeth) gyda phrawf modd a lwfans heb brawf modd i fyfyrwyr anabl ar gyfer cyrsiau â dwysedd 25 y cant ac uwch; a hefyd gyda phrawf modd, grant ffioedd, grant oedolion dibynnol, grant gofal plant a lwfans dysgu i rieni ar gyfer cyrsiau â dwysedd 50 y cant ac uwch. Roedd y rhain ar gael i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ac a oedd yn astudio yng Nghymru. Nid oedd myfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ac yn astudio y tu allan i Gymru yn gymwys i gael cymorth er y gallai pob awdurdod lleol ddewis rhoi cymorth o’r fath pe bai’n dymuno.

26 Mae hyn yn cyfateb i’r ffioedd dysgy uchaf sef £9,000 pro rata ar gyfer dwysedd astudio 75 y cant.

27 HEFCE, *Higher education in England: Impact of the 2012 reforms*, Mawrth 2013

(Atodiad 4). Mae'r Ffigurau yng Nghymru yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru a welodd, yn ystod yr un cyfnod ac yn groes i'r duedd yn y sector yn gyffredinol, gynnydd o 16 y cant yn nifer y myfyrwyr rhan amser o 7,689 i 8,938.

**2.22** Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnig diwygiedig ar gyfer cymorth rhan-amser i fyfyrwyr a oedd yn dechrau ar eu cyrsiau yn 2014/15, gan gynnwys:

- **a** benthyciadau ffioedd dysgu heb brawf modd gwerth hyd at £2,625 i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ac o'r UE ac a oedd yn astudio ar gyrsiau dynodedig mewn sefydliadau cyhoeddus neu breifat yng Nghymru;
- **b** benthyciadau ffioedd dysgu heb brawf modd gwerth hyd at £6,750 i fyfyrwyr a oedd yn hanu o Gymru ac a oedd yn astudio'n rhan-amser yn Lloegr;
- **c** ymestyn y cyfnod cymhwysedd ar gyfer cymorth er mwyn i bobl allu cwblhau eu cyrsiau dros gyfnod hwy (hyd at wyth mlynedd);
- **ch** cadw'r system cymorth cynhaliaeth bresennol ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau; ac
- **d** yn unol â'r hyn a wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol, byddai'r Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gael ar gyfer cyrsiau â dwysedd 25 y cant, a phob lwfans arall ar gael ar gyfer cyrsiau â dwysedd 50 y cant ac uwch.

**2.23** Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif mai costau ychwanegol y pecyn cymorth hwn rhwng 2014-15 a 2016-17, o'i gymharu â'r trefniadau ar hyn o bryd, fydd:

- **a** costau'r benthyciad ffioedd dysgu yn £26.3 miliwn (yn codi o £3.9 miliwn yn 2014-15 i £12.5 miliwn yn 2016-17; a
- **b** chostau diddymu dyledion benthyciadau ffioedd dysgu yn £17.0 miliwn (yn codi o £2.5 miliwn yn 2014-15 i £8.1 miliwn yn 2016-17.

**2.24** Ar hyn o bryd, nid yw'r ffioedd dysgu rhan-amser a godir gan sefydliadau addysg uwch yn cael eu rheoleiddio. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn rhoi rhagor o arian i CCAUC i helpu gyda darpariaeth ran-amser sefydliadau addysg uwch, a fyddai'n golygu y gellid cadw'r ffioedd ar y lefel bresennol, ac mae sefydliadau wedi dweud na fyddent yn cynyddu eu ffioedd pe bai hyn yn digwydd.[28] Felly, mae Llywodraeth Cymru yn credu nad oes angen ar hyn o bryd ychwanegu at y baich gweinyddol drwy greu system ran-amser sy'n cael ei rheoleiddio'n llwyr. Fodd bynnag, nid yw manylion llawn y cyllid ychwanegol hwn wedi'u cadarnhau eto.

**2.25** Mae'r penderfyniadau i ohirio newidiadau i ffioedd dysgu a threfniadau cyllid myfyrwyr rhan-amser wedi ennyn cefnogaeth rhanddeiliaid allweddol, ond mae angen sicrhau ateb tymor hwy er mwyn cael gwell sicrwydd ar draws y farchnad ran-amser ac er mwyn ystyried yn fwy manwl sut mae sicrhau cydraddoldeb yn y trefniadau ar gyfer astudiaethau amser llawn a rhai rhan-amser. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw golwg ar y sefyllfa, yng nghyd-destun datblygu Bil Addysg Uwch (Cymru). Ym mis Ebrill 2013, lansiodd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru astudiaeth eang ar brofiadau, effaith a heriau astudiaethau rhan-amser yng Nghymru. Dylai hynny fod yn sail i'r ystyriaethau.

---

28 Fel rheol, bydd myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau preifat yn talu ffioedd uwch. Felly, er y bydd myfyrwyr yn dal i allu manteisio ar yr un cymorth â'r hyn y cyfeirir ato uchod ar gyfer cyrsiau dynodedig, maent yn debygol o orfod talu rhan o'r ffi eu hunain.



**Mae angen i gynigion Llywodraeth Cymru i ganoli'r system cyllid myfyrwyr drwy gyfrwng y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fynd i'r afael â gwendidau yn nhrefniadau rheoli presennol awdurdodau lleol a'r risg gynyddol o dwyll sy'n codi yn sgil y polisi ffioedd dysgu newydd**

Gohiriwyd canoli'r system yng Nghymru oherwydd y problemau a gafwyd yn Lloegr

**2.26** Ym mis Mehefin 2010, disgrifiodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i egwyddor canoli prosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr ac asesiadau cymhwysedd, a hynny ar gyfer rhoi cymorth ar ffurf benthyciad ac ar ffurf grant, drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, awdurdodau lleol unigol sy'n gwneud y gwaith hwn.

**2.27** Bwriedir i'r newidiadau arfaethedig sicrhau gwell system cyllid myfyrwyr yng Nghymru sy'n fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy gan ddilyn newidiadau tebyg i'r rhai a gyflwynwyd yn Lloegr. Dechreuodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr brosesu ceisiadau am fenthyciadau a grantiau i fyfyrwyr newydd yn Lloegr ar gyfer 2009/10. Serch hynny, ym mis Mawrth 2010, cafwyd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bod 'na broblemau mawr gyda'r system newydd[29]. Oherwydd y problemau a gafwyd yn Lloegr, gohiriodd Llywodraeth Cymru benderfynu'n derfynol ynglŷn â throi at system ganolog yng Nghymru nes i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr gwblhau cylch myfyrwyr tair blynedd llawn yn llwyddiannus. (2010/11 tan 2012/13).

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn prosesu pob cais am gyllid myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a fydd yn dechrau ar eu cyrsiau yn 2014/15 ac wedyn ar gyfer myfyrwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd o 2015/16 ymlaen.

**2.28** Ym mis Gorffennaf 2013, cyflwynodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr achos busnes wedi'i ddiweddaru i Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnig cyfnod pontio ar gyfer symud at wasanaeth canolog Cyllid Myfyrwyr Cymru.[30] Ar ôl cynnal ymarfer pontio peilot yn hydref 2013 gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r achos busnes yn cynnig cyfnod pontio fesul cam:

- **a** *2014/15:* Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn prosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr newydd. Bydd awdurdodau lleol yn dal i brosesu ceisiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn disgwyl lansio'r gwasanaeth newydd yn ystod mis Chwefror 2014.
- **b** *2015/16:* Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn prosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd, gan ddechrau tua mis Chwefror 2015. Bydd awdurdodau lleol yn trosglwyddo holl ffeiliau'r cwsmeriaid a'r data i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Daw'r arian Llywodraeth Cymru a delir i awdurdodau lleol am eu darpariaeth (£2.5 miliwn ar ffurf cymorth grant refeniw blynyddol) i ben bryd hynny.

29 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Rhaglen y Cwsmer yn Gyntaf: Darparu cyllid myfyrwyr, Mawrth 2010. Roedd yr adroddiad yn gweld gwendidau o ran trefniadau Llywodraeth y DU a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gyfer goruchwylio'r rhaglen, problemau o ran cyfathrebu â'r ymgeiswyr ac â rhanddeiliaid allweddol eraill ac o ran rhoi system newydd ar waith i sganio dogfennau. Yn anad dim, roedd profiad y cwsmer yn brofiad gwael. Roedd problemau penodol o ran ceisiadau ar gyfer lwfansau i fyfyrwyr anabl.

30 Yn y gogledd y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr canolog, er y bydd rhai o'r swyddogaethau'n cael eu trafod y tu allan i Gymru. Bydd y gwasanaeth yn cael ei roi ar waith yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno o dan drefniant les 10 mlynedd.

**2.29** Nid yw pob agwedd ar y fanyleb ar gyfer y gwasanaeth canolog newydd, na'r costio, wedi'u cwblhau eto. Fodd bynnag, erbyn mis Gorffennaf 2013, roedd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi amcangyfrif bod y gwasanaeth newydd yn debygol o gyflogi oddeutu 140 o staff. Mae'r cwmni wedi amcangyfrif mai cost blynyddol cynnal y gwasanaethau newydd yn 2015-16 fydd oddeutu £3.1 miliwn, ac mai cyfanswm costau datblygu a gweithredu'r gwasanaeth newydd rhwng 2012-13 a 2015-16 fydd £11.45 miliwn (Ffigur 9). Mae Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn disgwyl trafod yn fanylach ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd lle i sicrhau arbedion maint sylweddol y tu hwnt i 2015-16.

**2.30** Nid ydym wedi archwilio manylion llawn y gwaith y mae Llywodraeth Cymru, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi'i wneud i ddatblygu 'Prosiect Moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru'. Mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog bod gwersi wedi'u dysgu yn sgil y problemau a gafwyd wrth ganoli pethau mewn ffordd debyg yn Lloegr. Mae swyddogion Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU wedi bod yng nghyfarfodydd bwrdd prosiect Llywodraeth Cymru i rannu'r gwersi a ddysgwyd ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ceisio barn swyddogion llywodraeth leol yn Lloegr. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi'i chynrychioli ar fwrdd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr[31] sydd wedi helpu i roi sicrwydd ynghylch ymateb y cwmni i'r problemau a gafwyd yn Lloegr a'i ymrwymiad i'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y gwasanaeth yng Nghymru.

**Ffigur 9 – Amcangostau datblygu a gweithredu gwasanaeth canolog newydd Cyllid Myfyrwyr Cymru rhwng 2012-13 a 2015-16, fel yr oedd y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2013**

| Maes gwariant | 2012-13 (£ miliwn) | 2013-14 (£ miliwn) | 2014-15 (£ miliwn) | 2015-16 (£ miliwn) | Cyfanswm (£ miliwn) |
|---|---|---|---|---|---|
| Dichonoldeb | 0.84 | - | - | - | 0.84 |
| Cyflawni | - | 2.48 | 0.71 | 0.04 | 3.23 |
| Cylchol[1] | - | 1.70 | 2.64 | 3.05 | 7.39 |
| Gweithredu'r prosiect yn ei grynswth | 0.84 | 4.17 | 3.35 | 3.09 | 11.45 |

Nodyn

1 Mae'r costau cylchol hyn ar ben y costau a godir ar Lywodraeth Cymru gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am ddarparu gwasanaethau ar hyn o bryd ar gyfer prosesu taliadau benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr a chasglu ad-daliadau ar fenthyciadau.

*Ffynhonnell: Dogfen achos busnes y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Gorffennaf 2013*

31 Ym mis Rhagfyr 2011, canfu adroddiad gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd bwrdd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, bod y ffaith nad oedd sail gyfreithiol i gytundeb lefel gwasanaeth presennol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r ffaith nad oedd ganddi statws cyfranddaliwr, yn golygu ei bod ar dir cyfreithiol bregus. Ni fydd y cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei newid nes bod Prosiect Moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi'i gwblhau, er bod Llywodraeth Cymru wedi newid pethau eraill yn y ffordd y bydd yn monitro perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. At hynny, cymerodd Llywodraeth Cymru gyfran ffurfiol o bump y cant yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ym mis Rhagfyr 2012.



**2.31** Rhoddodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr dystiolaeth ar lafar a thystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai a Mehefin 2013 fel rhan o ystyriaethau'r pwyllgor ynglŷn â Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)[32]. Gan gydnabod y problemau a gododd yn Lloegr yn 2009-10, esboniodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fod y systemau y bydd yn eu defnyddio i brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar waith eisoes, a'u bod erbyn hyn, i'w gweld yn gweithio'n dda.

**2.32** Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn nodi ei fod yn dal i boeni am ba mor hwylus fyddai gwasanaeth canolog newydd Cyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr a bod angen sicrhau cymorth parhaus ar lefel leol i fyfyrwyr sydd ag anghenion ychwanegol, ac yn y Gymraeg. Mae'r prosiect moderneiddio wedi rhoi sylw i'r pryderon hyn ac mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi ymrwymo i gyfathrebu'n ddwyieithog.[33]

**2.33** Ar lefel leol, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn dibynnu'n helaeth ar ei bartneriaid cyflawni, yn enwedig Gyrfa Cymru a chynghorwyr gyrfaoedd/addysg sy'n gweithio mewn ysgolion ac ym maes addysg uwch, i ddarparu cyngor am gyllid myfyrwyr. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi dweud y bydd yn cyflogi cynghorwr Cyllid myfyrwyr yn y gogledd ac yn y de i gefnogi'r swyddogaethau allgymorth hyn ond mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r cwmni'n ddiweddar ystyried ehangu'r adnodd staffio ar gyfer y gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru am i'r cynghorwyr ganolbwyntio ar y cymorth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac i grwpiau o fyfyrwyr agored i niwed, ni waeth faint yw eu hoed, na fyddent o bosibl yn mynd i addysg uwch pe na baent yn cael cymorth drwy'r system newydd.

**2.34** Mae'r gofrestr risg ar gyfer y prosiect moderneiddio wedi nodi bod cymorth i fyfyrwyr agored i niwed yn risg y mae angen ei rheoli. Dyma rai o'r risgiau eraill:

- **a** Gallu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i roi'r prosiect ar waith a darparu adnoddau ar ei gyfer yng ngoleuni'r ffaith bod 'na alwadau ar gapasiti'r cwmni sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar Banel Archwilio Adolygu Gallu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, a sefydlwyd gan Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU.

- **b** Dirywiad yn ansawdd y gwasanaeth yn ystod y cyfnod pontio oherwydd diffyg buddsoddi yng ngwasanaethau presennol yr awdurdodau lleol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod system rhybuddio cynnar ar waith ynghyd â chytundeb ar draws llywodraeth leol y bydd awdurdodau lleol eraill yn camu i mewn i ddarparu gwasanaethau oni all gwasanaeth awdurdod arall barhau yn y tymor byr. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas Casnewydd eisoes wedi trosglwyddo'i wasanaeth i Gyngor Caerdydd. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym hefyd fod rhai awdurdodau wedi rhoi cymhellion i'w staff aros yn eu swyddi tan y cyfnod pontio, hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu trosglwyddo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gofyn am gynlluniau cydnerthedd unigol gan awdurdodau lleol.

---

32 Bwriad darpariaethau'r bil hwn, yn rhannol, yw rhoi polisïau Llywodraeth Cymru ar waith er mwyn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi rannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr â gweinidogion Cymru ac ag unrhyw un y bydd gweinidogion Cymru yn dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddynt. Llywodraeth Cymru, Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) - Memorandwm Esboniadol, Ebrill 2013.

33 Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) - Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1, Gorffennaf 2013.

## Bydd angen i'r system newydd ar gyfer prosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr roi sylw i wendidau yn y trefniadau presennol sydd dan reolaeth yr awdurdodau lleol a'r ffaith bod yna fwy o risg o dwyll

**2.35** Ym mis Awst 2012, adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru ganfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth o'r camau rheoli a oedd ar waith o ran ceisiadau am gyllid myfyrwyr, gan gynnwys profion cymhwysedd ar gyfer preswyliaeth, a hynny mewn pedwar awdurdod lleol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli bod mwy o risg o dwyll neu wallau wrth brosesu ceisiadau am gyllid myfyrwyr ar ôl cyflwyno ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu newydd o 2012/13 ymlaen. Gwelodd Swyddfa Archwilio Cymru wendidau yn y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn cyfleu ei chanllawiau i awdurdodau lleol ac o ran ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o'r canllawiau hynny. Gwelsom hefyd wendidau sylweddol ac anghysonderau wrth brosesu ceisiadau, enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gwahaniaethau yn lefel yr adnoddau yr oedd gwahanol awdurdodau lleol yn ei hymrwymo i'r gwaith hwn.

**2.36** Ym mis Ebrill 2012, ac yng ngoleuni'r canfyddiadau sy'n deillio o'n gwaith archwilio, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob awdurdod lleol i bwysleisio bod mwy o risg o weithgarwch twyllodrus yn 2012/13, ac i atgoffa awdurdodau lleol o'r archwiliadau yr oedd yn disgwyl iddynt eu cynnal wrth brosesu ceisiadau am gyllid myfyrwyr. Mae 'preswyliaeth arferol' yng Nghymru yn un o'r profion allweddol sy'n pennu a yw myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth[34]. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio, wrth benderfynu ynghylch preswyliaeth arferol, y dylid penderfynu ynghylch pob achos yn ôl ei haeddiant, gan ystyried nifer o ystyriaethau pwysig (Blwch 3).

**2.37** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y llysoedd wedi penderfynu o'r blaen nad oes modd diffinio 'preswyliaeth arferol' yn syml at ddiben penderfynu a yw myfyriwr yn gymwys i gael cymorth. Yn ein gwaith archwilio yn y pedwar awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy, gwelsom fod rhywfaint o ddryswch ynghylch yr amodau y mae angen eu cyflawni ynghylch preswyliaeth arferol. Er enghraifft, roedd rhywfaint o anghysondeb wrth ddehongli pa bryd y mae 'preswyliaeth arferol' yng Nghymru yn berthnasol - adeg gwneud y cais, ynteu pan fydd y myfyriwr yn dechrau ar ei gwrs.

**Blwch 3 – Ystyriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu ynghylch 'preswyliaeth arferol' yng Nghymru er mwyn cael cymorth ariannol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru**

- Os yw rhywun wedi symud i Gymru yn ddiweddar, beth yw diben y symud?
  - Os yr unig reswm neu'r rheswm pennaf dros symud yma yw er mwyn cael addysg, yna, ni fydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gael cymorth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.
  - Os bydd rhywun yn honni iddo symud at ddiben ar wahân i ddibenion addysg, pa dystiolaeth sydd i gefnogi hyn?
- Os bydd ymgeisydd yn rhentu/prynu eiddo yng Nghymru cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, a oes tystiolaeth ei fod wedi byw yn yr eiddo hwnnw yn ystod y cyfnod hwnnw?
- Os bydd ymgeisydd yn honni ei fod wedi symud yma i weithio yng Nghymru, pa dystiolaeth sydd i gefnogi hyn ac a yw'r gwaith yn waith dros dro/parhaol, amser llawn/rhan-amser?
- Os yw incwm yr aelwyd wedi cael ei asesu, ymhle mae'r aelwyd? A yw'r aelwyd mewn man gwahanol i'r man lle mae'r ymgeisydd yn honni ei fod yn preswylio'n arferol?
- Ers faint mae'r ymgeisydd wedi byw yng Nghymru cyn dechrau'r tymor academaidd?
- Os yw'r ymgeisydd yn honni ei fod wedi symud yno gyda'r teulu, a oes tystiolaeth o hyn?

34 Bydd ceisiadau am gyllid gan fyfyrwyr o'r UE (nad ydynt yn dod o'r DU) eisoes yn cael eu rheoli gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac nid gan awdurdodau lleol.



**2.38** Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi trafod canfyddiadau ein gwaith archwilio ymhlith pryderon y gall y rhain effeithio ar farn yr Archwilydd Cyffredinol am ddatganiadau ariannol CCAUC, yn benodol mewn perthynas â'i daliadau'r Grant Ffioedd Dysgu[35]. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi cymryd camau priodol a rhesymol i roi sail i gasgliad CCAUC nad oes tystiolaeth o dwyll sylweddol mewn perthynas â'i ddatganiadau ariannol ar gyfer 2012-13.

**2.39** Ym mis Rhagfyr 2012, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt am sicrwydd ynghylch y camau rheoli sydd ar waith, yn enwedig mewn perthynas â chymhwysedd myfyrwyr i gael cyllid. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol CCAUC wedi adolygu ymatebion awdurdodau lleol, a oedd yn amrywio o ran eu safon, ac wedi ceisio sicrwydd ychwanegol gan nifer o awdurdodau lleol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud gwaith sicrwydd pellach i asesu lefelau'r twyll y cafwyd adroddiad yn ei gylch, ac i adolygu cyfraddau'r myfyrwyr sy'n manteisio ar y Grant Ffioedd Dysgu o'u cymharu â rhagolygon y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr er mwyn gweld a oes unrhyw amrywiadau anghyffredin. Cafodd CCAUC sicrwydd hefyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y camau rheoli y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn eu rhoi ar waith dros daliadau'r Grant Ffioedd Dysgu i sefydliadau addysg uwch.

**2.40** Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar i wneud rhagor o waith i adolygu'r camau rheoli sydd ar waith mewn perthynas â cheisiadau cyllid myfyrwyr mewn naw awdurdod lleol arall. Mae Llywodraeth Cymru wedi dethol yr awdurdodau lleol yn seiliedig ar ei hasesiad risg hi ei hun. Mae'r gwaith archwilio hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr ag ymarfer Cynllun Twyll Cenedlaethol Cymru-gyfan ar geisiadau am gyllid myfyrwyr gan fyfyrwyr sy'n dechrau yn y brifysgol yn 2012/13 ac yn 2013/14. Bydd yr ymarfer hwn yn cyfatebu data ceisiadau am gyllid myfyrwyr â chyfeiriadau cartref er mwyn sicrhau bod y mannau preswylio'n briodol. Cyflwynir adroddiadau am ganlyniadau penodol y gwaith cyfatebu data i awdurdodau lleol unigol er mwyn iddynt ymchwilio rhagor, fel sy'n briodol. Bydd canfyddiadau cryno'r gwaith cyfatebu data'n cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru a bydd y rhain yn rhan o'n hadroddiad cyhoeddus am y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol yn 2014.

**2.41** Bydd canfyddiadau'r gwaith archwilio hwn yn sail i archwilio datganiadau ariannol 2013-14 CCAUC. Dylai'r un peth fod yn wir am unrhyw broblemau sy'n codi yn sgil y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect Moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru, er nad oes gan CCAUC gynrychiolwyr ar fwrdd y prosiect ar gyfer y gwaith hwnnw. Wrth dderbyn y cyfrifoldeb am brosesu ceisiadau cyllid myfyrwyr o 2014/15 ymlaen, mae'n hanfodol bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sefydlu trefniadau rheoli cadarn i sicrhau bod taliadau priodol a chywir yn cael eu gwneud i fyfyrwyr a sefydliadau a'i fod yn gallu rhoi'r sicrwydd sy'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ac i CCAUC.

35 Wrth lunio'i farn am reoleidd-dra, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ceisio sicrwydd, bod y gwariant a'r incwm a ddangosir yn y datganiadau ariannol, ym mhob agwedd bwysig, wedi cael eu rhoi ar waith at y dibenion y bwriadwyd iddynt gael eu rhoi ar waith gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae CCAUC yn gyfrifol am reoleidd-dra a chywirdeb y taliadau y mae'n eu gwneud i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â'r Grant Ffioedd Dysgu, ond nid oes ganddo fawr o reolaeth dros sail y taliadau a'r asesiadau cymhwysedd sy'n sail iddynt.

**Ni fydd fframwaith rheoleiddio addysg uwch yn newid bellach tan ddechrau 2015/16 fan gynharaf, ar ôl ymgynghori eto ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru**

**2.42** Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2012, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â'i chynlluniau ar gyfer Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Cymru). Ymhlith pethau eraill, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r bil i gryfhau swyddogaethau CCAUC (Blwch 4) a hynny ar adeg pan oedd tirwedd addysg uwch yn newid[36] ac wrth i lif cyllid Llywodraeth Cymru i'r sector newid yn sgil y polisi ffioedd dysgu presennol a chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith ddechrau 2014/15[37].

**2.43** Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n datblygu rhagor ar ei chynigion ym maes addysg uwch ac y byddai'n bwrw ymlaen â'r darpariaethau ar gyfer addysg bellach ar wahân, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer rhannu data ar draws addysg bellach ac uwch sy'n gefn i brosiect Moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. At y diben hwnnw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) ym mis Ebrill 2013.

**Blwch 4 – Rôl CCAUC**

Mae sawl agwedd ar rôl bresennol CCAUC, gan gynnwys:

- Dosbarthu arian Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, yn benodol er mwyn cefnogi:
  - addysgu ar gyrsiau i israddedigion ac ôl-raddedigion amser llawn a rhan-amser;
  - cynlluniau penodol, megis ehangu'r mynediad at addysg uwch a'r ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg; a
  - gweithgareddau ymchwil.
- Rheoli'r sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys monitro sut mae sefydliadau'n cael eu rheoli a'u llywodraethu'n ariannol a'u perfformiad wrth gyflawni amcanion penodol Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod ansawdd yr addysgu mewn sefydliadau'n cael ei asesu.
- Cymeradwyo a monitro rhoi cynllunio ffioedd dysgu sefydliadau ar waith.
- Cyflawni themâu strategol megis ehangu mynediad, cefnogi ymgysylltu â myfyrwyr, cefnogi arloesi mewn prifysgolion a hybu gwaith ymchwil.
- Darparu cymorth i asiantaethau ledled y DU ar ran y sector addysg uwch yng Nghymru, megis yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd a Jisc (y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth gynt).

Mae'r farn yn amrywio ynghylch perfformiad cyffredinol CCAUC ac mae'n anochel bod ambell densiwn, sy'n adlewyrchu ei rôl fel noddwr a rheoleiddiwr. Cawsom enghreifftiau gan uwch staff a llywodraethwyr sefydliadau o CCAUC yn rhoi cymorth effeithiol iddynt. Fodd bynnag, mae canlyniadau arolwg rhanddeiliaid CCAUC ei hun, a'n hymgysylltu ninnau â sefydliadau, yn dangos nad yw'r farn hon yn un sy'n cael ei harddel yn gyson drwy'r sector addysg uwch.

---

36 Mae *Datganiad polisi Llywodraeth Cymru* am addysg uwch, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn cydnabod bod modelau darparu amgen yn debygol o ddatblygu, er enghraifft drwy e-ddysgu, ac y bydd sylfaen darparwyr cyrsiau addysg uwch yn fwy amrywiol.

37 Dywedodd Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd yn bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhellion ynghylch llywodraethu addysg uwch ar lefel genedlaethol a sefydliadol fel y cynigiodd grŵp adolygu annibynnol yn 2011, o fewn cwmpas yr argymhellion deddfu sydd yn yr arfaeth. (Llywodraeth Cymru, Llwyddiant ac atebolrwydd: Adroddiad yr adolygiad annibynnol o lywodraethu addysg uwch yng Nghymru, Mawrth 2011). Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n dychwelyd at y materion hynny yn 2013/14, ar ôl rhoi amser i'r ad-drefnu pellach a'r trefniadau cyllido newydd fwrw gwreiddiau.



2.44 Pwrpas craidd Bil Addysg Uwch (Cymru) fel y'i cynigir bellach fydd cryfhau swyddogaethau rheoleiddio CCAUC[38]. Byddai disgwyl i ddarparwyr addysg uwch gydsynio i gamau rheoleiddio CCAUC er mwyn i fyfyrwyr allu bod yn gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn gymhelliant iddynt gydymffurfio. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i sefydliadau sy'n ceisio dynodiad ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ddod yn gyrff elusennol, er mwyn gwrthgymell darpariaeth breifat yn unol â pholisi presennol Llywodraeth Cymru ac er mwyn sicrhau nad yw cymorthdaliadau cyhoeddus i addysg uwch o fudd i gyfranddalwyr neu i sefydliadau sydd â'u bryd ar wneud elw.

2.45 Ni fydd unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio addysg uwch yn cael eu rhoi ar waith bellach tan 2015/16 fan gynharaf. Mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog, yn y cyfamser, y bydd sefydliadau addysg uwch yn dal i gefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru o fewn cyd-destun y fframwaith rheoleiddio presennol. Yn y cyfamser, rydym yn cael ar ddeall bod llai na 500 o fyfyrwyr ar hyn o bryd sy'n hanu o Gymru ac sy'n astudio ar gyrsiau gyda darparwyr preifat a ddynodwyd ar gyfer cael cymorth i fyfyrwyr.

## Yn gyffredinol, mae CCAUC wedi ymateb yn effeithiol i'r heriau y mae wedi'u hwynebu yn sgil polisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru

### Mae CCAUC wedi rheoli'r newidiadau i drefniadau dosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru yn dda, er y bydd angen iddo gadw golwg ar y trefniadau hynny wrth i effaith lawn ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu ymddangos

Mae cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu wedi cyfyngu ar allu CCAUC i ddylanwadu ar sefydliadau addysg uwch Cymru drwy ei gyllid addysgu ac nid yw CCAUC yn gallu rheoli faint o'r Grant Ffioedd Dysgu sy'n daladwy i sefydliadau y tu allan i Gymru, sy'n debygol o fod yng nghyffiniau £68 miliwn erbyn 2014/15


2.46 Mae system CCAUC i ddyrannu arian addysgu yn cynnwys nifer o wahanol elfennau. Fel sy'n wir yn rhannau eraill y DU, mae'r rhain wedi'u cynllunio gydag amrywiaeth o ddibenion mewn golwg; er enghraifft i gynorthwyo i dalu am gyrsiau drud i'w cynnal ac i wobrwyo sefydliadau am ehangu mynediad wrth recriwtio myfyrwyr. Yn 2011/12 dyrannodd CCAUC £258 miliwn o gyllid addysgu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a £2.6 miliwn i bum coleg addysg bellach yng Nghymru i ddarparu cyrsiau addysg uwch ar gyfer myfyrwyr a oedd yn hanu o'r DU ac o'r UE.[39] Cadwodd CCAUC reolaeth ar gyfanswm yr arian a ddyrannwyd ganddo, drwy bennu terfynau ar gyfanswm nifer y math hwn o fyfyrwyr y câi sefydliadau eu recriwtio.

38 Llywodraeth Cymru, *Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn ar gynigion addysg uwch Bil AB ac AU (Cymru)*, a'r ddogfen ymgynghori technegol, Mai 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw'n bwriadu bwrw ymlaen rhagor â chynigion blaenorol ynghylch: galluogi darpariaeth addysg uwch i gael ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru lle bo hynny'n briodol; rhoi dyletswydd i CCAUC ddarparu ar gyfer gwella ansawdd addysg uwch; ac ehangu'r trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau a chryfhau'r gofynion ynghylch cyllido undebau myfyrwyr a datblygu siarteri myfyrwyr.

39 Roedd gan CCAUC drefniant ariannu uniongyrchol gyda phum coleg addysg bellach arall, ond darparwyd rhai cyrsiau addysg uwch hefyd mewn colegau addysg bellach eraill drwy drefniadau masnachfraint gyda phrifysgolion a oedd yn bartneriaid iddynt.

**2.47** Er 2012/13 mae rhywfaint o ddyraniad cyllid addysgu CCAUC yn cael ei ddefnyddio i dalu am y Grant Ffioedd Dysgu newydd, gan gynnwys ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio y tu allan i Gymru. Ac eithrio arian ar gyfer ymchwil a 'strategaeth a chynlluniau', disgwylir i gost y Grant Ffioedd Dysgu lyncu oddeutu dwy ran o dair o weddill dyraniad cyllid addysgu CCAUC yn 2013/14 (Ffigur 10). Bydd y Grant Ffioedd Dysgu yn llyncu cyfran fwy byth o ddyraniad cyllid addysgu 2014/15 wrth i fwy o fyfyrwyr a ddechreuodd ar eu haddysg uwch cyn 2012/13 ymadael â'r system.

**Ffigur 10 – Dyraniadau cyllid CCAUC, 2011/12 tan 2013/14[1]**




Nodyn

1 Mae a wnelo'r ffigurau hyn â holl gyllid CCAUC, gan gynnwys cyllid addysgu rhan-amser ac ôl-raddedig yn ogystal â chyllid addysgu israddedigion amser llawn. Amcangyfrifon ar un pwynt mewn amser yw'r ffigurau sydd yma ar gyfer 2012/13 a 2013/14.

*Ffynhonnell: Cylchlythyrau CCAUC: Dyraniadau Cyllid CCAUC 2012/13 (W12/10HE), Mawrth 2012; Dyraniad Cyllid 2013/14 (W13/09HE), Ebrill 2013.*



2.48 Mae'r drefn gyllido newydd wedi golygu bod gan CCAUC lai o ddylanwad ar sefydliadau addysg uwch drwy fecanwaith y dyraniadau cyllid addysgu ac ychydig o ddylanwad sydd gan CCAUC ar gost gyffredinol y Grant Ffioedd Dysgu. Yn benodol:

a Er y gall CCAUC orfodi terfynau ar niferoedd y myfyrwyr ar draws addysg uwch yng Nghymru, ni all gyfyngu ar nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng ngweddill y DU, ac felly nid oes ganddo ddylanwad ar faint o'r Grant Ffioedd Dysgu sy'n llifo i sefydliadau y tu allan i Gymru. Mae CCAUC a Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y systemau rheoleiddio yng ngweddill y DU i reoli niferoedd y myfyrwyr ac i gael sicrwydd bod safonau ansawdd a llywodraethu'r sefydliadau hynny y tu allan i Gymru sy'n cael cyllid Grant Ffioedd Dysgu yn briodol.

b Nid oes gan CCAUC reolaeth uniongyrchol dros gost y Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer pob myfyriwr unigol, oherwydd bod hyn wedi'i seilio ar y ffioedd a bennir gan y sefydliadau eu hunain (er bod yn rhaid i'r ffioedd a godir gan sefydliadau yng Nghymru gael eu cymeradwyo gan CCAUC o fewn y terfynau a bennir gan Lywodraeth Cymru).

2.49 At hynny, am fod uchafswm y ffi yr un fath ar gyfer pob pwnc, gallai'r adnoddau cymharol sydd ar gael i sefydliadau drwy Gymru fod yn anghytbwys. Gallai'r warged sydd gan sefydliadau sy'n darparu cyfran fwy o gyrsiau drutach fod yn llai yn sgil y ffioedd newydd o'u cymharu â sefydliadau sy'n darparu cyrsiau rhatach.

2.50 Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn disgwyl i oddeutu traean o'r taliadau Grant Ffioedd Dysgu fynd i sefydliadau y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod 2012/13 tan 2014/15 (Ffigur 11). Mae all-lif y myfyrwyr o Gymru a'r mewnlif iddi'n faes sy'n gynhenid ansicr i Lywodraeth Cymru, i CCAUC ac i sefydliadau unigol. Dywedodd rhai sefydliadau yng Nghymru wrthym fod recriwtio i sefydliadau penodol yn Lloegr ar gyfer 2012/13 wedi effeithio er gwaeth ar eu recriwtio hwythau, neu nad oedd nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd ganddynt yn 2012/13 am resymau eraill, gynifer â'r disgwyl.

**Ffigur 11 – Amcangyfrif o daliadau'r Grant Ffioedd Dysgu gan CCAUC i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac i fannau eraill yn y DU, 2012/13 tan 2014/15**

| | 2012/13 (£ miliwn) | 2013/14 (£ miliwn) | 2014/15 (£ miliwn) |
|---|---|---|---|
| Sefydliadau yng Nghymru | 65 | 117 | 157 |
| Gweddill y DU[1] | 34 | 50 | 68 |
| Cyfanswm | 99 | 167 | 225 |

Nodyn

1 Mae CCAUC yn disgwyl y bydd tua 10 o sefydliadau yn Lloegr a fydd wedi cael dros £750,000 yr un ar ffurf Grant Ffioedd Dysgu yn 2012/13

*Ffynhonnell: CCAUC*

**Mae CCAUC wedi cymryd camau i aildafoli'r incwm ar draws y sector addysg uwch, i reoli costau, i gydnabod perfformiad sefydliadau o'i gymharu â thargedau strategol penodol ac i barhau i roi rhywfaint o gymorth ar gyfer cyrsiau drud, er nad yw'r newidiadau hyn wedi cael croeso gan bawb a gallent arwain at ganlyniadau anfwriadol**

**2.51** Ar gyfer 2012/3, parhaodd CCAUC i orfodi terfynau ar nifer y myfyrwyr a hanai o'r DU ac o'r UE y câi sefydliadau Cymru eu recriwtio. Fodd bynnag, roedd CCAUC yn sylweddoli, oni fyddai'n newid ei agwedd, y byddai ei gyllidebau'n dod yn fwyfwy anodd eu rheoli wrth i gohortau newydd o fyfyrwyr gael y Grant Ffioedd Dysgu.

**2.52** Datblygodd CCAUC system ddiwygiedig ar gyfer 2013/14 er mwyn ceisio rheoli taliadau'r Grant Ffioedd Dysgu y mae'n eu talu i sefydliadau Cymru. Roedd y system hefyd yn ceisio ailfantoli'r incwm yn y sector drwyddo draw yng ngoleuni'r drefn gyllido newydd ac, yn benodol, yn ceisio rheoli effaith unrhyw ganlyniadau negyddol posibl a fyddai'n dadsefydlogi sefydliadau unigol. Yr enw a roddwyd ar y system ddyrannu ddiwygiedig a gynigiwyd gan CCAUC ar gyfer 2013/14 oedd 'Ailddyrannu Niferoedd yn Strategol'. Dilëwyd dyraniadau niferoedd y myfyrwyr ar gyfer pynciau penodol ym mhob sefydliad yng Nghymru ac ailddyranu'r pot o niferoedd myfyrwyr ar sail dau faen prawf[40]:

- **a** Annog sefydliadau i ostwng eu ffioedd ar gyfer 2013/14 i £7,500 neu lai ar gyfartaledd. Gostyngodd pum prifysgol eu ffioedd o ganlyniad i hyn ac roedd un sefydliad eisoes wedi gosod ei ffioedd yntau o dan y trothwy hwn (Ffigur 12).
- **b** Perfformiad hanesyddol mewn pedwar maes yn seiliedig ar ganlyniadau 2009/10 - incwm ymchwil a chyfanswm incwm yn bennaf, ond hefyd o ran nifer y cwmnïau deillio gweithredol a nifer y myfyrwyr tramor. Roedd CCAUC yn canolbwyntio ar y meysydd hyn am eu bod yn berthnasol i flaenoriaethau strategaeth Er mwyn ein Dyfodol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch nad oeddent wedi'u cynnwys yn y broses cynllunio ffioedd ar wahân. Effaith hyn oedd sicrhau bod y sefydliadau a oedd yn canolbwyntio mwy ar ymchwil yn cael cadw fwy neu lai'r nifer o fyfyrwyr yr oedd ganddynt yr hawl i'w recriwtio heb iddynt orfod gostwng eu ffioedd.

**2.53** Beirniadwyd y cynigion gan rai rhanddeiliaid oherwydd eu bod yn cynnwys rheoli nifer y myfyrwyr o weddill y DU a oedd yn astudio yn sefydliadau Cymru. Ni fyddai'r cam rheoli hwn wedi effeithio ar gost y Grant Ffioedd Dysgu ond byddai wedi cyfyngu ar botensial y sefydliadau i recriwtio ac ar ei incwm. Roedd rhywfaint o feirniadaeth hefyd o'r anogaeth a roddid drwy'r broses hon i sefydliadau ostwng eu ffioedd, yn hytrach na dim ond gadael i ddewis myfyrwyr ddylanwadu ar hynny. Ar ôl rhagor o ymgynghori, aeth CCAUC ati i ddiwygio'r system er mwyn dyrannu lefel 'uchafswm grant ffioedd' yn hytrach na rheoli uchafswm nifer y myfyrwyr (Atodiad 2)[41] Seiliwyd yr uchafswm grant ffioedd ar ddyrannu niferoedd y myfyrwyr yn sgil y broses ailddyrannu strategol gan ystyried wedyn gyfran y myfyrwyr a hanai o Gymru ac o'r UE (nid o'r DU) a oedd yn astudio ym mhob sefydliad.


---

40 Ailddyrannu niferoedd israddedigion amser llawn a myfyrwyr y Dystysgrif Addysg i Raddedigion. Tynnwyd y niferoedd i'w hailddyrannu o bynciau 'nad oeddent yn flaenoriaeth'; pynciau ar wahân i wyddoniaeth, technoleg, peirianneg, meddygaeth a meysydd eraill y tybiwyd eu bod yn bynciau â blaenoriaeth. Cynyddwyd uchafswm nifer y myfyrwyr y gallai rhai sefydliadau eu recriwtio a gostyngwyd y nifer i eraill (Atodiad 3). Disgrifiwyd y cynigion yn fanwl yng Nghylchlythyrau CCAUC W12/02HE (*Ailddyrannu Niferoedd Myfyrwyr yn Strategol 2013/2014*, Ionawr 2012) a W12/14HE (*Ailddyrannu Niferoedd Myfyrwyr yn Strategol 2013/14 – Canlyniadau*, Ebrill 2012).

41 Cylchlythyr CCAUC W12/38HE, *Trefniadau uchafswm grant ffioedd 2013/14,* Rhagfyr 2012



**Ffigur 12 – Lefelau ffioedd cyfartalog sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2012/13 a 2013/14**




*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau ffioedd cyhoeddedig sefydliadau*

**2.54** Bwriad yr uchafswm grant ffioedd yw rhoi hyblygrwydd i sefydliadau o ran nifer y myfyrwyr y byddant yn eu recriwtio. Fodd bynnag, mae CCAUC wedi esbonio, os bydd sefydliad yn recriwtio cynifer o fyfyrwyr nes bod incwm y grant ffioedd sy'n gysylltiedig â hynny yn uwch na'r uchafswm a bennwyd ar gyfer y sefydliad, y bydd yn rhaid i'r sefydliad hwnnw naill ai ostwng y ffioedd y mae'n eu codi er mwyn sicrhau bod cyfanswm incwm y grant ffioedd yn dod yn ôl o fewn terfynau'r uchafswm, neu bydd yn rhaid iddo wynebu cosb ariannol.

**2.55** Wrth i sefydliad gyrraedd ei gwota effeithiol ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac o'r UE, gallai'r cap Grant Ffioedd Dysgu effeithio ar recriwtio myfyrwyr o Gymru o'u cymharu â myfyrwyr gweddill y DU, gan gyfyngu ar gyfleoedd i fyfyrwyr Cymru astudio yn sefydliadau Cymru. Fodd bynnag, mae CCAUC yn darparu lefel oddefiant o bump y cant uwchben terfyn y Grant Ffioedd Dysgu. Os bydd sefydliad heb ddefnyddio'i Grant Ffioedd Dysgu i gyd, caiff rannu'r gyfran honno â sefydliadau y disgwylir iddynt groesi eu terfyn. Rhaid aros i weld sut y bydd y trefniant hwn yn gweithio'n ymarferol ac a fydd angen ei roi ar waith ar gyfer myfyrwyr a dderbynnir yn 2013/14. Ychydig o effaith a gaiff y cap ar gost gyffredinol y Grant Ffioedd Dysgu os yr unig effaith a gaiff fydd bod rhagor o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio y tu allan i Gymru.

**2.56** Mae mecanwaith capio'r uchafswm grant ffioedd yn rhoi cyfle i sefydliadau Cymru bellach recriwtio cynifer o fyfyrwyr ag y maent yn dymuno'u recriwtio o weddill y DU. Yn Lloegr, gall sefydliadau recriwtio cynifer o fyfyrwyr ag y maent yn dymuno'u recriwtio ar gyfer 2013/14 os bydd y myfyrwyr hynny'n

sicrhau graddau ABB neu uwch yn eu Safon Uwch (AAB neu uwch ar gyfer myfyrwyr a dderbyniwyd yn 2012/13), neu gymwysterau cyfatebol. Mae hyn wedi creu mwy o gystadleuaeth byth ymhlith sefydliadau yn Lloegr i ddenu'r myfyrwyr mwyaf abl. Mae'n bosibl y bydd y gystadleuaeth lymach hon hefyd yn dylanwadu ar sefydliadau Cymru a chofio faint o fyfyrwyr sy'n llifo dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

**2.57** Yn draddodiadol, mae CCAUC, yn yr un modd â chynghorau cyllido eraill y DU, wedi darparu arian ychwanegol ar gyfer pynciau sy'n cael eu hystyried yn ddrutach i'w darparu, ochr yn ochr â phremiymau eraill megis ar gyfer ehangu mynediad a chadw myfyrwyr, myfyrwyr anabl a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. I bob myfyriwr sy'n dechrau o'r newydd yn 2012/13, roedd CCAUC o'r farn bod y ffioedd dysgu uwch yn rhoi lefel debyg o adnoddau i sefydliadau ag a welwyd yng nghyfuniad ffioedd a dyraniadau cyllid 2011/12 ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau. Yr unig eithriadau i hyn oedd y ddarpariaeth ar gyfer meddygaeth glinigol a deintyddiaeth a'r hyfforddiant conservatoire yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae CCAUC wedi parhau i dalu 'premiwm pynciau drud' i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau ar y cyrsiau hyn o 2012/13 ymlaen.

**2.58** Roedd newidiadau CCAUC i drefniadau cyllido cyrsiau penodol yn debyg o ran eu natur i'r newidiadau a gyflwynodd HEFCE ar gyfer sefydliadau yn Lloegr. Fodd bynnag, mae 'na wahaniaethau o ran y manylion ac mae cymhlethdod y trefniadau dyrannu cyllid a'r ffaith eu bod yn gwahaniaethu gymaint yn golygu ei bod yn anodd iawn cymharu lefelau cyllid CCAUC a HEFCE yn uniongyrchol ac yn gywir[42]. Newidiodd Cyngor Cyllido'r Alban ei ddull yntau o ddyrannu ei brif grant addysgu i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr yn 2012/13, gan gyflwyno system a oedd wedi'i seilio ar chwe grŵp o brisiau[43].

**2.59** Nid yw pawb wedi croesawu'r ffordd y mae CCAUC wedi newid ei phroses dyrannu cyllid. Effeithiwyd mewn gwahanol ffyrdd ar sefydliadau unigol ac roedd hi'n anodd i sefydliadau addysg uwch fod yr un mor sicr ag y buont yn y gorffennol wrth ragweld eu cynlluniau ariannol nes bod canlyniad unrhyw newidiadau i'r broses dyrannu cyllid yn hysbys. Ein barn ni, o dan yr amgylchiadau, yw bod y camau y mae CCAUC wedi'u cymryd i newid y ffordd y mae'n dosbarthu cyllid addysgu wedi bod yn rhesymol ac yn briodol. Mae CCAUC wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau ynglŷn â'r newidiadau i'r trefniadau cyllido ac wedi bod yn agored am yr heriau y mae wedi'u hwynebu.

**2.60** Fodd bynnag, mae'r paramedrau a ddefnyddir gan CCAUC i gyfyngu ar daliadau'r Grant Ffioedd Dysgu wedi'i seilio ar berfformiad hanesyddol o'i gymharu â blaenoriaethau dogfen bolisi Llywodraeth Cymru sydd bellach wedi'i disodli. At hynny, wrth i gohortau newydd o fyfyrwyr ddechrau ar eu haddysg uwch o dan y drefn ffioedd newydd, bydd cost taliadau'r Grant Ffioedd Dysgu i CCAUC yn naturiol yn cynyddu. Nid oes sicrwydd bod modd cynnal y trefniadau presennol ar gyfer dosbarthu arian CCAUC, nac y byddant ychwaith yn cynnal sefydliadau ac yn gymorth i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gall hyn olygu bod angen rhagor o newidiadau, gan arwain at ansicrwydd o'r newydd i sefydliadau addysg uwch o ran eu cynllunio ariannol. Yn y cyfamser, efallai y bydd angen i sefydliadau a gytunodd i ostwng eu ffioedd yn 2013/14 yn gyfnewid am ddyraniad uwch o ran nifer myfyrwyr gan CCAUC ailystyried eu sefyllfa os byddant yn recriwtio llai na'r disgwyl.

42 Er enghraifft, talodd HEFCE £9,804 am bob myfyriwr gradd amser llawn newydd ar gyrsiau meddygaeth glinigol a deintyddiaeth yn 2012/13 o'i gymharu â phremiwm CCAUC, sef £12,600. Fodd bynnag, roedd HEFCE yn talu premiymau eraill nad oedd CCAUC yn eu talu gan gefnogi'r hyn y mae'n eu galw'n 'bynciau o bwys strategol a phynciau bregus' mewn ffyrdd eraill.

43 Cylchlythyr Cyngor Cyllido'r Alban SFC/05/2012 a'r Canllawiau Technegol sy'n cyd-fynd ag ef, *Updated funding allocations to universities for academic year 2012-13*, Mawrth 2012



## Er mwyn cadw o fewn dyraniad Llywodraeth Cymru, mae CCAUC wedi gorfod lleihau y cyllid sydd ar gael ar gyfer cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig ac ar gyfer cefnogi rhai strategaethau a chynlluniau polisi penodol

**2.61** Mae CCAUC yn darparu cyllid addysgu ychwanegol yn uniongyrchol ar gyfer sefydliadau Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru er mwyn iddynt ddarparu cyrsiau rhan-amser i israddedigion. Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer cynyddu ffioedd rhan-amser yng Nghymru a chyflwyno trefniant Grant Ffioedd Dysgu cyfatebol i fyfyrwyr rhan-amser gan Lywodraeth Cymru yn 2012 ond mae'r cynlluniau hynny wedi'u gohirio ers hynny.

**2.62** Oherwydd yr ymrwymiadau cynyddol i gyllido'r Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr amser llawn ac i gynnal y cyllid at ddibenion addysgu, strategaethau ac ymchwil eraill, gostyngwyd y cyllid sydd ar gael ar gyfer astudio rhan-amser 20 y cant ar gyfer 2013/14 o'i gymharu ag yn 2012/13 (o £39.3 miliwn i £31.3 miliwn). Fodd bynnag, mae hyn yn dilyn cynnydd o 12 y cant rhwng 2011/12 a 2012/13. Mae'r dyraniad ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig a addysgir wedi lleihau o £1.8 miliwn (11 y cant) rhwng 2012/13 a 2013/14 (Ffigur 13). Ni chafwyd cadarnhad eto ynghylch manylion y cyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w roi i CCAUC ar gyfer 2014/15 er mwyn helpu i sicrhau bod sefydliadau'n cadw'u ffioedd dysgu ar gyfer astudiaethau rhan-amser ar yr un lefel ag y maent ar hyn o bryd.

**2.63** Mae faint o gyllid y bydd CCAUC yn ei ddyrannu i bob myfyriwr rhan-amser yn cael ei dywys gan y galw'n rhannol ac mae wedi'i seilio ar nifer y myfyrwyr ac ar faint o astudiaethau y byddant yn eu cwblhau. Mae nifer o daliadau premia ychwanegol hefyd. Roedd CCAUC wedi gosod targed ar gyfer cynyddu nifer y myfyrwyr rhan-amser, ond mae'r nifer, mewn gwirionedd, wedi lleihau rhwng 2008/09 a 2011/12 (Atodiad 4).

**2.64** Gwnaeth CCAUC ymrwymiad i gyfyngu ar unrhyw ostyngiad posibl yn ei gyllid i'r Brifysgol Agored yng Nghymru i ganran na fyddai'n fwy na 2.1 y cant yn gyffredinol rhwng 2012/13 a 2013/14. Myfyrwyr rhan-amser yn unig sydd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac, felly, nid yw'n gallu gwneud iawn am unrhyw ostyngiad yn yr incwm a gaiff gan CCAUC drwy ddenu incwm uwch ar ffurf ffioedd dysgu uwch i fyfyrwyr amser llawn[44]. Dyrannodd CCAUC £9.7 miliwn

### Ffigur 13 – Dyraniadau cyllid ar gyfer cyrsiau rhan-amser i israddedigion a chyrsiau i ôl-raddedigion a addysgir gan CCAUC fesul blwyddyn academaidd

| | 2011/12 (£ miliwn) | 2012/13 (£ miliwn) (% y newid er 11/12) | 2013/14 (£ miliwn) (% y newid er 12/13) |
|---|---|---|---|
| Cyllid i israddedigion rhan-amser | 35.2 | 39.3 (+12%) | 31.3 (-20%) |
| Cyllid i ôl-raddedigion a addysgir | 16.3 | 16.4 (+1%) | 14.6 (-11%) |

*Ffynhonnell: CCAUC*

44 Cylchlythyr CCAUC W13/09HE, *Dyraniadau Cyllid CCAUC 2013/14*, Ebrill 2013

i'r Brifysgol Agored yn 2012/13 ac mae wedi dweud y byddai'r Brifysgol Agored, oni fyddai wedi gwneud hynny, wedi wynebu gostyngiad o 13.8 y cant yn ei chyllid ar gyfer 2013/14 (i £8.4 miliwn) pe bai wedi defnyddio'r un fformiwla ag a ddefnyddiwyd wrth ddosbarthu cyllid 2012/13.

**2.65** Mae CCAUC wedi cynnal yr un lefel o gyllid ymchwil ar gyfer sefydliadau Cymru, mewn termau arian parod - £76 miliwn y flwyddyn - drwy gydol 2011/12, 2012/13 a 2013/14. Fodd bynnag mae nifer o newidiadau wedi bod yn y cyllid y mae CCAUC wedi'i ddyrannu i feysydd eraill. Er enghraifft, mae'r cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu[45]. Mae'r Gronfa Datblygu Strategol, sy'n cefnogi gweithgareddau ad-drefnu a chydweithio, wedi cynyddu hefyd. Fodd bynnag, mae CCAUC wedi lleihau ei gyllidebau ar gyfer strategaethau eraill. Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer 'strategaethau a chynlluniau', nad yw'n cynnwys cyllid ymchwil, wedi lleihau £2 filiwn y flwyddyn rhwng 2011/12 a 2013/14 (Ffigur 14).

**Ffigur 14 – Cyllid CCAUC ar gyfer strategaethau a chynlluniau fesul blwyddyn academaidd**

| Strategaethau a Chynlluniau | 2011/12 (£ miliwn) | 2012/13 (£ miliwn) (% y newid er 11/12 mewn cromfachau) | 2013/14 (£ miliwn) (% y newid er 12/13 mewn cromfachau) |
|---|---|---|---|
| Y Gronfa datblygu strategol | 14.8 | 11.7 (-21%) | 19 (+62%) |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 4.3 | 5.4 (+27%) | 6.5 (+20%) |
| Dysgu ac addysgu | 2.64 | 2.55 (-3%) | 1.89 (-26%) |
| Ymgyrraedd yn ehangach | 2.24 | 2.12 (-5%) | 1.89 (-11%) |
| Ehangu mynediad | 5.60 | 5.3 (-6%) | 2.6 (-50%) |
| Arloesi ac ymgysylltu | 8.5 | 10.5 (+23%) | 5.7 (-45%) |
| Eraill (gan gynnwys cymorth i gyrff sector y DU) | 9.8 | 8.1 (-17%) | 5.7 (-18%) |
| **Cyfanswm** | **48** | **46 (-5%)** | **44 (-3%)** |

*Ffynhonnell: Cylchlythyrau CCAUC: Dyraniadau Cyllid CCAUC 2012/13 (W12/10HE), Mawrth 2012; Dyraniad Cyllid 2013/14 (W13/09HE), Ebrill 2013.*

45 Mae CCAUC wedi gosod targed y dylai nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac y mae rhyw elfen o'u cwrs yn cael ei dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn codi o 4,586 yn 2008/09 i 5,509 yn 2012/13. Fodd bynnag, yn 2011/12, roedd y niferoedd wedi gostwng i 4,328 (Atodiad 4).



**2.66** Mae CCAUC yn disgwyl gorfod lleihau ei gyllidebau ar gyfer 'strategaethau a chynlluniau' eto y tu hwnt i 2013/14 ac mae'n dirwyn llifau cyllid penodol i ben o dan y thema arloesi ac ymgysylltu yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ehangu mynediad a chyllid dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, disgwylir i sefydliadau ddweud yn benodol yn eu cynlluniau ffioedd dysgu sut y byddant yn defnyddio'u hincwm ffioedd dysgu ychwanegol i gefnogi rhai o'r mathau o weithgareddau a noddwyd gynt gan CCAUC. Yn benodol, bwriedir i'r cynlluniau ffioedd sicrhau bod sefydliadau'n dal i geisio gwelliannau parhaus o ran ehangu mynediad at addysg uwch[46].

**2.67** Yn y gorffennol, mae cyllid strategaeth CCAUC wedi cael ei ddosbarthu i sefydliadau ar sail cymysgedd o ddyraniadau ar sail fformiwla a cheisiadau ar gyfer prosiectau. Gan y bydd llai o gyllid strategol ar gael yn y dyfodol, gall fod gofyn i CCAUC ystyried dull gwahanol o ddyrannu er mwyn sicrhau bod y cronfeydd llai yn cael y dylanwad mwyaf posibl.

**2.68** Yn Lloegr, ceir gostyngiad o bron 50 y cant yng nghyllideb addysgu HEFCE, o £4.3 biliwn yn 2011/12 i £2.3 biliwn yn 2013/14 i adlewyrchu'r newid at system lle bydd cyfran uwch o gyllid sefydliadau dod gan y myfyrwyr ar ffurf ffioedd uwch. Ar y llaw arall, dros yr un cyfnod, bydd gostyngiad o ddwy ran o dair yng ngrant addysgu CCAUC. Mae cyllideb ymchwil HEFCE, fel cyllideb CCAUC wedi aros yr un fath o ran arian parod dros y cyfnod hwn. Yn gyffredinol, mae gweddill cyllidebau cyllido HEFCE ar gyfer strategaeth a chyfalaf wedi lleihau oddeutu saith y cant y flwyddyn rhwng 2011/12 a 2013/14 ond mae maint y gostyngiad i'w briodoli'n rhannol i'r dyraniadau yn 2011/12 a 2012/13 gan gynnwys ymrwymiad tymor byr o £26 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer cyfrifiadura perfformiad uchel. Nid oes gan CCAUC gyllideb gyfalaf gyffelyb yn ei brif ddyraniadau cyllido i sefydliadau Cymru. Er gwaethaf unrhyw incwm ffioedd ychwanegol y gall sefydliadau ei gynhyrchu, ac er eu bod yn ddibynnol ar benderfyniadau cyllido yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol, mae pryderon ymysg sefydliadau yng Nghymru y gallant wynebu bwlch cyllido cynyddol o gymharu â sefydliadau yn Lloegr.

## Mae CCAUC wedi rheoli'r broses cynllunio ffioedd yn dda hyd yn hyn, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau cychwynnol o ran amser, ond mae'n sylweddoli bod angen datblygu'r broses eto

Wrth gyflwyno ffioedd dysgu uwch o 2012/13 ymlaen, ynghyd â chyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu a lleihau cyllid uniongyrchol CCAUC ar gyfer addysgu, mae rôl CCAUC yn rheoleiddio cynlluniau ffioedd sefydliadau'n dod yn fwyfwy pwysig

**2.69** Y prif ddull a ddefnyddir gan CCAUC i reoleiddio ffioedd dysgu a sicrhau mynediad teg at addysg uwch amser llawn yng Nghymru yw drwy gymeradwyo a monitro cynlluniau ffioedd sefydliadau. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ffioedd dysgu a sicrhau mynediad teg yn rhannau eraill DU yn adlewyrchu gwahanol drefniadau strwythurol a gwahaniaethau yn y polisi ffioedd dysgu (Atodiad 2).

**2.70** Mae cynlluniau ffioedd cymeradwy wedi bod ar waith yng Nghymru er 2007/08 pan oedd sefydliadau Cymru yn codi ffioedd yng nghyffiniau £3,000. Wrth gyflwyno ffioedd hyd at £9,000 er 2012/13, mae'r gofynion wedi cynyddu o ran y broses cynllunio ffioedd a rhoddwyd cyfrifoldeb statudol i CCAUC eu cymeradwyo a'u gorfodi[47]. Wrth i ddyraniadau

46 Un o brif dargedau CCAUC ar gyfer y sector yw hwnnw sy'n ymwneud â chanran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau yng Nghymru ac sy'n dod o ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf'. Fel yn 2011/12, ac ar ôl gweld cynnydd graddol ers blynyddoedd blaenorol, safodd y gyfradd ganrannol ar 16.9 y cant o'i chymharu â'r targed, sef 17.2 y cant erbyn 2012/13 (Atodiad 4).

47 Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau a Gymeradwywyd) (Cymru) 2011*, Chwefror 2011. Mae'r trefniadau hyn ar gyfer rheoleiddio ffioedd dysgu a sicrhau mynediad teg yng Nghymru yn wahanol i'r trefniadau sydd ar waith yn rhannau eraill yn y DU er eu bod yn debyg o ran eu natur (Atodiad 2).

cyllid addysgu CCAUC leihau, bydd cynlluniau ffioedd yn dod yn arf sy'n fwyfwy pwysig wrth i CCAUC geisio dylanwadu ar sefydliadau addysg uwch i wireddu amcanion polisi addysg uwch Llywodraeth Cymru.

**2.71** O 2012/13 ymlaen bydd gofyn i sefydliadau yng Nghymru sydd am godi ffioedd uwch na £4,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr newydd sy'n hanu o'r DU ac o'r UE ac sy'n dilyn cyrsiau israddedig amser llawn gael cymeradwyo'u cynllun ffioedd bob blwyddyn gan CCAUC[48]. Mae hyn yn wahanol i'r cynlluniau ffioedd a gymeradwywyd o'r blaen o 2007/08 ymlaen a oedd ar waith am gyfnod o bum mlynedd.

**2.72** Hyd yn hyn, mae proses CCAUC i asesu cynlluniau ffioedd sefydliadau Cymru wedi bod yn broses ailadroddus o adolygu a diwygio cyn i CCAUC eu cymeradwyo'n derfynol. Ymhlith pethau eraill, mae CCAUC yn disgwyl i sefydliadau nodi yn eu cynlluniau ffioedd:

**a** lefel arfaethedig y ffioedd ar gyfer y cyrsiau perthnasol;

**b** pa gyfran o'r incwm ffioedd newydd a werir ar weithgareddau penodol, er enghraifft i hyrwyddo cyfle cyfartal;

**c** beth fydd y gweithgareddau hynny, y targedau cysylltiedig a'r trefniadau monitro; a

**ch** sut y byddant yn cyfathrebu â myfyrwyr am gyrsiau, ffioedd a chymorth ariannol.

## Mae CCAUC yn sylweddoli bod angen datblygu'r broses cynllunio ffioedd eto, er nad oes newid wedi bod i'r trefniadau ar gyfer 2014/15

**2.73** Fel y mae pethau ar hyn o bryd, bydd cynlluniau ffioedd yn cael eu cyflwyno i CCAUC a'u cymeradwyo ymhell cyn derbyn y myfyrwyr y maent yn berthnasol iddynt, oherwydd bod angen i sefydliadau roi gwybod i ddarpar fyfyrwyr beth fydd lefel y ffioedd y maent yn bwriadu eu codi arnynt cyn dechrau'r broses ymgeisio. Cymeradwywyd cynlluniau ffioedd sefydliadau ar gyfer 2012/13, blwyddyn gyntaf y drefn ffioedd newydd, gan CCAUC ym mis Gorffennaf 2011. O ganlyniad, mae cyfnod hir rhwng cymeradwyo cynlluniau ffioedd, eu gwireddu a'u hasesu (Ffigur 15).

**2.74** Mae'r amserlen cynllunio ffioedd yn golygu bod CCAUC wedi cymeradwyo cynlluniau ffioedd 2013/14 cyn i'r myfyrwyr a ddechreuodd yn 2012/13 gychwyn ar eu cyrsiau. Yn yr un modd, cymeradwywyd y cynlluniau ar gyfer 2013/14 a 2014/15 cyn bod CCAUC mewn sefyllfa i werthuso'r i ba raddau yr oeddent wedi cyflawni cynlluniau 2012/13. Dywedodd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru wrthym ei fod wedi cael adborth cadarnhaol gan undebau myfyrwyr lleol am effaith y broses cynllunio ffioedd o ran hyrwyddo gweithgareddau ehangu mynediad a helpu i gadw myfyrwyr. Mae CCAUC wrthi'n gwerthuso'n ffurfiol i ba raddau y cyflawnwyd cynlluniau ffioedd 2012/13.

**2.75** Roedd yn rhaid datblygu'r trefniadau cynllunio ffioedd yn 2012/13 mewn cyfnod byr. Yn gyffredinol, credwn fod CCAUC wedi rheoli'r broses yn dda o ystyried bod amser mor brin. Ym mis Ionawr 2013, dechreuodd CCAUC ymgynghori â'r sector addysg uwch i'w holi am ei brofiadau gyda'r broses cynllunio ffioedd

48 Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer ffioedd a sicrhau mynediad teg, y ddeddfwriaeth sy'n sail iddo a'r cyrsiau addysg uwch y mae'n berthnasol iddynt, yn cael ei ddisgrifio yn ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ynglŷn â Bil Addysg Uwch arfaethedig (Cymru): *Llywodraeth Cymru, Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad Technegol*, Mai 2013. Mae'r trefniadau cynllunio ffioedd yr un mor berthnasol i sefydliadau addysg uwch ac i golegau addysg bellach sy'n cael eu cyllid gan CCAUC ar gyfer cyrsiau amser llawn i israddedigion. Nid yw ffioedd cyrsiau rhan-amser i israddedigion ac ôl-raddedigion yn cael eu rheoleiddio.



## Ffigur 15 – Crynodeb o’r amserlen ar gyfer cymeradwyo a monitro cynlluniau ffioedd dysgu sefydliadau addysg uwch 2012/13[1]

| Dyddiad | Cam |
|---|---|
| Chwefror 2011 | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau a Gymeradwywyd) (Cymru) 2011.* |
| Mawrth 2011 | Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i CCAUC ynglŷn â chymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd. |
| Ebrill 2011 | Rhoddodd CCAUC ganllawiau i sefydliadau ar gynllunio ffioedd. |
| Mai 2011 | Cyflwynodd Sefydliadau gynlluniau ffioedd ar gyfer 2012/13 i CCAUC. |
| Mehefin 2011 | Dechreuodd CCAUC adolygu cynlluniau ffioedd, cynnal deialog gyda sefydliadau a chyflwyno'u cynlluniau ffioedd diwygiedig. |
| Gorffennaf 2011 | Penderfyniad terfynol gan CCAUC a chymeradwyo cynlluniau ffioedd CCAUC. |
| Medi 2012 | Dechreuodd y cohort cyntaf o fyfyrwyr ar eu cyrsiau addysg uwch o dan y drefn ffioedd newydd. |
| Mehefin 2013 | CCAUC yn cyhoeddi datganiad monitro blynyddol i sefydliadau er mwyn gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â chynllun ffioedd 2012/13. |
| Hydref 2013 | Sefydliadau i fod i ddychwelyd y datganiad monitro blynyddol i CCAUC. |
| Mawrth 2014 | CCAUC i fod i gyhoeddi adroddiad blynyddol. |

Nodyn

1 Ym mis Ebrill 2012, rhoddodd CCAUC ganllawiau i sefydliadau ynghylch dechrau’r broses cynllunio ffioedd ar gyfer 2013/14 ac wedyn cymeradwyodd gynlluniau ffioedd y sefydliadau ym mis Gorffennaf 2012. Yn yr un modd, ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd CCAUC ganllawiau ar gyfer dechrau’r broses cynllunio ffioedd ar gyfer 2014/15 gan gymeradwyo cynlluniau ffioedd y sefydliadau ar gyfer 2014/15 ym mis Gorffennaf 2013.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

hyd yn hyn[49]. Yn ogystal â’r oedi rhwng cytuno ar gynlluniau ffioedd, eu cyflawni a’u hasesu, materion eraill a ystyriwyd wrth ymgynghori oedd:

- **a** i ba raddau yr oedd targedau cynlluniau ffioedd yn cydlynu â thargedau eraill ar gyfer y sector, naill ai’r rhai a bennwyd gan CCAUC neu gan sefydliadau yn eu cynlluniau strategol hwy eu hunain;
- **b** eglurder y targedau a’r gweithgareddau, a’u heffeithiolrwydd o ran sicrhau amcanion polisi, yn enwedig o ystyried y gostyngiad yn ffynonellau cyllid eraill CCAUC ar gyfer strategaethau penodol; ac
- **c** integreiddio’r broses cynllunio ffioedd â gwaith monitro arall CCAUC.

49 Cylchlythyr CCAUC W13/01HE, *Ymgynghoriad - cynigion lefel uchel ar gyfer cynllunio ffioedd o 2014/15*, Ionawr 2013

**2.76** Ar ôl ymgynghori, cyflwynodd CCAUC newidiadau i'r broses cynllunio ffioedd, gan gynnwys y fframwaith targedau a ddefnyddid ynddynt a sut y byddai'r rheini'n cael eu hasesu[50]. Cyn ymgynghori, roedd CCAUC wedi rhagweld y byddai'n newid y broses cynllunio ffioedd mewn pryd ar gyfer cynlluniau ffioedd 2014/15. Fodd bynnag, penderfynodd CCAUC ohirio'r trefniadau newydd am flwyddyn er mwyn ymateb i'r adborth gan y sector addysg uwch ac er mwyn rhoi rhagor o amser i ddatblygu'r trefniadau newydd.

**2.77** Mae ymgynghoriad technegol diweddar Llywodraeth Cymru ynglŷn â Bil Addysg Uwch (Cymru) arfaethedig hefyd yn cynnig newidiadau i'r broses cynllunio ffioedd a'i pherthynas ag agweddau eraill ar waith rheoleiddio CCAUC er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y drefn cyllido addysg uwch a'r posibilrwydd y bydd darparwyr newydd yn ymuno â'r farchnad, a'r rheini'n ddarparwyr cyrsiau addysg uwch sy'n cael eu rheoleiddio[51].

## Mae gan CCAUC fecanweithiau effeithiol i fonitro cynaliadwyedd a threfniadau llywodraethu ariannol sefydliadau addysg uwch ond mae wedi sylweddoli bod angen creu system mesur perfformiad fwy cydlynol

Bydd CCAUC yn mynd ati mewn ffordd effeithiol seiliedig ar risg i fonitro cynaliadwyedd ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch

**2.78** O ystyried y nifer fach o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, mae gan CCAUC wybodaeth weithio dda am bob sefydliad ac mae wedi datblygu rhwydweithiau proffesiynol helaeth yng Nghymru a'r tu hwnt. Dywedodd rhai cynrychiolwyr o'r sefydliadau hynny wrthym y gall cael cyngor cyllido sy'n eu hadnabod yn dda fod o fudd sylweddol iddynt.  Fodd bynnag, soniodd eraill am y risg bosibl yn sgil hynny, sef y gallai CCAUC 'or-reoleiddio' sefydliadau. Mae CCAUC yn credu, drwy gadw cysylltiad clos â sefydliadau, ei fod wedi gallu lliniaru'r risgiau posibl sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cyffredinol sefydliadau, yn enwedig felly drwy eu cynorthwyo i ad-drefnu a chydweithredu.

**2.79** Un o'r prif ffyrdd a ddefnyddir gan CCAUC i fonitro cynaliadwyedd ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yw trwy broses y mae'n ei galw'n 'Adolygiad Risg Sefydliadol'[52]. Mae CCAUC yn cynnal ei brif asesiad yn y gwanwyn ac yn rhoi diweddariad interim yn yr hydref. Mae CCAUC yn cynnal cyfarfodydd gydag is-gangellorion a chadeiryddion cynghorau'r sefydliadau neu'r sawl sy'n cyfateb iddynt, ac mae ganddo raglen dreigl o ymweliadau â sefydliadau i gyfarfod â llywodraethwyr, yn ogystal â chysylltiad parhaus â swyddogion. Mae adolygiad risg CCAUC yn ystyried chwe phrif faes ar gyfer pob sefydliad:

**a** cynaliadwyedd (sy'n cynnwys iechyd ariannol);

**b** llywodraethu a rheoli;

**c** ystadau;

**ch** ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth;

**d** myfyrwyr ac ansawdd; a

**dd** chyfeiriad strategol.

**2.80** Gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth y bydd yn ei chasglu gan bob sefydliad, bydd CCAUC yn rhoi sgôr risg ar gyfer pob un o'r elfennau hyn. Yna, bydd CCAUC yn edrych ar yr holl ffactorau hyn yn eu cyfanrwydd ac yn rhoi un sgôr risg i bob sefydliad. Rhoddir un o dair sgôr risg, a bydd y sgoriau hyn wedyn yn

50 Cylchlythyr CCAUC W13/10HE, *Cynigion ar gyfer cynllunio ffioedd – canlyniadau'r ymgynghori*, Ebrill 2013

51 Llywodraeth Cymru, *Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad technegol*, Mai 2013.

52 Cylchlythyr CCAUC W09/20HE, *Ymgysylltu Strategol*, Mehefin 2009



effeithio ar amlder a thrylwyredd gweithgarwch monitro parhaus CCAUC. Dyma'r sgoriau risg:

**a** 'Risg isel' - dim byd mawr i boeni amdano. Bydd hyn yn golygu y bydd y gwaith monitro ac ymgysylltu'n dilyn y drefn safonol.

**b** 'Risg gymharol' - rhywfaint o risg a/neu broblemau atebolrwydd wedi'u nodi, sy'n golygu bod pryderon ynghylch cynaliadwyedd tymor hir, ond nad yw'r rheini'n ddigon sylweddol i'r sefydliad gael ei ystyried yn risg uchel. Bydd hyn yn golygu mwy o ymgysylltu â'r sefydliad.

**c** 'Risg uchel' - sefydliadau sy'n wynebu bygythiad i'w cynaliadwyedd yn y tymor byr i'r tymor canol. Bydd hyn yn golygu cryn ymgysylltu â'r sefydliad.

**2.81** Bwriedir i'r sgoriau risg a ddefnyddir gan CCAUC ar gyfer pob elfen, a'r asesiad cyffredinol, fod yn ddyfarniadau cyfannol sy'n adlewyrchu amgylchiadau pob sefydliad. Ni fydd CCAUC yn defnyddio unrhyw fecanwaith seiliedig ar fformiwla i bennu'r sgoriau. Yn hytrach bydd panel o uwch staff CCAUC yn trafod y sgoriau ac yn cytuno arnynt, ac fe'u rhennir â Phwyllgor Archwilio a Risg CCAUC. Yng ngwanwyn 2013, aseswyd bod dau sefydliad yn rhai 'risg isel' yn gyffredinol a barnwyd bod wyth yn rhai 'risg gymedrol'. Ni chredid bod yr un o'r sefydliadau'n un 'risg uchel'.

**2.82** Bydd CCAUC yn ysgrifennu at yr is-ganghellor ac at gadeirydd cyngor pob sefydliad, neu'r sawl sy'n cyfateb iddynt, bob blwyddyn, i roi gwybod i'r sefydliad beth yw'r asesiad risg terfynol, cyffredinol, ac i dynnu sylw at unrhyw risgiau sylweddol y gall fod angen rhoi sylw iddynt, er na fydd y sgoriau risg ar gyfer pob un o'r chwe elfen yn cael eu rhannu â'r sefydliadau. Ar sail ein hymweliadau maes a'n dadansoddiad o'r wybodaeth ynghylch iechyd ariannol sefydliadau, credwn fod sgoriau risg CCAUC a'r materion y tynnwyd sylw atynt gan CCAUC wrth gyfathrebu â sefydliadau unigol yn briodol.

**2.83** Comisiynodd CCAUC adolygiad archwiliad mewnol o'i drefniadau adolygu risg yn 2012 ac mae'n rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Mae'r camau y mae CCAUC wedi'u cymryd yn cynnwys diwygio fformat ei lythyrau risg at sefydliadau er mwyn gwneud y canfyddiadau a'r camau sy'n ofynnol, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer y camau gweithredu, yn fwy clir.

**2.84** Mae CCAUC hefyd wedi bod yn ystyried sut y gallai addasu ei broses asesu risg yng ngoleuni newidiadau i'w rôl yn dosbarthu cyllid i sefydliadau. Mae Ymgynghoriad Technegol Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i Bil Addysg Uwch (Cymru) yn cynnig y dylai gwaith rheoleiddio CCAUC fod yn berthnasol i bob sefydliad sydd â chynllun ffioedd wedi'i gymeradwyo ac y dylai CCAUC baratoi Cod Ymarfer Ariannol a Llywodraethu Corfforaethol newydd. Mae'r papur ymgynghori'n cydnabod y gallai'r agwedd hon ar rôl CCAUC, sef darparu sicrwydd, ddod yn bwysicach wrth i'w rôl gyllido newid, ac mae'n ystyried sut y gallai CCAUC ymyrryd er mwyn sicrhau bod sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio'n cydymffurfio â'r cod newydd.

**2.85** Mae proses sgorio risg CCAUC yn debyg o ran ei natur i'r broses gyffelyb a ddefnyddir yn Lloegr, er nad yw system HEFCE ond yn gwahaniaethu rhwng sefydliadau drwy ddweud a ydynt 'yn wynebu risg uwch' neu beidio[53]. Adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar waith monitro ariannol a sicrhau risg HEFCE yn 2011. Roedd

53 Diffiniad HEFCE o sefydliad sy'n wynebu risg uwch yw sefydliad sydd, yn ei farn ef ac ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael: yn wynebu bygythiad i gynaliadwyedd ei waith, naill ai yn awr neu yn y tymor canol; bod ganddo broblemau difrifol sy'n gysylltiedig â gwerth am arian, priodoldeb neu reoleidd-dra (hynny yw, a yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd); neu fod y trefniadau i reoli neu lywodraethu risg yn aneffeithiol yn ei hanfod. HEFCE, Model Financial Memorandum between HEFCE and institutions, Gorffennaf 2010.

yr adroddiad yn argymell y dylai HEFCE ddefnyddio ystod ehangach o sgoriau asesu risg[54]. Bydd Cyngor Cyllido yr Alban yn gwneud dadansoddiad tebyg i'r dadansoddiad a wnaiff CCAUC ond mae'n canolbwyntio'n bennaf ar iechyd ariannol a materion llywodraethu. Dim ond lle y bydd yn poeni am rywbeth yn benodol y bydd Cyngor Cyllido yr Alban yn rhoi adborth i sefydliadau.

## Wrth i CCAUC fonitro perfformiad y sector addysg uwch o'i gymharu ag amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd mai cymysg oedd y perfformiad, ac mae CCAUC wedi gweld bod angen creu system mesur perfformiad fwy cydlynol

**2.86** Bydd CCAUC yn monitro perfformiad y sector o'i gymharu ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch. Bydd CCAUC yn mesur i ba raddau y mae'r sector drwyddo draw yn llwyddo ac i ba raddau y mae'n adolygu strategaethau, targedau a pherfformiad sefydliadau unigol.

**2.87** Yn gyffredinol, cymysg fu perfformiad y sector addysg uwch o'i gymharu â'r targedau a bennwyd yn strategaeth gorfforaethol CCAUC ar gyfer 2010-11 hyd at 2012-13[55] (Atodiad 4). Er enghraifft, mae'r sector wedi gwneud yn dda o ran cynyddu cyfran y myfyrwyr o Gymru sy'n dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf bob blwyddyn rhwng 2008/09 a 2011/12. Serch hynny, o'i gymharu â tharged i gynyddu niferoedd dros yr un cyfnod, mae nifer y myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru wedi lleihau bob blwyddyn.

**2.88** Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd CCAUC strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer y tair blynedd o 2013-14 tan 2015-16[56]. Mae'r strategaeth newydd yn cynnwys rhywfaint o newidiadau i'r targedau presennol a rhai newydd, er enghraifft ynghylch safonau ansawdd a rhagoriaeth ymchwil mewn prifysgolion. Cyhoeddwyd strategaeth newydd CCAUC cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei *Datganiad polisi diweddaraf am addysg uwch*[57] ym mis Mehefin 2013. Nid oes dim deialog benodol wedi bod hyd yn hyn rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC ynghylch unrhyw dargedau newydd neu ddiwygiedig i'r sector a fyddai'n adlewyrchu'r trywydd sydd wedi'i osod yn y datganiad polisi.

**2.89** Ar hyn o bryd, bydd CCAUC yn casglu amrywiaeth eang o wybodaeth am sefydliadau ac yn monitro amrywiaeth o dargedau ar draws gwahanol agweddau ar ei waith. Nod CCAUC yw cysoni a chydblethu'r prif ddulliau mesur perfformiad y mae'n eu defnyddio ar gyfer y sector, fel y'u gwelir yn ei strategaeth gorfforaethol, ag agweddau eraill ar ei waith, megis cynlluniau ffioedd. Ym mis Medi 2013, nid oedd manylion y newidiadau posibl wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, mewn egwyddor, gallai cysoni ac integreiddio dulliau mesur perfformiad greu system symlach a mwy cydlynol i CCAUC ac i sefydliadau, ynghyd ag atebolrwydd eglurach.

**2.90** Mynegir nifer o'r dulliau mesur yn strategaeth gorfforaethol newydd CCAUC drwy gymharu eu perfformiad â pherfformiad rhannau eraill o'r DU. Er enghraifft, mae'r mesur perfformiad ar gyfer astudiaethau rhan-amser bellach wedi newid o'r nifer darged o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser i: Bod y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr rhan-amser ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru yn gyfartal â'r ffigur cyffelyb ar gyfer y DU, neu'n rhagori ar y ffigur hwnnw.

54 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *Regulating financial sustainability in higher education*, Mawrth 2011
55 CCAUC, *Strategaeth Gorfforaethol: 2010-11 – 2012-13*, Mehefin 2010
56 CCAUC, *Strategaeth Gorfforaethol 2013-14 – 2015-16*, Mai 2013, Llywodraeth Cymru, *Datganiad Polisi Addysg Uwch,* Mehefin 2013.
57 Llywodraeth Cymru, *Datganiad Polisi Addysg Uwch*, Mehefin 2013.



**2.91** Er bod yr uchelgais i feincnodi ar sail tueddiadau ledled y DU yn ganmoladwy, gall defnyddio targedau cymharol yn hytrach na thargedau absoliwt dynnu sylw oddi wrth y dirywiad cyffredinol yn y perfformiad a'i gwneud yn anodd priodoli targedau penodol i sefydliadau unigol. Mewn ambell achos, mae CCAUC wedi gosod targedau cymharol ac absoliwt ar gyfer yr un pwnc. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Mae'r dull mesur newydd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn dod yn sgil cyfnod pan welwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y myfyrwyr hynny yng Nghymru a lle y gwelir tystiolaeth eisoes o ostyngiad mawr yn nifer y myfyrwyr yn Lloegr er 2010/11. At hynny, bwriedir i'r dull mesur a ddefnyddir ar gyfer myfyrwyr rhan-amser fod yn ddangosydd ar gyfer canlyniad ehangach, sef mesur i ba raddau y cynigir gwell cyfleoedd dysgu rhan-amser. Fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, ni fydd cyrraedd y targed o reidrwydd yn golygu bod rhywun wedi cyflawni'r canlyniad a fwriadwyd.

**2.92** Rhan o rôl CCAUC yw sicrhau ansawdd y data, o ran gwybodaeth am berfformiad a mathau eraill o ddata, yn benodol, data am nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru sy'n pennu faint o gyllid a gaiff sefydliadau. Mae trefniadau ansawdd data CCAUC yn cynnwys darparu canllawiau i archwilwyr mewnol sefydliadau, sy'n cael eu diweddaru bob blwyddyn, a bydd CCAUC yn cael copïau o'r adroddiadau archwilio mewnol.

**2.93** Bydd CCAUC hefyd yn comisiynu gwaith archwilio allanol ar drefniadau data sefydliadau unigol ar sail cylch pum mlynedd. Bydd CCAUC yn rhannu canfyddiadau dienw ar draws y sector addysg uwch a bydd pob sefydliad yn cael ymateb ysgrifenedig gan CCAUC ynglŷn â'r gwaith sydd wedi'i wneud yn eu sefydliad hwy. Er nad yw'r cydbwysedd rhwng y gwaith archwilio mewnol a'r gwaith archwilio allanol yn debygol o newid, mae CCAUC wedi bod yn adolygu'r trefniadau ansawdd data hyn er mwyn sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn canolbwyntio ar bethau sy'n berthnasol i'r drefn gyllido a rheoleiddio bresennol.

## Mae'r polisi ffioedd dysgu newydd wedi cael ei roi ar waith ar adeg pan oedd Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ceisio rheoli effaith y camau i leihau eu costau rhedeg

**2.94** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn mynd drwy broses i leihau nifer y staff ac mae hynny wedi golygu bod nifer y staff wedi lleihau oddeutu un rhan o bump yn gyffredinol. Nid yw is-adran addysg uwch Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi data penodol i ni ond mae wedi amcangyfrif bod nifer y staff cyfwerth ag amser llawn wedi lleihau rhwng mis Ebrill 2010 a mis Ebrill 2013 o 33.8 i 26.4 (gostyngiad o 22 y cant).

**2.95** Ar ôl ei benodi ym mis Hydref 2012, comisiynodd Ysgrifennydd Parhaol newydd Llywodraeth Cymru adolygiad mewnol o adnoddau, sgiliau a hyblygrwydd mewn perthynas â chyflawni gwaith Llywodraeth Cymru mewn ffordd sy'n ategu blaenoriaethau gweinidogion yn well. Gan ymateb i'r adolygiad hwnnw, ac ochr yn ochr ag ystod o gamau gweithredu eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn bwriadu symud o leiaf 20 y cant o'i gwasanaethau canolog i ategu polisïau ac adrannau darparu'r rheng flaen yn ystod 2013-14. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau'n debygol o fod tua £1.25 miliwn ar ei hennill yn sgil cael adnoddau o'r canol. Ym mis Medi 2013, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â dyrannu'r adnodd hwnnw drwy'r yr adran, gan gynnwys i'r is-adran addysg uwch.

**2.96** Mae cyllideb costau cynnal CCAUC wedi lleihau 15 y cant mewn arian parod rhwng 2009-10 a 2013-14, o £3.54 i £3.02 miliwn. Trefnodd CCAUC gynllun ymadael gwirfoddol i'w staff yn 2012-13 ac, ochr yn ochr â hyn, ad-drefnwyd y drefniadaeth. Ddechrau 2012-13, roedd ganddo 55 o staff a gostyngodd y nifer i 47 erbyn dechrau 2013-14 (gostyngiad o 15 y cant). Nid oedd effaith lawn y gostyngiad hwn yn nifer y staff ac ad-drefnu'r drefniadaeth yn amlwg eto adeg ein hadolygiad.

**2.97** Mae CCAUC yn sylweddoli y gall fod gofyn newid y drefniadaeth eto wrth i'w rôl gyllido ddatblygu o hyd, wrth i'w swyddogaethau rheoleiddio o bosibl ddod yn fwy amlwg yng ngoleuni'r risgiau ariannol cynyddol i sefydliadau yn sgil y polisi ffioedd dysgu presennol ac os a phan fydd ei rôl yn newid yn sgil Bil Addysg Uwch (Cymru) arfaethedig Llywodraeth Cymru.



# Rhan 3 – Er eu bod yn wynebu anawsterau ac ansicrwydd, mae iechyd ariannol a threfniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan

**3.1** Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn canolbwyntio ar iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'u trefniadau cynllunio a rheoli ariannol. Wrth ystyried iechyd ariannol, rydym wedi ystyried lefel y warged wrth gymharu incwm a gwariant, lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan sefydliadau a maint ymrwymiadau benthyca sefydliadau. Rydym wedi seilio ein dadansoddiad ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r 10 sefydliad addysg uwch yng Nghymru a oedd yn cael eu rheoleiddio gan CCAUC ddiwedd 2011/12[58].

**3.2** Mae'r holl ddata ariannol yn y rhan hon o'n hadroddiad yn cael eu cyflwyno mewn termau arian parod, heb gynnwys chwyddiant, ac maent wedi'u seilio ar flwyddyn ariannol sefydliadau addysg uwch, sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf, yn yr un modd â'r flwyddyn academaidd. Er mwyn parchu cyfrinachedd masnachol, rydym wedi cyflwyno data rhagolygon ariannol ar lefel sector gyfan. Fodd bynnag, mae Atodiad 5 yn rhoi rhywfaint o ddata ategol ychwanegol ar gyfer sefydliadau unigol sydd wedi'u seilio ar ddata datganiadau ariannol archwiliedig y sefydliadau ar gyfer 2010/11 a 2011/12.

**3.3** Mae CCAUC wrthi'n casglu rhagolygon ariannol wedi'u diweddaru gan sefydliadau unigol. Mae rhywfaint o newidiadau nodedig wedi bod yn y rhagolygon y mae sefydliadau unigol yn eu cynnig, gan gynnwys rhai newidiadau anochel sydd wedi codi wrth uno'r sefydliadau. Er nad oes ffigurau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y sector cyfan ac y bydd y manylion yn gwahaniaethu, mae CCAUC yn disgwyl i'r duedd gyffredinol drwy'r sector fod yn debyg i'r hyn a ragwelwyd ym mis Gorffennaf 2012.

**3.4** Wrth gymharu'r rhagolygon a baratowyd gan sefydliadau yng Nghymru gyda'r data alldro a'r rhagolygon ar gyfer sefydliadau yn Lloegr, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) yn seiliedig ar ragolygon a gyflwynwyd gan sefydliadau Lloegr ym mis Mehefin 2012 a mis Rhagfyr 2012. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd HEFCE wybodaeth wedi'i diweddaru yn seiliedig ar ragolygon a gyflwynwyd gan Sefydliadau Lloegr ym mis Mehefin 2013. Mae cymariaethau gyda data alldro sefydliadau yn yr Alban yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Cyllido yr Alban.[59]

58 Felly, nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys Cofrestrfa Prifysgol Cymru a'r Brifysgol Agored ac fe'i gwnaed cyn i'r sefydliadau uwch uno'n ddiweddar (Atodiad 1).


59 Papur ystyriaethau HEFCE, *Financial health of the higher education sector 2011-12 to 2014-15 forecasts*, Tachwedd 2012/30; Papur ystyriaethau HEFCE, *Financial health of the higher education sector 2011-12 financial results and 2012-13 forecasts*, Mawrth 2013/04; Papur ystyriaethau HEFCE, *Financial health of the higher education sector 2012-13 to 2015-16 forecasts*, Hydref 2013/29; Cyngor Cyllido yr Alban, *University 2011-12* consolidated spreadsheet. http://www.sfc.ac.uk/funding/FundingOutcomes/Governance/Financialsustainability/FinancialSustainability.aspx

## Mae iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan, er bod sefydliadau'n wynebu anawsterau ac ansicrwydd sylweddol mewn amgylchedd gweithredu sy'n gynyddol gystadleuol

**Rhagwelir y bydd cyfanswm incwm y sector yn tyfu, ond mae hyn yn dibynnu'n fawr ar allu sefydliadau i ddenu myfyrwyr**

3.5 Yn 2011/12, cyfanswm incwm sefydliadau addysg uwch yng Nghymru oedd £1.26 biliwn, sef 4.5 y cant o gyfanswm yr incwm ar draws holl sefydliadau'r DU[60]. Ar sail rhagolygon a gasglwyd gan CCAUC ym mis Gorffennaf 2012, disgwylid i incwm sefydliadau Cymru aros yn gymharol sefydlog o ran arian parod rhwng 2011/12 a 2012/13 cyn cynyddu fesul cam i £1.45 biliwn yn 2015/16 (Ffigur 16).

**Ffigur 16 – Cyfanswm incwm sefydliadau addysg Uwch Cymru, 2010/11 tan 2015/16[1]**




Nodyn

1 Mae Datganiad Polisi diweddar Llywodraeth Cymru am Addysg Uwch (Mehefin 2013) yn cynnwys siart sydd, er ei bod wedi'i seilio ar wahanol ddata a bod yr adroddiadau'n seiliedig ar flynyddoedd ariannol, yn dangos yr un tueddiadau cyffredinol.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau a'u datganiadau monitro ariannol i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012*

60 Cyfanswm incwm y DU yn 2011/12 oedd £27.8 biliwn (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch www.hesa.ac.uk/).



**3.6** Gan ddefnyddio incwm yn fesur ar gyfer maint, mae maint y gwahanol sefydliadau yng Nghymru yn amrywio'n fawr (Atodiad 5):

**a** Prifysgol Caerdydd yw'r sefydliad mwyaf a'i hincwm yn 2011/12 oedd £426 miliwn, sy'n cyfateb i draean cyfanswm incwm y sector yng Nghymru; a

**b** Phrifysgol Glyndŵr bellach yw'r sefydliad lleiaf a'i hincwm hithau yn 2011/12 oedd £48 miliwn, sy'n bedwar y cant o gyfanswm incwm y sector yng Nghymru[61].

**3.7** 2012/13 oedd blwyddyn gyntaf y drefn newydd ar gyfer cyllido addysgu a oedd yn seiliedig yn bennaf ar ffioedd, ac roedd y trefniadau cyllido cysylltiedig yn y cyfnod pontio yn ffactor allweddol wrth i lawer o sefydliadau ragweld (ym mis Gorffennaf 2012) y byddai cyfanswm eu hincwm yn 2012/13 yn debyg i'r hyn a gawsant yn 2011/12. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi dweud yn fwy diweddar y dylai eu canlyniadau ariannol yn 2012/13, gan gynnwys cyfanswm eu hincwm, fod yn well na'r rhagolygon gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2012. Barn CCAUC yw mai sefydliadau unigol ddylai benderfynu ar y sail ar gyfer eu rhagolygon hwy eu hunain, ond, yn anffurfiol, anogodd CCAUC sefydliadau i fabwysiadu dull rhagofalus ar gyfer 2012/13 oherwydd yr ansicrwydd a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno'r ffioedd dysgu uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu.

**3.8** Yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau, roedd rheolwyr a llywodraethwyr yn pwysleisio'n aml bod yr ansicrwydd a wynebid gan y sector ym mis Gorffennaf 2012, yn enwedig o ran ar recriwtio myfyrwyr yn y dyfodol, yn golygu ei bod yn anodd iawn rhagweld beth fyddai'r sefyllfa, yn enwedig yn y tymor hwy. Recriwtiodd rhai sefydliadau lai o fyfyrwyr ar gyfer 2012/13 nag yr oeddent wedi cyllidebu ar eu cyfer.

**3.9** Rhagwelir y twf mewn incwm mewn blynyddoedd dilynol ar sail twf mewn meysydd sy'n cynnwys addysgu, ymchwil a chydweithio â phartneriaid allanol, gan gynnwys partneriaethau a myfyrwyr tramor. Mae'r cynnydd cyffredinol mewn incwm addysgu'n dibynnu ar gynnydd o 6.5 y cant yng nghyfanswm y myfyrwyr rhwng 2011/12 a 2015/16, ac o fewn hynny mae sefydliadau'n rhagweld cynnydd o 35 y cant yn nifer y myfyrwyr tramor amser llawn (nad ydynt yn hanu o'r UE). Fodd bynnag, mae risg yn gysylltiedig â rhagolygon sefydliadau unigol oherwydd yr ansicrwydd cynyddol sy'n gysylltiedig â recriwtio myfyrwyr.

**3.10** Yn 2011/12, cafodd sefydliadau £431 miliwn yn sgil ffioedd dysgu a £394 miliwn ar ffurf grantiau gan gyrff cyllido sydd, gyda'i gilydd, yn 65 y cant o gyfanswm yr incwm. Roedd grantiau a chontractau ymchwil yn 14 y cant o gyfanswm yr incwm, sef £177 miliwn. Roedd ffynonellau incwm eraill, megis llety, yn cyfrannu 20 y cant at gyfanswm yr incwm. Roedd sefydliadau'n rhagweld, erbyn 2015/16, y bydd incwm ffioedd dysgu yn cynyddu i £806 miliwn (56 y cant o gyfanswm yr incwm), tra bydd incwm grantiau'r cyrff cyllido'n lleihau i £168 miliwn (12 y cant). Mae hyn yn adlewyrchu newid yn y ffynonellau cyllido gan symud oddi wrth grantiau addysgu CCAUC at y Grant Ffioedd Dysgu, ond y bydd sefydliadau'n gallu codi ffioedd dysgu uwch i fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU ac o'r UE. Rhagwelir y bydd y ffynonellau incwm hyn gyda'i gilydd yn dal i gyfateb i tua dwy ran o dair o gyfanswm yr incwm. Rhagwelir y bydd incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr tramor (o'r tu allan i'r UE) yn cynyddu 56 y cant rhwng 2011/12 a 2015/16, o £116 miliwn i £181 miliwn (Ffigur 17).

61 Er iddynt gynhyrchu llai o incwm na Phrifysgol Glyndŵr yn 2011/12, mae Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe wedi uno ers hynny.

**Ffigur 17 – Ffynonellau incwm sefydliadau addysg uwch Cymru, 2011/12 a 2015/16**

| Math o incwm | 2011/12 (£ miliwn) | 2011/12 (% o gyfanswm yr incwm) | 2015/16 (£ miliwn) | 2015/16 (% o gyfanswm yr incwm) | 2011/12 tan 2015/16 (% y cynnydd yn yr incwm) |
|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau'r cyrff cyllido | 394 | 31% | 168 | 12% | -57% |
| Ffioedd dysgu (ac o'r rheini) | 431 | 34% | 806 | 56% | 87% |
| *Y DU a'r UE* | *241* | *19%* | *554* | *38%* | *130%* |
| *Tramor (o'r tu allan i'r UE)* | *116* | *9%* | *181* | *12%* | *56%* |
| *Eraill (gan gynnwys ffioedd rhan amser* | *74* | *6%* | *71* | *5%* | *-1%* |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 177 | 14% | 207 | 14% | 17% |
| Incwm Arall | 251 | 20% | 263 | 18% | 5% |
| Incwm Gwaddolion a Buddsoddiadau | 8 | 1% | 8 | 1% | 0% |
| **Cyfanswm yr incwm** | **1,260** | **100%** | **1,452** | **100%** | **15%** |

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau a'u datganiadau monitro ariannol i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012*

**3.11** At ei gilydd, ni ragwelir y bydd y cydbwysedd rhwng y gwahanol ffynonellau incwm nad yw'n incwm ar gyfer addysgu'n newid yn sylweddol wrth gymharu 2011/12 â 2015/16. Rhagwelir y bydd grantiau a chontractau ymchwil, sef £207 miliwn, yn aros fel y maent, sef 14 y cant o gyfanswm yr incwm. Rhagwelir y bydd ffynonellau incwm eraill yn 18 y cant o gyfanswm yr incwm yn 2015/16, sef gostyngiad o ddau y cant ar gyfran 2011/12.

## Rhagwelir y bydd gwariant yn cynyddu'n unol ag incwm

**3.12** Mae strategaethau ariannol ar gyfer arallgyfeirio incwm a'i gynyddu, ynghyd â rheoli costau a buddsoddiadau strategol yn bethau cyffredin mewn sefydliadau addysg uwch. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant yn cynyddu 16 y cant rhwng 2011/12 a 2015/16, o'i gymharu â'r cynnydd o 15 y cant mewn incwm a ragwelir.

**3.13** Maes gwariant mwyaf y sefydliadau o hyd yw costau staff, sef cyfanswm o £716 miliwn yn 2011/12. Mae hynny'n cyfateb i gyfartaledd yn y sector o 57 y cant o gyfanswm yr incwm, er ei fod yn amrywio o 49 i 59 y cant rhwng sefydliadau unigol. Yn Lloegr, roedd costau staff sefydliadau'n cyfateb i 53 y cant o'r incwm ar gyfartaledd yn 2011/12, a'r ffigur cyfartalog ar gyfer sefydliadau'r Alban oedd 56 y cant.

**3.14** Mae mesur costau staff fel canran o gyfanswm yr incwm yn cael ei ddefnyddio yn y sector addysg uwch yn ddull syml o fesur effeithlonrwydd. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd gan sefydliadau Cymru i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012, rhagwelir y bydd costau staff yn aros yn ganran weddol gyson o gyfanswm yr incwm yn y dyfodol rhagweladwy, a allai awgrymu nad yw sefydliadau Cymru yn dod yn fwy effeithlon yn y maes hwn. Fodd



bynnag, mae CCAUC wedi dweud wrthym fod y rhagolygon a gyflwynwyd gan sefydliadau ers dechrau mis Gorffennaf 2013 bellach yn dangos gostyngiad cyffredinol yng nghostau'r staff fel canran o gyfanswm yr incwm. Fodd bynnag, gallai'r gyfradd is ar gyfartaledd yn Lloegr fod yn hwb i sefydliadau gymharu eu sefyllfa â rhai eu cymheiriaid yn y DU ac archwilio'r rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaeth.

**Rhagwelir y bydd gwargedau yn y sector yn lleihau yn 2012/13 ac yn 2013/14 cyn adfer unwaith eto yn 2014/15 ac yn 2015/16, er bod sefydliadau'n amrywio'n fawr yn y cyswllt hwn. Mae'r warged ganrannol ar gyfartaledd wedi bod yn is nag yn Lloegr a rhagwelir y bydd hynny'n parhau**


**3.15** Ystyrir y warged cost hanesyddol wrth gymharu incwm a gwariant yn ddangosydd allweddol ar gyfer iechyd ariannol sefydliadau. Yn 2011/12, gwarged gost hanesyddol gyfun sefydliadau Cymru ar ôl treth oedd £41.5 miliwn. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o 24 y cant, o warged cost hanesyddol gyfun o £54.9 miliwn yn 2010/11. Ym mis Gorffennaf 2012, rhagwelai sefydliadau warged o ddim ond £10.5 miliwn yn 2012/13 a £9.8 miliwn yn 2013/14 cyn iddi adfer eto i £53 miliwn yn 2014/15, gan adlewyrchu efallai ragolygon gochelgar sefydliadau wrth symud at y drefn ffioedd a chyllido newydd ddechrau 2012/13.

**3.16** Wrth fesur y warged cost hanesyddol ar ôl treth, fel canran o'r incwm blynyddol, gwelsom, fel sy'n wir am lawer o sefydliadau'r DU, fod sefydliadau Cymru wedi mabwysiadu naill ai dri y cant neu bump y cant yn darged. O ystyried bod angen i sefydliadau gynhyrchu mwy o wargedau arian parod i gyllido eu buddsoddiadau cyfalaf eu hunain, roedd tuedd, i bob golwg, i sefydliadau symud at darged pump y cant. Roedd gwarged gyfartalog y sector yn fwy na thri y cant yn 2010/11 ac yn 2011/12. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai gwargedau 2012/13 a 2013/14 yn gostwng o dan un y cant cyn adfer eto yn 2014/15.

**3.17** Mae'r ffigurau cyfartalog yn cuddio amrywiadau mawr rhwng sefydliadau. Mae gan rai sefydliadau yng Nghymru gyllidebau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer diffyg tymor byr ond mae gan eraill wargedau cost hanesyddol sy'n fwy na phump y cant. Er enghraifft, yn 2011/12, roedd gan Brifysgol Bangor ddiffyg o 0.7 y cant, ond roedd gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe warged o fwy na 21 y cant (Atodiad 5). Dywedodd y sector wrthym fod y gallu i ddenu myfyrwyr, llwyddo i gael grantiau ymchwil a chreu partneriaethau cydweithio'n heriau allweddol er mwyn sicrhau eu hiechyd ariannol yn y dyfodol. Mae'r heriau hyn yn gyson â sylwadau archwilwyr allanol y sefydliadau yn eu hadroddiadau i'r pwyllgorau archwilio.

**3.18** Ar gyfartaledd, mae gwarged ganrannol sefydliadau Cymru wedi bod yn gyson is nag y mae yn sefydliadau Lloegr ac maent yn rhagweld mai felly y bydd pethau'n parhau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer 2012/13 a 2013/14, oherwydd, er bod sefydliadau Lloegr hefyd yn rhagweld gostyngiad sylweddol yn y gwargedau o'u cymharu ag yn 2011/12, nid yw'r gostyngiad hwnnw mor fawr (Ffigur 18). Gallai'r sefyllfa hon olygu bod sefydliadau Cymru dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â sefydliadau Lloegr oherwydd bod cynhyrchu gwargedau'n bwysig er mwyn cynnal buddsoddiadau a dal i ddenu myfyrwyr i'r sefydliad.

**Ffigur 18 – Gwarged cost hanesyddol ar ôl treth fel canran o incwm blynyddol sefydliadau addysg uwch Cymru a Lloegr, 2010/11 tan 2015/16**[1]




Nodyn

1 Nid oedd data ar gael ar gyfer sefydliadau Lloegr ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar ragolygon a baratowyd gan y sefydliadau hynny yn ystod 2012.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau a'u datganiadau monitro ariannol i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012 Seilir data Lloegr ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan HEFCE*


## Mae gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau yng Nghymru adnoddau arian parod cryf o'u cymharu â'u gwariant ac maent yn rhagweld y bydd hyn yn parhau

**3.19** Ar ddiwedd 2011/12, roedd gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru adnoddau arian parod cryf. Mae adnoddau arian parod cryf yn bwysig er mwyn galluogi sefydliadau i ddelio ag unrhyw ansicrwydd cynyddol ynglŷn â'r system gyllido a ffioedd dysgu a gychwynnodd ar ddechrau 2012/13. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau wedi dweud bod rhagweld llif arian yn faes y mae angen ei gryfhau.

**3.20** Mae lefel gyfartalog 'hylifedd' sefydliadau Cymru - sef nifer y diwrnodau calendr y byddai digon o arian parod ar gael i dalu am y gwariant - wedi bod yn uwch a rhagwelir hefyd y bydd yn uwch nag y mae yn Lloegr, ac mae wedi bod yn uwch na'r lefel yn yr Alban hefyd (Ffigur 19). Ar gyfartaledd, roedd gan sefydliadau Cymru adnoddau arian parod ar gyfer dim ond ychydig dros bedwar mis o wariant yn 2010/11 ac yn 1011/12 ac mae eu hylifedd wedi bod yn well na hylifedd sefydliadau Lloegr a rhagwelir y bydd hynny'n parhau. Fodd bynnag, unwaith eto, mae amrywiaeth fawr rhwng sefydliadau Cymru (Atodiad 5).



**Ffigur 19 – Nifer y diwrnodau calendr pan fyddai digon o adnoddau arian parod i dalu am y gwariant, ar gyfer sefydliadau Cymru, Lloegr a'r Alban, 2010/11 tan 2015/16[1]**




Nodyn

1 Nid oedd data ar gyfer sefydliadau Lloegr ar gael ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar ragolygon a baratowyd gan y sefydliadau hynny yn ystod 2021. Dim ond ar gyfer 2010/11 a 2011/12 yr oedd data ar gael ar gyfer sefydliadau'r Alban.


*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau a'u datganiadau monitro ariannol i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012. Seilir data Lloegr ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan HEFCE a data'r Alban ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido'r Alban.*

## Mae gan sefydliadau hefyd gronfeydd dewisol wrth gefn cryf

**3.21** Ar ddiwedd 2011/12, roedd cronfeydd dewisol wrth gefn sefydliadau addysg uwch Cymru yn werth cyfanswm o £629 miliwn, sy'n cyfateb i 50 y cant o gyfanswm eu hincwm. Mae sefydliadau wedi rhagweld y bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn cynyddu i £735 miliwn yn 2015/16 (51 y cant o incwm sefydliadau yn ôl y rhagolygon) wrth iddynt barhau i gynhyrchu gwargedau. Ar gyfartaledd, mae cronfeydd dewisol wrth gefn sefydliadau Cymru yn gyson is na rhai Lloegr, ac mae hynny'n wir am y cronfeydd dewisol sydd ar gael a'r rhai a ragwelir. Wedi dweud hynny, roedd y cronfeydd wrth gefn yr adroddwyd yn eu cylch ar gyfer 2010/11 a 2011/12 yn debyg i rai sefydliadau'r Alban. (Ffigur 20).

**3.22** Yn ôl y diffiniad, cronfeydd cyffredinol a chronfeydd gwaddol gwariadwy yw cronfeydd dewisol wrth gefn. Nid yw'r dull hwn o fesur y cronfeydd wrth gefn dewisol yn cynnwys effaith diffygion mesuradwy mewn cronfeydd pensiwn, sef £284 miliwn yn 2011/12. Oherwydd yr anhawster cynhenid sydd ynghlwm wrth ragweld rhwymedigaethau'r cronfeydd pensiwn, nid yw'r diffyg yn y gronfa bensiwn wedi'i gynnwys er mwyn gallu cymharu cyfnodau. Serch hynny, cydnabyddir bod mynd i'r afael â rhwymedigaethau net y cronfeydd pensiwn yn peri cryn anhawster i sefydliadau yn y tymor hwy, fel sy'n wir am sectorau eraill yr economi. Bydd cronfeydd dewisol yn cael eu hadeiladu dros amser o'r gwargedau a sicrheir a'r gwaddolion gwariadwy a dderbynnir. Fe'u hystyrir yn ddangosydd ar gyfer iechyd ariannol am y rheswm hwn ac oherwydd bod yr adnoddau y maent yn eu cynrychioli wedi cael eu defnyddio ac ar gael i gyllido buddsoddiadau.

**Ffigur 20 – : Cronfeydd dewisol wrth gefn fel canran o incwm blynyddol sefydliadau addysg uwch Cymru, Lloegr a'r Alban, 2010/11 i 2015/16[1, 2]**




Nodiadau

1. Nid oedd data ar gael ar gyfer sefydliadau Lloegr ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar ragolygon a baratowyd gan y sefydliadau hynny yn ystod 2012. Dim ond ar gyfer 2010/11 a 2011/12 yr oedd data ar gael ar gyfer sefydliadau'r Alban.
2. Seilir y ffigurau a ddangosir yma ar y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r cronfeydd gwaddol gwariadwy ac nid ydynt yn cynnwys effaith diffygion mesuradwy mewn cronfeydd pensiwn.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau a'u datganiadau monitro ariannol i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012. Seilir data Lloegr ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan HEFCE a data'r Alban ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido'r Alban.*

## Mae benthyca allanol gan sefydliadau Cymru yn is nag y mae yn Lloegr ond rhagwelir y bydd yn cynyddu er mwyn cefnogi buddsoddiadau

**3.23** Yn gyffredinol, mae benthyciadau allanol tymor hir sefydliadau addysg uwch Cymru yn fach ac maent yn cyfateb i oddeutu 11.3 y cant o'r incwm blynyddol ar gyfartaledd yn 2011/12. Ar gyfartaledd, benthycwyd llai o lawer na'r 23.6 y cant a fenthycwyd yn Lloegr yn 2011/12. Serch hynny, er nad oes gan rai o sefydliadau Cymru ddyled tymor hir, neu fod y ddyled honno'n fach iawn, mae eraill yn benthyca symiau sy'n cyfateb i dros 30 y cant o'u hincwm blynyddol o'r tu allan (Atodiad 5).

**3.24** Efallai y bydd gan y sefydliadau hynny sydd eisoes yn benthyca symiau cymharol fawr lai o gapasiti i fenthyca rhagor i gefnogi eu buddsoddiadau. Mae llawer o sefydliadau Cymru wedi cyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer datblygu'r seilwaith ac mae eu rhagamcanion ariannol, a gyflwynwyd i CCAUC ym mis Gorffennaf 2012, yn dangos y rhagwelir y bydd benthyca allanol yn cynyddu dros y tymor canolig i gyfartaledd o 17.5 y cant o gyfanswm yr incwm yn 2015/16.

**3.25** Gwariodd sefydliadau Cymru £91 miliwn o'u buddsoddiad cyfalaf ar eu hystadau yn 2010/11, ac eithrio gwariant ar atgyweirio



a chynnal a chadw. Fodd bynnag, mae ystadegau rheoli ystadau 2011[62] yn dangos bod cyfran fawr o adeiladau dibreswyl rhai sefydliadau mewn cyflwr gwael a bod sefydliadau Cymru, meddir, yn gofyn am fuddsoddiad o £150 miliwn er mwyn mynd i'r afael â gofynion gwaith cynnal a chadw sy'n cronni.

**3.26** Mewn amgylchedd sy'n gynyddol gystadleuol i fyfyrwyr a staff academaidd, ynghyd â gostyngiadau yn y seilwaith cyllid cyhoeddus, mae sefydliadau'n sylweddoli y bydd angen iddynt gynyddu eu gwargedau i gynhyrchu llifau arian i'w galluogi i fenthyca er mwyn buddsoddi.

### Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn dal i fod yn faes deniadol i fanciau fuddsoddi ynddo ond efallai y bydd angen i sefydliadau chwilio am ffyrdd mwy arloesol o gyllido prosiectau cyfalaf

**3.27** Mae'r banciau'n gweld bod gan y sector addysg uwch system reoleiddio gadarn ar waith a sylfaen asedau ddeniadol ar gyfer benthyca ar ei sail.  Yn hanesyddol, byddai sefydliadau wedi gallu benthyca dros gyfnodau hir, hyd at 30 mlynedd, a hynny ar gyfraddau llog cymharol isel. Mae'r wasgfa gredyd, fodd bynnag, wedi golygu, er nad yw awydd y banciau i fenthyca arian yn llai yn y sector, bod cyllido benthyciadau erbyn hyn gan amlaf yn cael ei drefnu dros gyfnodau byrrach ac mae'r telerau'n llymach. Mae hyn wedi golygu bod sefydliadau'n chwilio ymhellach y tu hwnt i fanciau traddodiadol y DU am gyllid. Er enghraifft, sicrhaodd Prifysgol Abertawe £60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar gyfer prosiect ei hail gampws.

**3.28** Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, gall fod angen i sefydliadau ystyried atebion cyllido arloesol eraill, megis y farchnad bondiau sy'n cynnig cyfraddau llog cymharol isel ar hyn o bryd. Rhyddhawyd bondiau'n ddiweddar mewn sefydliadau yn Lloegr, er enghraifft rhyddhaodd Prifysgol De Montfort fond gwerth £110 miliwn i dalu am uwchraddio cyfleusterau yn 2012.

**3.29** Mae'r banciau'n dal i feddwl bod angen rheolaeth a rheoleiddio ariannol cryf yn y sector. Bydd gallu sefydliadau a'u timau cyllid i ddelio ag effaith ansicrwydd mewn tirwedd economaidd sy'n newid yn bwysig o hyd i gyllidwyr wrth iddynt 'drafod busnes' gyda sefydliadau. Er mwyn cynllunio busnes, monitro cyfamodau a chyfathrebu'n well â banciau a chyllidwyr eraill mewn amgylchedd ansicr a heriol, bydd gofyn cael set benodol o sgiliau ac roedd sefydliadau'n sylweddoli bod angen sicrhau eu bod yn cadw golwg ar y maes hwn.

## Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau addysg uwch yn datblygu mewn ffordd briodol i'w helpu i wynebu'r heriau a ddaw i'w rhan yn y dyfodol

### Er mwyn cryfhau eu trefniadau llywodraethu, mae sefydliadau wedi canolbwyntio ar gyfansoddiad eu cyrff llywodraethu

**3.30** Mae gan bob sefydliad addysg uwch Gyngor neu Fwrdd Llywodraethu (y Cyngor), sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r sefydliad. Nid oes gan Lywodraeth Cymru na CCAUC rôl yn rheoli sefydliadau unigol.

**3.31** Mae cyfansoddiad cynghorau'n faes sydd wedi cael sylw cynyddol drwy'r sector addysg uwch yng Nghymru a'r tu hwnt er mwyn ceisio sicrhau bod aelodau'r Cyngor yn cynnig ystod o sgiliau proffesiynol a masnachol perthnasol a phrofiad sydd y tu hwnt i ddealltwriaeth

62 Cyhoeddir ystadegau rheoli ystadau ar lein gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

benodol o faes addysg uwch. Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i sefydliadau bellach fod yn fentrau modern a masnachol sydd wedi'u harfogi i gystadlu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'n bwysig cael y sgiliau a'r profiad iawn ar lefel y Cyngor i gryfhau trefniadau llywodraethu sefydliadau yn yr amgylchedd hwn.

3.32 Dywedodd llawer o'r uwchreolwyr a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy fod llywodraethu sefydliadau a rôl cynghorau wedi gwella'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys newidiadau yn set sgiliau aelodau'r cynghorau. Mae'r adborth hwn, i bob golwg, yn adlewyrchu barn fwy eang, gan gynnwys o safbwynt CCAUC. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o gadeiryddion y cynghorau'n gweld bod bylchau penodol o ran sgiliau yr oeddent yn awyddus i'w llenwi gan ddweud bod recriwtio'r bobl iawn yn her, o ystyried yr amser y mae angen ei ymrwymo a'r ffaith nad oes tâl am wneud y gwaith hwn. Mae rhai sefydliadau wedi defnyddio asiantaethau ymchwil gweithredol i'w helpu i recriwtio aelodau ac mae cynfyfyrwyr yn aml yn ffynhonnell bwysig.

## Mae gan sefydliadau drefniadau cynllunio ariannol sydd wedi'u hen sefydlu, a'r rheini i bob golwg yn gymharol gadarn, gyda phwyslais arbennig ar ganfod cyfleoedd i gynhyrchu incwm

3.33 Mae gan sefydliadau brosesau ar waith i gynhyrchu a chymeradwyo cyllidebau blynyddol a chynlluniau ariannol tymor canol. Mae'r prosesau hyn yn amrywio ar draws y sector gyda rhai sefydliadau'n canoli'r broses yn yr adran gyllid ac eraill yn datganoli'r broses i ddeiliaid cyllidebau.

3.34 Roedd y rhan fwyaf o'r uwch reolwyr a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy'n gadarnhaol eu barn am gynllunio ariannol yn eu sefydliadau. Yn eu barn hwy:

- **a** mae'r bobl iawn yn ymwneud â phroses pennu'r gyllideb;
- **b** mae deiliaid cyllidebau'n atebol am eu cyllideb; ac
- **c** mae cyllidebau a chynlluniau ariannol gan amlaf yn cael eu herio'n drwyadl - er bod effeithiolrwydd y ffordd y byddai rhai aelodau o'r cynghorau'n adolygu cynlluniau ariannol yn amrywio, meddent.

3.35 Bydd y rhan fwyaf o'r cynghorau'n datganoli gwaith craffu ar gynlluniau ariannol i is-bwyllgorau cyllid. Ar lefel ymarferol, bydd hyn yn rhoi mwy o amser iddynt adolygu eu cynlluniau ariannol, ond yn sgil hyn, wynebir yr her o sicrhau bod trafodaethau a chraffu digon trwyadl o fewn y cyngor llawn ei hun. Serch hynny, mae pwyllgorau cyllid ac archwilio sefydliadau'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol. At hynny, disgrifiodd llawer o'r uwch reolwyr a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy enghreifftiau o ymdrechion i gynnwys aelodau'r cyngor yn gynharach yn y broses wrth drafod y rhagdybiaethau sy'n sail i gyllideb eu sefydliad a'r canlyniadau a ragwelid yn sgil penderfyniadau ynghylch y gyllideb honno.

3.36 Mae cynlluniau strategol sefydliadau'n dangos eu bod yn mynd fwyfwy ar drywydd amrywiaeth o gyfleoedd i gynhyrchu incwm, ac roedd y rhan fwyaf o'r uwch staff a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy'n sylweddoli hyn. Yn aml iawn, bwriedir i'r gweithgareddau hyn gyflawni ystod o amcanion strategol, ac nid cynhyrchu incwm ychwanegol yw eu hunig bwrpas.



**3.37** Gan gystadlu â sefydliadau addysg uwch eraill y DU, mae sefydliadau Cymru yn targedu myfyrwyr tramor fwyfwy fel ffynhonnell allweddol o incwm proffidiol. Yn ogystal â'u cysylltiadau tramor, mae gan nifer o sefydliadau Cymru bresenoldeb yn Llundain i'w helpu i gyrraedd y farchnad myfyrwyr rhyngwladol yn haws.

**3.38** Mae tystiolaeth o ganolbwyntio'n barhaus ar reoli costau drwy'r sector addysg uwch, ac mae ad-drefnu mewnol yn dal i fynd rhagddo i ryw raddau yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau, yn enwedig yn y rheini sydd wedi uno yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r staff uwch a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy'n credu bod eu sefydliadau'n mynd yn frwd ar drywydd cyfleoedd i arbed arian, er eu bod hefyd wedi nodi nad oedd cyfleoedd i arbed yn cael cymaint o sylw ag yr oedd cynhyrchu incwm. Mae sefydliadau'n poeni am yr effaith a gaiff rhagor o doriadau o ran costau ar brofiadau myfyrwyr a'r effaith yn sgil hynny ar eu gallu i gystadlu er mwyn denu myfyrwyr.

## Mae trefniadau rheoli ariannol sefydliadau'n gadarn hefyd ar y cyfan

**3.39** Roedd y rhan fwyaf o'r staff uwch a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy yn gadarnhaol eu barn am reolaeth ariannol yn eu sefydliadau, gan ddweud eu bod yn sylweddoli fwyfwy pa mor bwysig yw gwybodaeth ariannol a her resymol ar lefel y bwrdd. Yn eu barn hwy:

- **a** mae'r adroddiadau ariannol yn cael eu paratoi'n brydlon;
- **b** cymerir camau'n ddi-oed i ddatrys problemau sy'n codi yn yr adroddiadau ariannol; ac
- **c** mae'r wybodaeth ariannol a ddarperir yn fuddiol ac yn sicrhau atebolrwydd.

**3.40** Mae sefydliadau'n cyflwyno gwybodaeth ariannol fwyfwy ochr yn ochr â gwybodaeth an-ariannol, sy'n helpu defnyddwyr i ddeall pethau. Fodd bynnag, mae ansawdd y wybodaeth ariannol yn amrywio o'r naill sefydliad i'r llall ac mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau'n ceisio gwella'u hadroddiadau ariannol. Er enghraifft, bydd rhai sefydliadau'n cynhyrchu gwybodaeth bob chwarter, ac eraill yn gwneud hynny bob mis. Hefyd, bydd rhai sefydliadau'n cynhyrchu cyfrifon rheoli ar sail ymrwymiad yn hytrach nag ar sail croniadau[63]. Efallai y bydd angen adroddiadau sydd wedi'u seilio ar groniadau er mwyn diwallu gofynion y banciau fel rhan o unrhyw gyfamodau sydd ynghlwm wrth fenthyciadau.

**3.41** Bydd sefydliadau'n rheoli eu costau mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai'n ysgwyddo'r rheolaeth yn ganolog ac eraill yn datganoli'r cyfrifoldeb i ddeiliaid cyllidebau. Ni waeth pa ddull a ddefnyddir, gwelsom fod pob sefydliad yn deall yn dda eu llifau incwm, eu sylfaen gwariant a'r prif weithgareddau sy'n gyrru costau a'u bod yn ceisio datblygu gwell dealltwriaeth ynglŷn â phroffidioldeb eu gweithgareddau. Mae i ba raddau y bydd sefydliadau'n asesu proffidioldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol eu cyrsiau'n amrywio. Fodd bynnag, mae cynyddu'r ffioedd dysgu a'r newidiadau yn nhrefniadau cyllido CCAUC yn golygu bod y mater hwn yn cael sylw manylach a bod y sefydliadau'n sylweddoli bod angen gwell cydlynu rhwng adrannau academaidd a swyddogaethau canolog megis cyllid a chynllunio strategol.

63 Wrth seilio gwybodaeth am y gyllideb ar sail ymrwymiad, cynhwysir y gwariant pan ymrwymir i'w wario. Wrth seilio gwybodaeth ar groniadau, bydd y gwariant yn cael ei gynnwys pan fydd nwydd neu wasanaeth wedi'i ddarparu (ond nad oes bil wedi'i godi ar ei gyfer o reidrwydd).

3.42 Mae gan sefydliadau Cymru hanes cymharol lwyddiannus o gyflawni eu cynlluniau ariannol. Mae'r rhan fwyaf wedi bod yn ofalus wrth ragweld eu perfformiad ariannol ac wedi cyflawni eu rhagamcanion neu wedi rhagori arnynt yn y gorffennol diweddar. Fel rhan o'i rôl rheoleiddio, bydd CCAUC yn dadansoddi bob blwyddyn gywirdeb rhagamcanion ariannol sefydliadau ac nid yw wedi codi unrhyw bryderon difrifol yn y ddwy flynedd diwethaf.

## Mae sefydliadau wedi sylweddoli bod angen newid diwylliant a strwythur i'w helpu i wynebu'r heriau strategol ac ariannol yn y dyfodol ac i'w galluogi i gystadlu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol

3.43 Gall sefydliadau ddangos eu bod yn ymaddasu i'r newidiadau yn eu hamgylchedd allanol, er bod rhai wedi symud yn gyflymach nag eraill, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol. Er enghraifft, mae sefydliadau eisoes wedi strwythuro neu wrthi'n ailstrwythuro eu trefniadau rheoli mewnol er mwyn creu strwythur sy'n cynnwys nifer haws ei thrin o gyfadrannau, ac mae pobl cyfadran yn cynnwys grŵp o adrannau academaidd. Bwriedir i'r strwythur sy'n seiliedig ar gyfadrannau ddefnyddio'r capasiti a'r gallu sydd ar gael yn y ffordd orau posibl a gwella llinellau atebolrwydd.

3.44 Ar hyn o bryd, mae rhai adrannau cyllid yn dal i dueddu i gyflawni rôl adran gyfrifon draddodiadol, gan ganolbwyntio ar gydymffurfio a phrosesu. Mae cyfarwyddwyr cyllid, uwch reolwyr a llywodraethwyr yn sylweddoli fwyfwy bod angen cyfuno'r rôl hon â chanolbwyntio mwy ar oleuo a chynorthwyo'r broses benderfynu a bod angen i adrannau cyllid ychwanegu gwerth ychwanegol at ddatblygiad strategol sefydliadau a'u hymateb i'r heriau ariannol sy'n eu hwynebu. Serch hynny, mae trosiant isel y staff wedi dylanwadu ar ba mor gyflym y mae rhai adrannau cyllid wedi gallu ymaddasu.

3.45 Ar sail ein trafodaethau, credwn fod yr holl uwch reolwyr a'r llywodraethwyr y cyfarfuom â hwy yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r risgiau a'r heriau sy'n gysylltiedig â threfn gyllido newydd addysg uwch ac mae gan bob sefydliad gynlluniau ar y gweill i fuddsoddi er mwyn gwella profiad y myfyriwr a gwneud eu hunain yn fwy cystadleuol. Maent yn canolbwyntio fwyfwy ar reoli risgiau, yn enwedig mewn cyd-destun ariannol, ac mae risgiau a heriau ariannol yn elfen amlwg o drefniadau rheoli risgiau ffurfiol sefydliadau. Bydd angen i sefydliadau fod yn uchelgeisiol er mwyn cystadlu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, fel y'u hanogir i wneud yn *Natganiad Polisi Addysg Uwch* Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir bod risg gynyddol ynghlwm wrth ddatblygu strategaethau mor uchelgeisiol. Er bod lefel yr awydd i fentro'n amrywio ar draws y sector, mae'r awydd hwnnw ar gynnydd i bob golwg.



# Atodiad 1 – Methodoleg

Cyflawnwyd yr astudiaeth hon gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd â gwaith a gwblhawyd ar ein rhan gan PricewaterhouseCoopers LLP (PwC).

## Ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru

Adolygwyd ystod eang o ddogfennau Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniadau gan Weinidogion, papurau pwyllgorau'r Cabinet a llywodraethu corfforaethol, data modelu ariannol a phapurau ategol, cofrestrau risg, cynlluniau prosiectau ac achosion busnes a chyllidebau. Adolygwyd hefyd y gwaith perthnasol sydd eisoes wedi'i wneud gan ein tîm archwilio ariannol ni ein hunain yn Llywodraeth Cymru a chan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

Cyfwelwyd ag ystod o swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Is-adran Addysg Uwch, ac o'r adran ystadegau a'r adran gyllid ganolog.

## Ein gwaith gyda CCAUC

PwC a fu'n arwain yr agwedd hon ar y gwaith, gan gasglu ac adolygu ystod eang o ddata a dogfennau perthnasol a chynnal cyfweliadau â swyddogion CCAUC.

Roedd y data a'r dogfennau ategol yn cynnwys ystod o wybodaeth gyhoeddedig, megis cylchlythyrau CCAUC am ddyraniadau arian a chanllawiau ac ymgynghoriadau cyhoeddedig eraill. Cafwyd ystod o wybodaeth arall sydd heb ei chyhoeddi hefyd gan CCAUC, gan gynnwys manylion am ei fodel ariannol ei hun, rhagamcanion ariannol sefydliadau a gwybodaeth yn ymwneud â phroses 'Adolygu Risg Sefydliadol' CCAUC.

## Ymweliadau â sefydliadau addysg uwch

Arweiniwyd yr agwedd hon ar y gwaith gan PwC. Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2013, ymwelodd PwC â'r naw sefydliad addysg uwch yng Nghymru a oedd ar y pryd yn gyrff annibynnol ac yn darparu cyrsiau addysg uwch amser llawn i israddedigion[64]. Bydd rhai colegau addysg bellach hefyd yn cynnig cyrsiau addysg uwch sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol gan CCAUC neu o dan gytundebau masnachfraint gyda sefydliadau addysg uwch. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth breifat hefyd. Nid yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru, sydd â'i chanolfan yng Nghaerdydd, yn darparu cyrsiau amser llawn i israddedigion ac nid yw'n cael ei rheoleiddio gan CCAUC er ei bod yn cael arian ganddo.

64 Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol ystod o wybodaeth ystadegol am addysg uwch yng Nghymru (Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol, *Addysg Uwch yng Nghymru mewn ffigurau*, Mai 2013).

Y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy oedd:

- Prifysgol Aberystwyth.
- Prifysgol Bangor.
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.
- Prifysgol Caerdydd.
- Prifysgol Glyndŵr - a'i chanolfan yn Wrecsam.
- Prifysgol Abertawe.
- Prifysgol Morgannwg - (gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru).
- Prifysgol Cymru, Casnewydd - ym mis Ebrill 2013, unwyd Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd i ffurfio Prifysgol De Cymru.
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (sy'n cynnwys Prifysgol Fetropolitan Abertawe). Unwyd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe ym mis Medi 2012 ond roeddent yn dal i weithredu o dan enwau gwahanol tan fis Gorffennaf 2013.

Yn ystod yr ymweliadau hyn, cafwyd cyfle i drafod iechyd ariannol y sefydliadau a'u trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yn ogystal ag effaith polisïau Llywodraeth Cymru ar gyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr a rôl CCAUC o ran dosbarthu arian Llywodraeth Cymru a rheoleiddio'r sector addysg uwch. Fodd bynnag, ni wnaeth PwC waith archwilio manwl i edrych ar drefniadau cynllunio a rheoli ariannol sefydliadau unigol.

Gofynnodd PwC am wybodaeth benodol ac aeth ati i'w dadansoddi. Roedd hyn yn cynnwys datganiadau ariannol sefydliadau, adroddiadau archwilio, rhagamcanion ariannol, cynlluniau ffioedd a chofrestrau risg strategol, a darparwyd rhai o'r dogfennau hynny gan CCAUC.

Yn ystod pob ymweliad, cynhaliodd PwC gyfweliadau ag uwch aelodau'r corff llywodraethu a'r uwch staff. (Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r rheini wyneb yn wyneb ond ambell un dros y ffôn). Gan amlaf, roedd hyn yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid, yr Is-Ganghellor, y Cofrestrydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid neu'r swyddogion cyfatebol.

### Ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill

Aethom ni a/neu PwC ati i gasglu mathau eraill o wybodaeth drwy:

- Gyfweld â rhanddeiliaid allweddol eraill - gan gynnwys Addysg Uwch Cymru, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cyngor Cyllido'r Alban a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.
- Ymweld â Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Addysg Uwch Cymru - pwyllgor rhanbarthol Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.



- Archwilio data, gwaith ymchwil a chanllawiau o ffynonellau eraill, gan gynnwys:
  - adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am Reoleiddio Cynaliadwyedd Ariannol mewn Addysg Uwch [yn Lloegr], a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011;
  - sefydliadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban;
  - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido’r Alban;
  - Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr;
  - yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch;
  - y Swyddfa Mynediad Teg yn Lloegr;
  - y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; a
  - Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a’r Colegau.

Ni holwyd barn myfyrwyr unigol yn ystod yr astudiaeth hon. Bydd canlyniadau’r Arolygon Cenedlaethol a gynhelir ymhlith Myfyrwyr yn y dyfodol yn dangos a oes newidiadau amlwg wedi bod ym marn myfyrwyr am eu profiad addysg uwch yn sgil cyflwyno ffioedd dysgu uwch. Trefnir yr arolwg blynyddol hwn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac mae’n cael ei gynnal drwy’r DU gyfan. Oherwydd bod yr arolwg wedi’i seilio ar fyfyrwyr sydd yn eu blwyddyn olaf, ni fydd barn y rhai y mae’r newidiadau a gyflwynwyd yn 2012/13 yn effeithio arnynt yn bwydo i ganfyddiadau’r arolwg tan ddiwedd y flwyddyn academaidd 2014/15. Mae boddhad cyffredinol myfyrwyr, fel y’i mesurir gan yr arolwg hwn, yn un o nifer o ddulliau mesur perfformiad allweddol a bennwyd gan CCAUC ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru (Atodiad 4).

Yn 2012, cyhoeddodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Punt yn Eich Poced. Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried profiad myfyrwyr addysg bellach ac uwch o’r cymorth ariannol a gânt a’u barn am y system cyllido myfyrwyr yn Lloegr. Cawn ar ddeall fod Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yn cynnal ymchwil tebyg yn ystod hydref 2013. Mae Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru hefyd yn ystyried effaith ffioedd dysgu ar sut y bydd myfyrwyr yn dewis sefydliadau.

At hynny, mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wrthi’n gofyn i bobl sy’n fyfyrwyr ar hyn o bryd ac i ddarpar fyfyrwyr, a’u teuluoedd, am eu barn hwythau fel rhan o ymchwiliad i gyllido addysg uwch.

# Atodiad 2 – Trefniadau ffioedd dysgu a chymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig amser llawn sy'n hanu o'r DU ac sy'n dechrau ar eu haddysg uwch yn 2012/13

Mae'r atodiad hwn yn cymharu'r ffioedd dysgu a godir yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar fyfyrwyr israddedig amser llawn newydd yn 2012/13 ac mae'n crynhoi'r trefniadau cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n hanu o wahanol rannau o'r DU (fel y'u pennir gan eu llywodraeth hwy eu hunain)[65]. Mae ambell newid wedi bod wedyn ar gyfer y rhai a gofrestrodd yn 2013/14, a'r rheini'n ymwneud yn bennaf a chynyddu gwerthoedd benthyciadau a grantiau yn sgil chwyddiant. Os bydd myfyrwyr yn gohirio mynd i addysg uwch am flwyddyn ar ôl iddynt dderbyn lle, y trefniadau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr a oedd ar waith yn y flwyddyn pan wnaethant gais yn wreiddiol sy'n berthnasol.

Yn ogystal â'r cymorth a restrir isod, gall myfyrwyr gael gafael ar ystod o grantiau a lwfansau atodol, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol, gan gynnwys Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, Grant Gofal Plant a Lwfans Dysgu i Rieni. Gall sefydliadau addysg uwch unigol gynnig bwrsarïau ond bydd eu gwerth a'u meini prawf cymhwysedd yn amrywio.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y tablau hyn yn seiliedig ar y ffynonellau canlynol:

- Cyllid Myfyrwyr Cymru, *Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn 2012/132012/13,* www.studentfinancewales.co.uk/portal/page?_pageid=616,6201521&_dad=portal&_schema=PORTAP (darllenwyd ym Mai 2013).
- Student Finance England, *A guide to financial support for new full-time students in higher education 2012/13,* www.sfengland.slc.co.uk/full-time-study/new-students/what's-available-in-201213.aspx (darllenwyd ym Mai 2013).
- Student Finance Northern Ireland, *A guide to financial support for higher education students in 2012/13,* www.studentfinanceni.co.uk/portal/page?_pageid=54,1266298&_dad=portal&_schema=PORTAL#secsect8 (darllenwyd ym Mai 2013).
- Student Awards Agency for Scotland, *Guide to student support 2012-2013,* (cyhoeddwyd yn 2012 ac fe'i cawsom gan Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban ar ôl i ni wneud cais amdano).

65 Mae'r prif newidiadau i ffioedd dysgu yn y maes addysg uwch yng Nghymru rhwng 1998/99 a 2011/12 a'r cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi'u crynhoi yn: Student Loans Company, *Statistical First Release – Student loans for higher education in Wales, financial year 2012-13*, Mehefin 2013. Nid yw'r wybodaeth gryno a gyflwynir yn yr atodiad hwn yn rhestru pob maen prawf cymhwysedd unigol. Er enghraifft, nid yw'r Grant Ffioedd Dysgu ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau ar gwrs israddedig os yw wedi cael gradd anrhydedd. Mae'r myfyrwyr hynny'n gymwys i gael cymorth ariannol o fath arall o dan rai amgylchiadau penodol.



## Ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig amser llawn newydd sy'n hanu o'r DU yn 2012/13

| Lleoliad y sefydliad addysg uwch | Ffioedd dysgu a godwyd yn 2012/13 |
|---|---|
| Cymru | Hyd at £9,000 i bob myfyriwr |
| Lloegr | Hyd at £9,000 i bob myfyriwr |
| Gogledd Iwerddon | £3,465 i fyfyrwyr sy'n hanu o Ogledd Iwerddon<br>Hyd at £9,000 i fyfyrwyr sy'n hanu o rywle arall yn y DU |
| Yr Alban | £1,820 i fyfyrwyr sy'n hanu o'r Alban, ac mae Llywodraeth yr Alban yn talu'r cyfan.<br>Hyd at £9,000 i fyfyrwyr sy'n hanu o rywle arall yn y DU |

Yng Nghymru, mae'n ofynnol i sefydliadau sydd am godi ffioedd uwch na £4,000 y flwyddyn i fyfyrwyr newydd sy'n hanu o'r DU ac o'r UE ac sy'n mynychu cyrsiau israddedig amser llawn gael cymeradwyo'u cynllun ffioedd bob blwyddyn gan CCAUC.

Yn Lloegr, mae gofyn i sefydliadau sydd am godi ffioedd dysgu uwch (ar hyn o bryd, dros £6,000 hyd at yr uchafswm, sef £9,000 ar gyfer israddedigion amser llawn) gael 'cytundeb mynediad' sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Mynediad Teg. Er bod yr uchafswm ffi yr un fath ar gyfer pob myfyriwr sy'n hanu o'r DU a'r UE, mae'r gofyniad cyfreithiol am gytundeb mynediad yn ymwneud â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn unig. Fodd bynnag, deallwn y bydd llawer o sefydliadau'n cynnwys myfyrwyr eraill yn y cytundebau hyn.

Nid oes proses cynllunio ffioedd gyfatebol yn yr Alban, oherwydd nid oes yn rhaid i fyfyrwyr yr Alban a myfyrwyr sy'n hanu o'r UE sy'n astudio yn yr Alban dalu eu ffioedd dysgu eu hunain. Bydd Cyngor Cyllido'r Alban yn monitro targedau ehangu mynediad ac mae'r rheini, ers 2012/13, wedi cael eu cynnwys mewn cytundebau canlyniadau a drafodir gyda'r sefydliadau. Gall sefydliadau'r Alban ddewis lefel y ffioedd a godir ganddynt ar fyfyrwyr o weddill y DU ond cytunwyd ar gap gwirfoddol o £9,000 y flwyddyn o 2012/13 ymlaen. Mae Deddf Darpariaeth Ôl-16 (yr Alban) 2013 yn gwneud darpariaeth ar gyfer capio ffioedd y myfyrwyr hyn yn statudol, ar lefel sy'n cyfateb i'r uchafswm ffioedd y gellir eu codi mewn rhannau eraill o'r DU, ond nid yw'r darpariaethau yn y Ddeddf wedi dod i rym eto drwy is-ddeddfwriaeth.

Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon y byddai'n caniatáu i'r ddau sefydliad addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon bennu drostynt eu hunain y ffioedd y byddant yn eu codi ar fyfyrwyr o weddill y DU, ond na fyddai'n disgwyl i'r rhain fod yn fwy na £9,000 y flwyddyn. Rhoddwyd cap o £3,465 ar ffioedd i fyfyrwyr o Ogledd Iwerddon a'r UE sy'n astudio yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer 2012/13.

## Y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn newydd sy'n hanu o Gymru 2012/13

| | Gwerth | Cymhwysedd |
|---|---|---|
| **Cymorth gyda ffioedd dysgu** | | |
| Benthyciad Ffioedd Dysgu | £3,465 | Pob myfyriwr sy'n talu ffioedd |
| Tuition Fee Grant | Hyd at £5,535<br><br>*Y gwahaniaeth rhwng y benthyciad ffioedd dysgu a'r ffi a godir mewn gwirionedd gan sefydliadau - ar ôl cyfrif bwrsarïau unigol* | Pob myfyriwr sy'n talu ffioedd |
| **Cymorth ar gyfer cynhaliaeth a chostau byw** | | |
| Grant Dysgu'r Cynulliad | Hyd at £5,000 | Prawf modd:<br>• Incwm yr aelwyd yn £18,370 neu'n llai = grant llawn<br>• Rhwng £18,371 a £50,020 = grant rhannol<br>• Dros £50,020 = dim grant |
| Grant Cymorth Arbennig | Hyd at £5,000 | Prawf modd, yr un fath ag ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad<br><br>Ar gael os bodlonir meini prawf penodol, e.e. unig riant, anableddau penodol, dros 60 oed<br><br>Nid oes modd cael Grant Dysgu'r Cynulliad a Grant Cymorth Arbennig. |
| Benthyciad Cynhaliaeth | • Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain: hyd at £6,648<br>• Yn byw oddi cartref ac yn astudio mewn man arall yn y DU: hyd at £4,745<br>• Yn byw gartref: hyd at £3,673<br><br>*Mae gwerth y benthyciad yn gostwng 60c am bob £1 o Grant Dysgu'r Cynulliad a geir hyd at uchafswm o £2,844 o ostyngiad (nid yw'r un trefniant yn berthnasol i'r Grant Cymorth Arbennig)* | Prawf modd:<br>• Os bydd incwm yr aelwyd yn fwy na £50,020, dim ond y swm sylfaenol sy'n cyfateb i 75 y cant o gyfanswm y benthyciad sydd ar gael y bydd mmyfyrwir yn gymwys i'w gael |



## Y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn newydd sy'n hanu o Loegr 2012/13

| | Gwerth | Cymhwysedd |
|---|---|---|
| **Cymorth gyda ffioedd dysgu** | | |
| Benthyciad Ffioedd Dysgu | Hyd at £9,000 | Pob myfyriwr sy'n talu ffioedd |
| **Cymorth ar gyfer cynhaliaeth a chostau byw** | | |
| Grant Cynhaliaeth | Hyd at £3,250 | Prawf modd:<br>• Incwm yr aelwyd yn £25,000 neu'n llai = grant llawn<br>• Rhwng £25,000 a £42,600 = grant rhannol<br>• Dros £42,600 = dim grant |
| Grant Cymorth Arbennig | Hyd at £3,250 | Prawf modd<br><br>Cymwys os bodlonir meini prawf penodol, e.e. unig riant, anableddau penodol, dros 60 oed<br><br>Nid oes modd cael grant cynhaliaeth a grant cymorth arbennig. |
| Benthyciad Cynhaliaeth | • Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain: hyd at £7,675<br>• Yn byw oddi cartref ac yn astudio mewn man arall yn y DU: hyd at £5,500<br>• Yn byw gartref: hyd at £4,375<br><br>*Gostyngir gwerth y benthyciad 50c am bob £1 o'r Grant Cynhaliaeth a geir (nid yw'r un trefniant yn berthnasol i'r Grant Cymorth Arbennig)* | Prawf modd<br><br>Os bydd incwm yr aelwyd yn uwch na'r terfyn uchaf (mae hyn yn amrywio yn dibynnu ymhle mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio), dim ond y swm sylfaenol sy'n cyfateb i 65 y cant o'r benthyciad sydd ar gael y bydd y myfyriwr yn gymwys i'w gael. |

**Y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn newydd sy'n hanu o Ogledd Iwerddon 2012/13**

| | Gwerth | Cymhwysedd |
|---|---|---|
| **Cymorth gyda ffioedd dysgu** | | |
| Benthyciad Ffioedd Dysgu | • £3,465 os yn astudio yng Ngogledd Iwerddon<br>• Hyd at £9,000 os yn astudio y tu allan i Ogledd Iwerddon | Pob myfyriwr sy'n talu ffioedd |
| **Cymorth ar gyfer cynhaliaeth a chostau byw** | | |
| Grant Cynhaliaeth | Hyd at £3,475 | Prawf modd:<br>• Incwm yr aelwyd yn £19,203 neu'n llai = grant llawn<br>• Rhwng £19,203 a £41,065 = grant rhannol<br>• Dros £41,065 = dim grant |
| Grant Cymorth Arbennig | Hyd at £3,475 | Prawf modd<br><br>Cymwys os bodlonir meini prawf penodol, e.e. unig riant, anableddau penodol, dros 60 oed<br><br>Nid oes modd cael grant cynhaliaeth a grant cymorth arbennig. |
| Benthyciad Cynhaliaeth | • Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain: hyd at £6,780<br>• Yn byw oddi cartref ac yn astudio mewn man arall yn y DU: hyd at £4,840<br>• Yn byw gartref: hyd at £3,750<br><br>*Gostyngir y benthyciad os bydd rhywun cael grant cynhaliaeth* | Prawf modd:<br>• Os bydd incwm yr aelwyd yn fwy na £41,065 dim ond y swm sylfaenol y bydd y myfyriwr yn gymwys i'w gael |



## Y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn newydd sy’n hanu o’r Alban 2012/13

| | Gwerth | Cymhwysedd |
|---|---|---|
| **Cymorth gyda ffioedd dysgu** | | |
| Benthyciad Ffioedd Dysgu | Hyd at £9,000 | Pob myfyriwr sy'n talu ffioedd |
| **Cymorth ar gyfer cynhaliaeth a chostau byw** | | |
| Bwrsari Myfyrwyr Ifanc | Hyd at £2,640 | Prawf modd:<br>• Incwm yr aelwyd yn £19,310 neu’n llai = grant llawn<br>• Rhwng £19,310 a £34,195 = grant rhannol<br>• Dros £34,195 = dim grant<br>Rhaid i rywun fod yn astudio yn yr Alban<br>Rhaid i rywun fod yn 25 oed neu’n iau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf |
| Bwrsari Myfyrwyr Annibynnol | Hyd at £1,000 | Prawf modd:<br>• Incwm yr aelwyd yn £19,310 neu’n llai = grant llawn<br>• Rhwng £19,310 a £34,195 = grant rhannol<br>• Dros £34,195 = dim grant<br>Rhaid i rywun fod yn astudio yn yr Alban<br>Rhaid i rywun fod dros 25 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd neu fodloni meini prawf eraill sy’n dangos ei fod yn annibynnol |
| Benthyciad Cynhaliaeth | Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain: Hyd at £7,500<br>Yn byw oddi cartref ac yn astudio mewn man arall yn y DU: Hyd at £6,380<br>Yn byw gartref: Hyd at £5,395 | Means-tested:<br>• Household incomes above higher limit (which varies depending where student lives and studies) only eligible for basic amount equal to £940 away from home or £620 at home<br>Loan reduced by the amount of bursaries received |
| Bwrsari i Fyfyrwyr y tu allan i'r Alban | Hyd at £2,150 | Prawf modd:<br>• Incwm yr aelwyd yn £19,310 neu’n llai = grant llawn<br>• Rhwng £19,310 a £34,195 = grant rhannol<br>• Dros £34,195 = dim grant<br>Rhaid i rywun fod yn astudio y tu allan i’r Alban |

**Y trefniadau presennol ar gyfer ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr - myfyrwyr israddedig amser llawn newydd sy'n hanu o'r DU yn 2012/13**

| Y wlad y mae'r myfyriwr yn hanu ohoni | Ad-daliadau | Llog |
|---|---|---|
| Cymru | Naw y cant o enillion dros £21,000<br><br>Diddymir rhan o'r benthyciad cynhaliaeth, sef £1,500, ar ôl i rywun wneud yr ad-daliad cyntaf | During study, Retail Price Index plus three per cent<br><br>After study income dependent, from Retail Price Index levels up to Retail Price Index plus three per cent |
| Lloegr | Fel yng Nghymru, ond ni chaiff rhan o'r benthyciad cynhaliaeth ei diddymu | Fel yng Nghymru |
| Gogledd Iwerddon | Naw y cant o enillion dros £16,365 | Fe'i pennir bob blwyddyn ym mis Medi - 1.5 y cant yn 2012/13 |
| Yr Alban | Naw y cant o enillion dros £16,365 | Fe'i pennir bob blwyddyn ym mis Medi - 1.5 y cant yn 2012/13 |



# Atodiad 3 – Canlyniadau 'Ailddyrannu Niferoedd Myfyrwyr yn Strategol' a dyraniadau'r 'Uchafswm Grant Ffioedd Dysgu' ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2013/14

Y newid arfaethedig yn y nifer fwyaf o fyfyrwyr amser llawn israddedig a TAR newydd a ganiateid yn 2013/14 yn sgil proses Ailddyrannu Niferoedd yn Strategol CCAUC oedd y sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo terfyn 'Uchafswm y Grant Ffioedd'. Defnyddiwyd hwn wedyn gan CCAUC ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

### Ailddyrannu Niferoedd yn Strategol ar gyfer 2013/14

| Institution | Nifer fwyaf o fyfyrwyr yn 2012/13 - myfyrwyr newydd[1] | Nifer fwyaf o fyfyrwyr yn 2013/14 - myfyrwyr newydd | Newid rhwng 2012/13 a 2013/14 |
|---|---:|---:|---:|
| Prifysgol Aberystwyth | 4,121 | 4,932 | 811 |
| Prifysgol Bangor | 2,489 | 1,976 | -513 |
| Prifysgol Caerdydd | 2,136 | 1,935 | -201 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 4,461 | 4,524 | 63[2] |
| Prifysgol Abertawe | 1,075 | 1,004[3] | -71 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 2,548 | 2,274 | -274 |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd | 2,818 | 2,975 | 157 |
| Prifysgol Glyndŵr | 1,520 | 1,209 | -311 |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 1,118 | 1,230 | 112 |
| Cyfanswm | 1,794 | 2,154 | 360 |
| **Total** | **24,080** | **24,213** | **133** |

Nodiadau

1. Mae niferoedd y myfyrwyr a ddangosir yn cynrychioli nifer y myfyrwyr newydd israddedig a TAR amser llawn y gall CCAUC eu cyllido. Nid yw'r 365 o leoedd a ddyrennir i sefydliadau addysg bellach sy'n darparu cyrsiau a gyllidir gan CCAUC wedi'u cynnwys am nad oedd y rhain yn rhan o'r broses ailddyrannu niferoedd (Cylchlythyr CCAUC W12/14HE, *Strategic Reallocation of Student Numbers – Outcomes*, Ebrill 2012).
2. Wrth ailddyrannu'r niferoedd, cynyddwyd y nifer fwyaf o fyfyrwyr y câi Prifysgol Caerdydd eu derbyn 130 o leoedd. Serch hynny, adroddodd CCAUC i'r brifysgol ddewis ildio 67 o'r lleoedd ychwanegol hyn am nad oedd yn dymuno cynyddu nifer ei myfyrwyr yn sylweddol.
3. Mae dyraniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys 200 o leoedd ychwanegol i fyfyrwyr newydd gan gydnabod yr uno â Phrifysgol Fetropolitan Abertawe.

*Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan CCAUC*

## Uchafswm dyraniadau'r Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer 2013/14

| Sefydliad | Uchafswm y Grant Ffioedd Dysgu (£ miliwn)[1] |
|---|---|
| Prifysgol Morgannwg | 21.43 |
| Prifysgol Aberystwyth | 9.69 |
| Prifysgol Bangor | 8.66 |
| Prifysgol Caerdydd | 19.89 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 14.595 |
| Prifysgol Abertawe | 13.750 |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 13.96 |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd | 6.86 |
| Prifysgol Glyndŵr | 5.20 |
| Sefydliadau addysg bellach | 2.54 |
| **Cyfanswm** | **116.57** |

Nodyn

1 Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys lefel goddefiant o bump y cant uwchben terfyn y grant ffioedd sylfaenol. Ni chosbir sefydliad os bydd drwyddo draw'n hawlio grantiau ffioedd hyd at y terfyn hwn. Mae'r terfynau'n berthnasol i fyfyrwyr newydd ac i fyfyrwyr yn eu hail flwyddyn yn 2013/14.

*Ffynhonnell: Cylchlythyr CCAUC W13/09HE, HEFCW's Funding Allocations 2013/14, Ebrill 2013*



# Atodiad 4 – Perfformiad o gymharu â thargedau strategol y sector addysg uwch, 2008/09 tan 2011/12

Dyma'r targedau a bennwyd ar gyfer y sector yn strategaeth gorfforaethol CCAUC ar gyfer 2010-11 hyd 2012-13, sy'n adlewyrchu amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru fel y nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen *Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr 21ain Ganrif*, Tachwedd 2009. Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd CCAUC strategaeth gorfforaethol dair blynedd newydd. Mae'r strategaeth newydd yn cynnwys rhywfaint o ddiweddariadau i'r targedau presennol a rhywfaint o fesurau ychwanegol, er enghraifft ynghylch safonau ansawdd a rhagoriaeth ymchwil mewn addysg uwch. Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ddatganiad Polisi* newydd am Addysg Uwch.

| Mesur Strategol | 2008/09 (llinell sylfaen) | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| **1 Ehangu mynediad - cynyddu cyfran y myfyrwyr 'Cymunedau yn Gyntaf'**<br>Cynnydd o 10 y cant yng nghyfran yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ac sy'n hanu o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru. O 15.6 y cant yn 2008/09 i 17.2 y cant yn 2012/13[1]. | 15.6% | 16.2% | 16.5% | 16.9% |
| **2 Cynnydd yn y gyfradd sy'n cwblhau modiwlau**<br>Cynnydd o 2.7 y cant yn nifer y myfyrwyr israddedig sy'n cofrestru yn sefydliadau addysg uwch Cymru sy'n cwblhau modiwlau. O 87.6 y cant yn 2008/09 i 90 y cant yn 2012/13[2]. | 87.6% | 90.1% | 92.5% | 93.7% |
| **3 Sgoriau 'boddhad cyffredinol' yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol**<br>Bydd sgôr gyfartalog dreigl tair blynedd Cymru yn y cwestiwn am 'foddhad cyffredinol' yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn cyfateb i'r sgôr gymharol ar gyfer y DU, neu'n uwch na hynny[3]. | Cymru: 83.3%<br>UK: 81.7% | Cymru: 83.0%<br>Y DU: 82.0% | Cymru: 82.7%<br>Y DU: 82.3% | Cymru: 83.0%<br>Y DU: 83.3% |

| Mesur Strategol | 2008/09 (llinell sylfaen) | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| **4 Cynnydd yn y nifer sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg**<br>Bydd nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru ac sy'n gwneud rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu o 4,586 yn 2008/09 i 5,509 yn 2012/13[4]. | 4,586 | 4,612 | 4,690 | 4,328 |
| **5 Twf yn nifer y myfyrwyr tramor.**<br>Bydd canran y twf o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn cyfateb i'r ffigur cymharol ar gyfer sefydliadau'r DU neu'n uwch na hynny (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr)[5]. | Cymru: 15.1%<br>Y DU: 10.4% | Cymru: 26.7%<br>Y DU: 11.9% | Cymru: 16.4%<br>Y DU: 8.5% | Cymru: -1.5%<br>Y DU: 2.6% |
| **6 Perfformiad o ran cyflogadwyedd**<br>Bydd cyfran y rhai sy'n gadael sefydliadau addysg uwch Cymru sy'n ennill eu gradd gyntaf ar ôl dilyn cwrs amser llawn ac sy'n gyflogedig, sy'n astudio, neu sy'n gyflogedig ac yn astudio, chwe mis ar ôl iddynt adael, yn cyfateb i'r gyfran yn y DU neu'n uwch na hynny erbyn 2012/13[6]. | Cymru: 91.2%<br>Y DU: 89.9% | Cymru: 91.9%<br>Y DU: 90.4% | Cymru: 91.0%<br>Y DU: 90.3% | Cymru: 91.6%<br>Y DU: 90.8% |
| **7 Cynnydd yn y nifer ym mhump awdurdod unedol Blaenau'r Cymoedd sy'n manteisio ar addysg uwch.**<br>Bydd cyfradd y myfyrwyr hynny o'r pump awdurdod unedol a wasanaethir gan Sefydliad Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth addysg uwch Cymru yn cynyddu wyth y cant i gyrraedd cyfartaledd cenedlaethol Cymru yn 2008-09 erbyn 2012/13 (o 2.5% i 2.7%)[7]. | 2.5% | 2.5% | 2.5% | Nid oedd y ffigur wedi'i gyhoeddi adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn |
| **8 Cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhan-amser**<br>Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn cynyddu o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13[8]. | 54,714 | 50,243 | 50,020 | 49,136 |



| Mesur Strategol | | 2008/09 (llinell sylfaen) | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Trosglwyddo gwybodaeth: perfformiad cwmnïau allgynhyrchu**<br>Bydd niifer y cwmnïau allgynhyrchu sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi am o leiaf dair blynedd yn cynyddu 10 y cant. O 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13[9]. | 252 | 301 | 376 | 445 |
| 10 | **Twf yng nghyllid y cynghorau ymchwil**<br>Bydd twf canrannol blynyddol yr incwm a gaiff sefydliadau addysg uwch Cymru gan gynghorau ymchwil yn cyfateb i'r ffigur cymharol ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn y DU, neu'n uwch na hynny (ac eithrio 'triongl euraidd' Rhydychen, Caergrawnt a Llundain)[10]. | Cymru: 17.4%<br>Y DU: 13.9% | Cymru: 3.0%<br>Y DU: 3.1% | Cymru: 1.2%<br>Y DU: -2.7% | Cymru: -3.6%<br>Y DU: -4.0% |
| 11 | **(a) Ailffurfweddu a chydweithio - targed incwm blynyddol**<br>Erbyn 2012/13, bydd gan o leiaf 75 y cant o sefydliadau addysg uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy nag incwm cymedrig y DU[11]. | 36%<br>(4 o 11) | 45%<br>(5 o 11) | 40%<br>(4 o 10) | 40%<br>(4 o 10) |
| 11 | **(b) Ailffurfweddu a chydweithio - targed incwm blynyddol**<br>Erbyn 2012/13, ni fydd yr un o sefydliadau addysg uwch Cymru yn y chwartel isaf incwm blynyddol sefydliadau addysg uwch y DU[11]. | 36%<br>(4 o 11) | 36%<br>(4 o 11) | 30%<br>(3 o 10) | 30%<br>(3 o 10) |
| 12 | **Llywodraethu: dim un sefydliad yn wynebu 'risg uchel'**<br>Dim un sefydliad addysg uwch i'w gategoreiddio'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC[12]. | 0 | 0 | 0 | 0 |

Nodiadau

1 Un o raglenni Llywodraeth Cymru yw Cymunedau yn Gyntaf a'i nod yw cynorthwyo pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd ardaloedd yn cael eu dynodi'n ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn iddynt gael cyllid sy'n seiliedig ar ddulliau o fesur amddifadedd. Bydd astudio drwy ba fodd bynnag, ar bob lefel ac ym mhob blwyddyn cael ei gynnwys yn y dangosydd perfformiad. Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

2 Cynhwysir cyrsiau amser llawn, cyrsiau rhyngosod a chyrsiau rhan amser i israddedigion. Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

3 Ar gyfer y dangosydd hwn, ni chynhwysir y Brifysgol Agored yn y data ar gyfer sefydliadau Cymru.

4 Mae'r mesur yn cynnwys myfyrwyr amser llawn, rhan-amser, israddedigion ac ôlraddedigion. Mae'n cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru. Daw'r y data o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch ar gyfer sefydliadau addysg bellach.

5 At ddibenion y mesur hwn, myfyrwyr tramor yw'r rhai nad ydynt yn hanu o'r UE, Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw ac maent yn cynnwys myfyrwyr cyfnewid sy'n dod yma i astudio. Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer y dangosydd hwn, ni chynhwysir y Brifysgol Agored yn y data ar gyfer sefydliadau Cymru.

6 Ffynhonnell y data ar gyfer y mesur hwn yw arolwg Cyrchfan Gadawyr Addysg Uwch yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer y dangosydd hwn, ni chynhwysir y Brifysgol Agored yn y data ar gyfer sefydliadau Cymru.

7 Cynllun addysg yw Sefydliad Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd sy'n cynnig ystod o gyrsiau addysg uwch i bobl sy'n byw neu'n gweithio yng Nghaerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Fe'i sefydlwyd yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg (sydd bellach yn Brifysgol De Cymru). Mae'r mesur yn cynnwys myfyrwyr o ardaloedd Sefydliad Prifysgol Blaenau'r Cymoedd sy'n astudio mewn unrhyw sefydliad yng Nghymru.

8 Mae'r mesur yn cynnwys israddedigion ac ôlraddedigion. Os bydd myfyriwr wedi cofrestru ar fwy nag un cwrs, dim ond unwaith y caiff y myfyriwr hwnnw ei gyfrif. Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'r Ffigurau yng Nghymru yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru a welodd, yn ystod yr un cyfnod ac yn groes i'r duedd yn y sector yn gyffredinol, gynnydd o 16 y cant yn nifer y myfyrwyr rhan amser o 7,689 i 8,938.

9 Daw'r data o'r Arolwg Rhyngweithio rhwng Addysg Uwch, Busnes a'r Gymuned. Ar gyfer y dangosydd hwn, ni chynhwysir y Brifysgol Agored yn y data ar gyfer sefydliadau Cymru.

10 Sefydliadau'r 'triongl euraidd' yw Rhydychen, Caergrawnt, Imperial, Coleg y Brifysgol Llundain, Coleg King's Llundain ac Ysgol Economeg Llundain. Daw'r data o Gofnod Ystadegau Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer y dangosydd hwn, ni chynhwysir y Brifysgol Agored yn y data ar gyfer sefydliadau Cymru.

11 Lleihaodd nifer y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o 11 i 10 yn 2010/11 ar ôl i Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod uno i ffurfio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Nid yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'i chynnwys yn y dangosydd hwn. Daw'r data o Gofnod Ystadegau Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

12 Dim ond at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru y mae proses adolygu risg CCAUC yn berthnasol iddynt y mae'r mesur hwn yn cyfeirio (gweler paragraffau 2.77 i 2.84 ym mhrif gorff yr adroddiad hwn).

*Ffynhonnell: Darparwyd y wybodaeth a'r data gan CCAUC*



# Atodiad 5 – Data ariannol ategol ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru, 2010/11 a 2011/12

| | Cyfanswm yr incwm (£ miliwn) | | Gwarged cost hanesyddol incwm dros wariant ar ôl treth (£ miliwn) | | Gwarged cost hanesyddol incwm dros wariant ar ôl treth fel % o'r incwm blynyddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010/11 | 2011/12 | 2010/11 | 2011/12 | 2010/11 | 2011/12 |
| Prifysgol Aberystwyth | 118.6 | 120.4 | 3.05 | 2.61 | 2.6% | 2.2% |
| Prifysgol Bangor | 131.2 | 131.5 | 2.12 | -0.97 | 1.6% | -0.7% |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 83.2 | 82.2 | 6.53 | 5.09 | 7.9% | 6.2% |
| Prifysgol Caerdydd | 413.0 | 425.5 | 13.94 | 11.82 | 3.4% | 2.8% |
| Prifysgol Morgannwg | 144.2 | 148.9 | 1.92 | 3.76 | 1.3% | 2.5% |
| Prifysgol Glyndŵr | 44.4 | 48.3 | 1.74 | 1.68 | 3.9% | 3.5% |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd | 49.7 | 50.5 | 10.50 | 2.54 | 21.1% | 5.0% |
| Prifysgol Abertawe | 172.5 | 178.3 | 7.88 | 5.41 | 4.6% | 3.0% |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 36.6 | 37.4 | 6.86 | 8.10 | 18.8% | 21.6% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 34.5 | 37.1 | 0.36 | 1.44 | 1.0% | 3.9% |
| **Cyfanswm neu gyfartaledd** | **1,227.8** | **1,260.1** | **54.89** | **41.47** | **4.5%** | **3.3%** |

| | Nifer y diwrnodau calendr y byddai digon o adnoddau arian parod ar gael i dalu am y gwariant[1] | | Gweddillion dewisol fel % o'r incwm blynyddol[2] | | Benthyciadau allanol tymor hir a ddelir fel % o'r incwm blynyddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010/11 | 2011/12 | 2010/11 | 2011/12 | 2010/11 | 2011/12 |
| Prifysgol Aberystwyth | 45 | 34 | 41.9% | 42.9% | 0.0% | 0.0% |
| Prifysgol Bangor | 104 | 61 | 33.7% | 31.9% | 10.3% | 9.1% |
| Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | 109 | 153 | 45.5% | 52.9% | 36.6% | 36.4% |
| Prifysgol Caerdydd | 165 | 162 | 52.5% | 53.3% | 5.7% | 5.3% |
| Prifysgol Morgannwg | 77 | 100 | 48.7% | 51.2% | 35.9% | 34.9% |
| Prifysgol Glyndŵr | 58 | 61 | 44.2% | 44.6% | 0.0% | 0.0% |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd | 134 | 174 | 74.6% | 79.6% | 47.1% | 45.9% |
| Prifysgol Abertawe | 87 | 74 | 28.8% | 30.8% | 1.6% | 1.4% |
| Prifysgol Fetropolitan Abertawe | 398 | 502 | 114.9% | 135.5% | 0.0% | 0.0% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 227 | 175 | 56.1% | 56.5% | 1.8% | 0.7% |
| **Cyfanswm neu gyfartaledd** | **124** | **124** | **47.8%** | **49.9%** | **11.9%** | **11.3%** |

Nodiadau

1 Mae'r fesur hon o adnoddau arian parod yn adlewyrchu ciplun o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

2 Seilir y ffigurau ar gyfer y gronfa wrth gefn ddewisol hon ar y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r cronfeydd gwaddol gwariadwy ac nid ydynt yn cynnwys effaith diffygion mesuradwy mewn cronfeydd pensiwn.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau a gwybodaeth a ddarparwyd gan CCAUC*